Llywodraeth EM

# Helpu i Lunio Ein Dyfodol

## Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yng Nghymru a Lloegr 2021

Rhagfyr 2018

# Helpu i Lunio Ein Dyfodol

## Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yng Nghymru a Lloegr 2021

Cyflwynwyd gerbron y Senedd gan y Gweinidog dros y Cyfansoddiad, drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid

Rhagfyr 2018

© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: census.customerservices@ons.gov.uk

ISBN: 978-1-5286-0914-2

CCS1118095578

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Rhagair (gan Chloe Smith, AS, y Gweinidog dros y Cyfansoddiad) ..... v
Rhagair (gan Syr David Norgrove, Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU) ..... vii

## 1 Cyflwyniad ..... 2

Deall y boblogaeth a'r angen am ddata er mwyn ategu penderfyniadau ..... 2
Y penderfyniad am y cyfrifiad ..... 3
Meini prawf llwyddiant ar gyfer Cyfrifiad 2021 a thu hwnt ..... 3
Crynodeb o brif nodweddion dylunio Cyfrifiad 2021 ..... 4
Sicrhau bod y cyfrifiad yn cynnwys pawb ..... 4
Diogelu data a phreifatrwydd ..... 6
Rôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Awdurdod Ystadegau'r DU ..... 6
Rôl Llywodraeth Cymru ..... 7
Dewis dyddiad ..... 7
Ystyried y cynigion ar gyfer y cyfrifiadau yng Nghymru a Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon ar wahân ..... 8
Safbwynt rhyngwladol ..... 8
Cynnwys y cyfrifiad ..... 9
Newidiadau i bynciau ..... 9

## 2 Ymgynghori, cynnal profion ar gyfer y cyfrifiad ac ymgysylltu'n ehangach ..... 12

Cyflwyniad ..... 12
Ymgyngoriadau ..... 12
Ymgynghori ar y cyfrifiad a darparu ystadegau ar y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol ..... 13
Ymgyngoriadau ar bynciau'r cyfrifiad ..... 15
Ymgysylltu'n ehangach ..... 16
Ymgysylltu â Chymru a'r gweinyddiaethau datganoledig ..... 17
Profion y cyfrifiad ..... 17
Profi dilysrwydd dyluniad Cyfrifiad 2021 ..... 18
Profion mawr y cyfrifiad ..... 18

## 3 Y boblogaeth a'r pynciau i'w cynnwys yn y cyfrifiad ..... 26

Sylfaen y boblogaeth ..... 26
Gwerthuso gofynion pynciau ..... 27
- Meini prawf gwerthuso gofynion defnyddwyr ..... 28
- Meini prawf gwerthuso sy'n gysylltiedig ag ystyriaethau eraill ..... 30
- Meini prawf gwerthuso sy'n gysylltiedig â gofynion gweithredol ..... 30
- Profion datblygu cwestiynau ..... 30

Pynciau dethol ..... 31
- Crynodeb o'r pynciau ..... 31
- Pynciau arfaethedig newydd ..... 34
- Pynciau a gadwyd o 2011 ..... 42

Cwestiynau nad yw SYG yn bwriadu eu gofyn ..... 63
Cwestiynau y mae SYG yn argymell eu dileu ..... 66
Monitro cydraddoldeb yn dilyn y cyfrifiad ..... 66

## 4 Casglu'r wybodaeth ..... 70

Cyflwyniad ..... 70
Amcanion gweithredol ..... 74
Datblygu a defnyddio cofrestr cyfeiriadau gynhwysfawr ..... 74
- Trosolwg ..... 74
- Datblygu a sicrhau ansawdd cofrestr cyfeiriadau'r cyfrifiad ..... 75
- Defnyddio data gweinyddol er mwyn gwella'r gofrestr cyfeiriadau ..... 76
- Paru cyfeiriadau ..... 76

Adeiladu i ailddefnyddio ..... 77
Staffio ..... 78
- Staff maes ..... 78
- Recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes ..... 79

Dulliau casglu a dychwelyd data (cartrefi) ..... 79
- Cyswllt cychwynnol ..... 79
- Cwblhau holiadur ar lein ..... 80
- Papur ..... 81

Sefydliadau cymunedol (SCau) ..... 81

Rheoli ymatebion ... 82
    Anfon llythyrau atgoffa ... 82
Gweithdrefnau cyfrif arbennig neu wedi'u haddasu ... 82
Ymrwymiad i'r Gymraeg yng Nghymru ... 83
Trefniadau i gefnogi gwaith casglu data ... 84
    Cyhoeddusrwydd ... 84
    Cymorth cyhoeddus ... 85
    Cyswllt ag awdurdodau lleol a chymunedau ... 86
Ymdrin â'r ffurflenni papur ... 88
Gorfodi'r gofyniad cyfreithiol i gwblhau holiadur y cyfrifiad ... 88
Cwmpas ac ansawdd y data ... 89
    Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad ... 91
    Arolwg Ansawdd y Cyfrifiad ... 92
    Mesurau ansawdd a gyhoeddir gyda'r canlyniadau ... 92
Gweithio gyda phartneriaid allanol i gynnal y cyfrifiad ... 92

5 Prosesu, dadansoddi a chynhyrchu cynnyrch ... 96

Cyflwyniad ... 96
Prosesu a dadansoddi ... 98
    Sicrhau ansawdd ... 98
Camau prosesu ... 99
Dadansoddi a rhannu'r canlyniadau ... 101
    Rhannu'r canlyniadau ... 101
    Dadansoddi data ... 103
Defnyddio data gweinyddol er mwyn gwella ac ategu allbynnau ... 103
Cynllunio daearyddiaeth cynnyrch ... 104

6 Cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch digidol ... 108

Egwyddorion cyfrinachedd ... 108
Cyfrinachedd ystadegol ... 110
Rheoli defnydd pellach o ddata'r cyfrifiad ... 111
Atal defnyddio data at ddibenion nad ydynt yn ystadegol ... 112
Staff maes ... 113

Diogelwch gwasanaethau ar gontract allanol ... 113
Diogelwch digidol ac adolygu cyfrinachedd ... 114
Polisi Llywodraeth y DU ar alluogi'r cyhoedd i weld cofnodion cyfrifiad personol ... 114

**7 Y broses ddeddfwriaethol ... 116**

Cyflwyniad ... 116
Deddfwriaeth sylfaenol y cyfrifiad ... 116
Is-ddeddfwriaeth y cyfrifiad ... 116
- Gorchymyn y Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr ... 116
- Rheoliadau ar wahân ar gyfer y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr ... 117

Trefniadau ar gyfer y cyfrifiad yng Nghymru ... 118
Datganoli'r cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ... 118

**8 Dyfodol y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr ... 122**

Cyflwyniad ... 122
System newydd ar gyfer ystadegau am y boblogaeth a mudo ... 123
Datblygu cynigion ar gyfer y cyfrifiad ar ôl 2021 ... 124
Datblygu dull newydd o weithredu a threfniadau gwneud penderfyniadau ... 125
Defnyddio data gweinyddol yn y cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ... 127

**9 Costau a buddiannau ... 130**

Cyflwyniad ... 130
Costau ... 131
Buddiannau ... 131

# Rhagair (gan Chloe Smith, AS, y Gweinidog dros y Cyfansoddiad)



Ym mis Mawrth 2021 cynhelir yr ail gyfrifiad ar hugain, ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd ei angen, gan fuddsoddi yn y gwasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, cartrefi ac ysgolion sydd eu hangen ar bobl. Mae'r wybodaeth y mae'r cyfrifiad yn ei darparu am y boblogaeth, ei nodweddion, addysg, crefydd, ethnigrwydd, bywyd gwaith ac iechyd yn rhoi'r cyfle i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau o fewn llywodraeth genedlaethol a lleol, grwpiau cymunedol, elusennau a byd busnes i wasanaethu cymunedau ac unigolion yn well yn y Deyrnas Unedig. Mae'n caniatáu cefnogaeth i ystod eang o wasanaethau a chynllunio at y dyfodol.

Diben Cyfrifiad 2021 yw casglu gwybodaeth er mwyn helpu i adeiladu gwlad sy'n gweithio i bawb, a bydd y canlyniadau yn adlewyrchu pawb yn ein cymdeithas. Er mwyn adeiladu cymdeithas sy'n fwy cryf, yn fwy teg ac yn fwy gofalgar ac er mwyn mynd i'r afael ag anghyfiawnder, mae angen i ni gael gwybodaeth ddibynadwy am niferoedd a nodweddion pobl a chartrefi er mwyn gallu cefnogi ystod eang o wasanaethau a chynllunio at y dyfodol.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu cynigion Awdurdod Ystadegau annibynnol y DU ar gyfer Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, ac mae'r Llywodraeth yn falch o gyflwyno hwn i'r Senedd. Ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, bydd y Llywodraeth yn gosod Gorchymyn yn y Cyngor o flaen y Senedd i'w gymeradwyo o dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol, elusennau, cyrff llywodraethol a byd busnes, yn ogystal ag ymgynghori'n helaeth â nhw, er mwyn sicrhau bod yr ystadegau mae'n eu cynhyrchu o fudd i bob cymuned. Bydd y cyfrifiad hwn nid yn unig yn taflu goleuni ar dueddiadau hirdymor, ond bydd hefyd yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi heddiw, gyda chymysgedd o gwestiynau traddodiadol a newydd, er mwyn creu Teyrnas Unedig addas at y dyfodol.

Am y tro cyntaf, bydd yn gyfrifiad a gynhelir ar lein yn bennaf, ac felly bydd yn fwy cyfleus ei gwblhau i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth, ond gan wneud darpariaeth ar gyfer y sawl na allant lenwi'r cyfrifiad ar lein. Er mwyn sicrhau bod y cyfrifiad hwn mor gynhwysol â phosibl, bydd SYG yn darparu ystod lawn o wasanaethau cymorth, gan gynnwys cymorth wyneb yn wyneb, canolfan gyswllt a wnaiff gynnig arweiniad a chymorth dros y ffôn a gwasanaethau digidol fel adnodd sgwrsio ar y we a chyfryngau cymdeithasol, holiaduron y cyfrifiad mewn Braille ac Iaith Arwyddion Prydain, a deunyddiau ategol wedi'u targedu.

Mae'r papur yma hefyd yn pennu cyfeiriad cynhyrchu ystadegau swyddogol yn y dyfodol, gyda data gweinyddol wrth wraidd y system.Bydd hyn yn golygu gwell defnydd o ddata ar draws llywodraeth ac ystadegau mwy cyfredol, am na fydd angen aros deng mlynedd am wybodaeth hanfodol y cyfrifiad.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Mae'r dyddiad arfaethedig ar gyfer y cyfrifiad wedi'i ystyried ar y cyd ar draws y dair swyddfa cyfrifiad yn y DU (yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae swyddfeydd ystadegol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cydweithio i sicrhau bod ystadegau cyson yn cael eu cynhyrchu.

Yn bwysicaf oll, mae'r cyfrifiad yn dibynnu ar gefnogaeth, cydweithrediad a chyfranogiad parod y cyhoedd, y cesglir y wybodaeth ar ei ran. Mae Cyfrifiad 2021 yn gwahodd pawb i helpu i lunio ein dyfodol.



Chloe Smith AS, y Gweinidog dros y Cyfansoddiad

# **Rhagair** (gan Syr David Norgrove, Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU)



Mae ystadegau am y boblogaeth yn hanfodol i'n gwlad, yn genedlaethol, yn lleol ac yn gymunedol. Unwaith bob deng mlynedd mae'r cyfrifiad yn darparu cyfle i greu darlun manwl a chynhwysfawr o'r genedl. Mae'r cyfrifiad i bawb. Caiff y boblogaeth gyfan y cyfle i ddarparu'r wybodaeth a all helpu i sicrhau bod y cymunedau y mae'n byw ynddynt yn cael eu gwasanaethu'n dda.

Dim ond y cyfrifiad sy'n darparu ystadegau cyson ar gyfer ardaloedd bach a grwpiau bach o'r boblogaeth ledled Cymru a Lloegr. O'u cyfuno â data o gyfrifiadau tebyg a gynhelir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mae'n darparu darlun ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Mae'r holl wybodaeth hon yn sail i bolisïau cenedlaethol a lleol, er mwyn cynllunio a thargedu adnoddau. Heb y wybodaeth genedlaethol a lleol hon am y boblogaeth, nodweddion pobl, addysg, bywyd gwaith ac iechyd, ni all ein gwasanaethau cyhoeddus na'n busnesau wasanaethu ein cymunedau'n briodol. Mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau (llywodraeth genedlaethol a lleol, grwpiau cymunedol, elusennau, cyflogwyr a chynllunwyr) gael gwybodaeth er mwyn nodi unrhyw annhegwch ac anghydraddoldeb yn ein cymdeithas drwy gydnabod anghenion cymunedau, gan eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yng Nghymru, mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cynyddu'r angen i gyrff cyhoeddus ddefnyddio data er mwyn deall llesiant yn eu hardaloedd lleol.

Mae'r cyd-destun gwleidyddol wedi newid yn sylweddol ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, gan gynnwys y penderfyniad bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, sydd wedi atgyfnerthu'r angen i feithrin gwell dealltwriaeth o'r cymunedau rydym yn byw ynddynt a sut maent yn newid.

Cyfrifiad 2021 fydd yr ail i'w gynnal ar lein o dan awdurdod Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod wedi derbyn cyngor yr Ystadegydd Gwladol ar gynnal y cyfrifiad, a chynnwys y cyfrifiad, fel y nodir yn y Papur Gwyn hwn, ac ar ran yr Awdurdod mae'n dda gen i gyflwyno'r cynigion i'r Senedd drwy Swyddfa'r Cabinet.

Bydd Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr – y mae'r cynigion ar ei gyfer wedi'u hamlinellu yn y Papur Gwyn hwn – yn cael ei gynnal ar lein yn bennaf am y tro cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd hyn yn hwylus i bawb, ac felly rydym yn cynnig trefniadau cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu

cwblhau eu ffurflen, boed hynny ar lein, ar bapur neu hyd yn oed dros y ffôn. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad oes neb yn colli allan. Ein nod yw sicrhau ansawdd gwell, ei gwneud hi'n haws i bobl lenwi'r ffurflenni, a bod yn fwy effeithlon ar yr un pryd.


Wrth lunio argymhellion ar gyfer cynnwys y cyfrifiad, ymgynghorodd yr Ystadegydd Gwladol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) â defnyddwyr ac eraill â buddiant mewn agweddau penodol yn eang. Un canlyniad ymhlith pethau eraill yw'r cynnig i gynnwys cwestiynau newydd ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, dim ond i'r rhai sy'n 16 oed a throsodd, er mwyn helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i fonitro'r gwasanaethau maent yn eu darparu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, er na fydd angen i neb nodi eu cyfeiriadedd rhywiol na'u hunaniaeth o ran rhywedd os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd Awdurdod Ystadegau'r DU a'r llywodraeth yn ystyried sut i sicrhau mai hyn yw'r achos. Hefyd, cynigir cwestiwn newydd ar wasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU er mwyn helpu darparwyr gwasanaethau ac eraill i gefnogi cyn-filwyr yn unol â Chyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae'n cymryd amser i brosesu'r holl ddata sy'n deillio o'r cyfrifiad, ond dylai dulliau newydd o weithredu a buddsoddi arwain at ganlyniadau cyflymach na'r hyn a welwyd yn y gorffennol. Y nod yw rhyddhau'r holl ganfyddiadau cychwynnol ymhen 12 mis, a'r holl ddata ymhen 24 mis. Bydd y cynnyrch hefyd yn newid gan olygu, yn ogystal â thablau safonol, y bydd defnyddwyr yn gallu creu rhai eu hunain, gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Eto i gyd fodd bynnag, mae'r newidiadau technolegol sy'n diogelu cyfrinachedd gwybodaeth bersonol pob unigolyn yn parhau i fod yn hollbwysig i Awdurdod Ystadegau'r DU a SYG, a bydd yn parhau felly. Caiff manylion adnabod pawb eu diogelu, nid yn unig drwy drin a thrafod eu data'n ddiogel, ond hefyd drwy sicrhau nad yw ein cyhoeddiadau ystadegol yn adnabod unigolion. Mae cosbau llym yn eu lle er mwyn atal unrhyw un rhag datgelu neu geisio datgelu gwybodaeth bersonol.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae cymdeithas yn newid yn gyflym ac mae defnyddwyr yn dweud wrthym fod angen iddynt gael gwybodaeth yn amlach ac ar lefel fanylach na'r hyn a ddarperir gan gyfrifiad bob deng mlynedd. Mae SYG a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn ehangach yn datblygu eu defnydd o ddata gweinyddol – gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu gan y sector cyhoeddus – fel bod gwybodaeth am y boblogaeth a thai yn gallu bod ar gael yn fwy helaeth ac yn fwy aml.

Ochr yn ochr â'r datblygiad hwnnw yn y dyfodol, bydd yr Awdurdod a SYG yn parhau i fynd ati i sicrhau bod Cyfrifiad 2021 yn gwbl gynhwysol ac yn darparu mwy o wybodaeth nag erioed.



Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU

# 1

# 1 Cyflwyniad

## Deall y boblogaeth a'r angen am ddata er mwyn ategu penderfyniadau

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu argymhellion Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer ail gyfrifiad ar hugain Cymru a Lloegr, cyfrifiad sy'n digwydd bob deng mlynedd, a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Fel sefydliad ystadegol cenedlaethol annibynnol y DU, mae SYG yn darparu data er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth a gwneud penderfyniadau drwy arolygon o'r boblogaeth, data gweinyddol ac, ers 1801, gyfrifiad cenedlaethol. Mae dealltwriaeth o'r boblogaeth yn hanfodol i'n gwlad, yn genedlaethol, yn lleol ac yn gymunedol drwyddi draw. Heb wybodaeth genedlaethol a lleol am y boblogaeth, ei nodweddion, addysg, bywyd gwaith ac iechyd, ni all ein gwasanaethau cyhoeddus na'n busnesau wasanaethu ein cymunedau i'r graddau gorau posibl.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys nifer fawr o dermau ystadegol, a lle bo modd caiff y rhain eu hegluro neu eu harddangos. Mae rhestr termau ar gael ar wefan SYG[1].

### Llunio polisi llywodraeth

1.3 Mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau mewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol gael gwell data lleol fwyfwy ar faint a nodweddion y boblogaeth er mwyn gallu datblygu gwell gwasanaethau, cysylltiadau trafnidiaeth, ysgolion, ysbytai, gofal cymdeithasol i oedolion a thai. Mae angen iddynt ddeall dynameg newidiol y boblogaeth yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael.

### Monitro cydraddoldebau

1.4 Ar yr un pryd, mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau allu mynd i'r afael ag annhegwch ac anghydraddoldeb mewn cymdeithas. Er enghraifft, yn 2017 dangosodd 'Ethnicity Facts and Figures'[2] nad yw ethnigrwydd yn cael ei fonitro'n gyson ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac mewn rhai meysydd nid yw'n digwydd o gwbl. Prin y caiff data ar grefydd eu casglu. Mae llawer o gymunedau am sicrhau bod anghenion eu cymunedau yn cael eu deall a'u diwallu'n barhaus. Bydd SYG yn achub ar y cyfleoedd newydd

---

1 https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011censusdata/2011censususerguide/glossary
2 https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk

sy'n deillio o Ddeddf Economi Ddigidol 2017 er mwyn diwallu'r anghenion hyn (gweler Pennod 3, para 3.183 am fanylion). Mae'r cyfrifiad hefyd yn darparu gwybodaeth sy'n hanfodol bwysig er mwyn cynllunio i ddiwallu'r anghenion hyn.

## Y penderfyniad am y cyfrifiad

1.5 Bob degawd bu adolygiad er mwyn gweld pa wybodaeth am y boblogaeth sydd ei hangen, a ph'un ai cyfrifiad bob deng mlynedd yw'r ffordd orau o fodloni'r gofynion hynny. Yn 2014, argymhellodd yr Ystadegydd Gwladol (gweler Pennod 2 para 2.7) y dylai'r anghenion hyn gael eu diwallu drwy gynnal cyfrifiad ar lein yn bennaf yn 2021 ac, ochr yn ochr â hyn, fod y defnydd o ddata gweinyddol o bob rhan o'r llywodraeth yn cael ei archwilio'n llawn er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon mwy amserol.

1.6 Croesawodd Llywodraeth y DU yr argymhellion hyn mewn llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ar 18 Gorffennaf 2014[3]. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi'r dull arfaethedig o gynnal y cyfrifiad mewn datganiad a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2014 gan y Gweinidog Cyllid [4].

## Meini prawf llwyddiant ar gyfer Cyfrifiad 2021 a thu hwnt

1.7 Mae nodau strategol Cyfrifiad 2021 yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant canlynol. Mae'r cyfrifiad yn cynorthwyo'r unigolion hynny sy'n gwneud penderfyniadau ledled y wlad, gyda'r canlynol:

- canlyniadau sy'n adlewyrchu'r wlad rydym yn byw ynddi heddiw drwy gyflawni targedau ansawdd sydd, fel yn 2011:
  - yn genedlaethol gywir fel y'i mesurir gan gyfwng hyder o +/-0.2%, gyda thuedd o lai na 0.5% ar gyfer Cymru a Lloegr
  - o ansawdd uchel yn lleol gyda chyfyngau hyder o 95% ar gyfer pob awdurdod lleol o +/-3%
  - amrywiad bach iawn o fewn ardal awdurdod lleol
  - targedau cyfradd ymateb o 94% yn genedlaethol ac 80% yn lleol ym mhob awdurdod lleol, er mwyn cefnogi'r lefelau ansawdd hyn
- allbynnau sy'n amserol ac yn hawdd eu defnyddio (canlyniadau cyntaf ymhen blwyddyn)

---

3 https://www.statisticsauthority.gov.uk/archive/reports---correspondence/correspondence/letter-from-rt-hon-francis-maude-mp-to-sir-andrew-dilnot---180714.pdf

4 http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2014/census/?lang=en

1.8 Mae’r cyfrifiad wedi’i gynllunio mewn ffordd sy’n rhoi ymatebwyr wrth ei wraidd er mwyn diwallu anghenion data o ansawdd uchel i’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau, gan sicrhau’r canlynol:

- mae’r cyfrifiad yn hawdd ei gwblhau, ac o fudd mawr i’r sawl sy’n ymateb, fel bod 70% yn darparu data heb fod angen mynd ar eu trywydd
- mae SYG yn diogelu data ymatebwyr, gan sicrhau mai dim ond at ddibenion ystadegol y caiff y data eu defnyddio, ac y gwelir ei bod yn diogelu data defnyddwyr ym mhopeth a wna
- mae data’r cyfrifiad yn adlewyrchu anghenion y gymdeithas sydd ohoni
- fe’i cynhelir ar lein yn bennaf gyda 75% o’r ymatebion yn cael eu darparu ar lein, a rhoddir cymorth i’r rheini sydd ei angen, er mwyn sicrhau mai dyma’r cyfrifiad mwyaf cynhwysol erioed

1.9 Bydd Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data yn cyflawni gwerth am arian drwy:

- gynnig pum gwaith cost yr achos busnes mewn buddiannau
- cyflawni’r trawsnewidiad ehangaf posibl o ran galluoedd SYG drwy drawsnewid ei galluoedd digidol a data, defnyddio data integredig a chasglu data arolygon busnes a chymdeithasol lle mae eu hangen mewn ffordd fodern
- meithrin sgiliau a galluoedd newydd er mwyn cefnogi ffyrdd newydd o weithio, gan sicrhau bod SYG, drwy arolygon, yn gallu casglu’r data y mae arolygon yn gweddu iddynt orau

# Crynodeb o brif nodweddion dylunio Cyfrifiad 2021

## Sicrhau bod y cyfrifiad yn cynnwys pawb

1.10 Rhaid sicrhau bod y cyfrifiad yn cynnwys pawb ac yn gwasanaethu’r boblogaeth gyfan. Bydd y system gwblhau ar-lein yn golygu y gall cymunedau gael eu hadnabod drwy opsiynau teipio i mewn deallus a’r gallu syml i deipio’r gymuned y mae’r ymatebydd am gael ei gysylltu â hi. Ategir hyn gan ddeunydd cyhoeddusrwydd a chyfathrebu sy’n helpu pob cymuned i ddarparu data o ansawdd uchel.

1.11 Bydd yn haws i lawer o unigolion gwblhau eu ffurflen ar lein, ac mae’n llawer mwy costeffeithiol na chwblhau a dychwelyd ffurflen bapur. Mae’r cyhoedd yn fwyfwy cyfarwydd â derbyn gwasanaethau ar lein, nid yn unig gan y sector preifat ond hefyd gan y llywodraeth.

1.12 Yn 2021, nod SYG yw sicrhau bod 75% o'r ffurflenni yn cael eu cwblhau ar lein. Bydd SYG yn rhoi ystod eang o gymorth i'r cyhoedd er mwyn annog pobl i gwblhau'r cyfrifiad ar lein, gan gynnwys canolfan gyswllt ddynodedig ar gyfer y cyfrifiad, gwaith gyda grwpiau cymunedol, a gwaith gan staff maes y cyfrifiad a fydd yn mynd o ddrws i ddrws. Bydd SYG hefyd yn gwneud defnydd llawn o'r cyfleoedd i gynnig cymorth a gynigir gan y dechnoleg ei hun.

1.13 Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, bydd y cyswllt cyntaf â'r rhan fwyaf o gartrefi yn cynnwys gwahoddiad i gwblhau'r ffurflen ar lein, gan ddarparu cod mynediad unigryw a chyfeiriad gwefan. Serch hynny, cydnabyddir y bydd yn well gan rai pobl, neu y bydd angen i rai pobl, gael holiadur papur er mwyn ymateb i'r cyfrifiad, felly bydd ffurflenni papur ar gael i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt. Mewn rhai ardaloedd o Gymru a Lloegr, lle tybir y bydd yn fwy tebygol o sicrhau ymateb, anfonir holiadur papur i ddechrau, a hynny drwy'r post. Bydd y sawl sy'n cael holiadur papur yn cael gwybod bod croeso iddynt gwblhau'r cyfrifiad ar lein o hyd, a bydd y cod mynediad unigryw i'w weld ar y ffurflen bapur. Rhoddir gweithdrefnau manwl ar waith er mwyn sicrhau bod yr holiaduron, boed yn rhai ar-lein neu'n rhai papur, sy'n dod i law yn cael eu cofnodi'n brydlon, fel bod modd canolbwyntio ar fynd ar drywydd y sawl nad ydynt wedi dychwelyd eu ffurflenni.

1.14 Os bydd angen help ar rywun, cynigir cymorth wyneb yn wyneb drwy wasanaeth "cymorth digidol" i'r sawl sydd am gwblhau holiadur y cyfrifiad ar lein. Defnyddir cyflenwyr dibynadwy sydd â'r staff, yr eiddo a'r dechnoleg i gynnig yr help sydd ei angen ar ymatebwyr i ddarparu'r cymorth hwn. Bydd pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaeth cymorth digidol yn cael hyfforddiant, arweiniad a deunyddiau gan SYG. Bydd y cyflenwyr hyn yn rhwym wrth yr un ddeddfwriaeth a sancsiynau o ran diogelu data personol â phawb a gyflogir gan SYG neu sy'n darparu gwasanaethau i SYG. Bydd SYG hefyd yn darparu cymorth i gwblhau'r cyfrifiad mewn digwyddiadau cwblhau a drefnir.

1.15 Bydd SYG yn sicrhau bod y rheini sydd am gwblhau'r cyfrifiad yn Gymraeg yn cael eu cefnogi i wneud hynny drwy wneud trefniadau priodol ar gyfer ei gweithgareddau yng Nghymru, a bodloni'r holl ofynion sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg (gweler Pennod 4 para 4.55). Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holiadur ar-lein a'r holiadur papur, ynghyd â'r holl ohebiaeth allweddol arall, ar gael i'r cyhoedd, a bydd yr un mor hawdd llenwi holiadur yn Gymraeg ag yw yn Saesneg. Bydd llinell gymorth Gymraeg ddynodedig ar gael, ynghyd â chyfleusterau cymorth ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Diogelu data a phreifatrwydd

1.16 Mae cynigion Cyfrifiad 2021 yn sicrhau bod y data personol a gesglir yn electronig yn cael eu cadw ar systemau a reolir yn ddiogel yn unol â manylebau diogelwch llywodraeth y DU, ac o fewn rheolaeth SYG. Bydd ffurflenni papur yn cael eu sganio'n ddiogel a'u trosglwyddo i SYG gan gontractwr sy'n bodloni gofynion diogelwch SYG. Bydd contractwyr hefyd yn cael eu defnyddio i recriwtio staff maes a darparu gwasanaethau fel gweithredu'r ganolfan gyswllt. Bydd SYG hefyd yn goruchwylio'r gweithrediadau hyn.

1.17 Mae SYG yn hynod ymwybodol o'r angen i ddiogelu unigolion, nid yn unig drwy drin eu data mewn ffordd ddiogel iawn. Mae SYG o'r farn ei bod hi'r un mor bwysig sicrhau nad yw ymholiadau ystadegol dilys yn arwain, yn anfwriadol, at adnabod unigolion am mai nhw yw'r unig berson, neu un o blith nifer fach iawn, sydd â nodwedd benodol mewn ardal fechan. Rhoddir manylion am drefniadau cyfrinachedd a diogelu data ym Mhennod 6. Mae cosbau llym, gan gynnwys rhai troseddol, yn eu lle er mwyn atal unrhyw un rhag datgelu neu geisio datgelu gwybodaeth bersonol.

1.18 Bydd SYG yn cydweithio'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth ddatblygu ei chynigion, ac, yn unol ag arfer blaenorol y cyfrifiad, bydd y trefniadau diogelwch a chyfrinachedd sy'n cael eu rhoi ar waith yn cael eu hadolygu'n annibynnol. Bydd SYG yn cyhoeddi canlyniad adolygiadau o'r fath cyn y cyfrifiad ac yn cyhoeddi unrhyw adroddiadau cysylltiedig ar wefan SYG [5].

# Rôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Awdurdod Ystadegau'r DU

1.19 Mae Deddf y Cyfrifiad 1920 [6] yn rheoli'r ffordd y caiff y cyfrifiad ei gynnal, gan ddarparu ar gyfer cynnal cyfrifiad er mwyn casglu gwybodaeth ystadegol am y boblogaeth. Mae angen is-ddeddfwriaeth ar ffurf Gorchymyn y Cyfrifiad a Rheoliadau'r Cyfrifiad cyn cynnal cyfrifiad. Yn sgil Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 [7] cafodd Awdurdod Ystadegau'r DU a'i swyddfa weithredol, SYG, eu gwneud yn gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

1.20 Mae dyluniad ac uniondeb ystadegol y cyfrifiad yn faterion y mae Awdurdod Ystadegau'r DU a'r Ystadegydd Gwladol yn gwbl gyfrifol amdanynt. Mater i Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r broses o gymeradwyo'r holiadur, a gweithrediad a chynnwys y cyfrifiad.

---

5 Amlinellir y ffordd mae SYG yn ymdrin â diogelwch yn https://www.ons.gov.uk/aboutus/transparencyandgovernance/onsdatapolicies/howwekeepdatasecure

6 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/10-11/41/contents

7 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18

## Rôl Llywodraeth Cymru

1.21 Mae SYG yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Cymru ar gynlluniau ar gyfer Cyfrifiad 2021. Er mai Awdurdod Ystadegau'r DU sydd â chyfrifoldeb statudol am y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr o hyd, yn dilyn Cyfrifiad 2001 ymrwymodd llywodraeth y DU i roi rôl fwy ffurfiol i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar gynnwys y cyfrifiad a'r ffordd mae'n cael ei gynnal yng Nghymru. At hynny, mae'r broses ddeddfwriaethol sydd ei hangen i gynnal y cyfrifiad yng Nghymru yn wahanol i'r un yn Lloegr. Caiff y prosesau hyn eu disgrifio'n fanylach ym Mhennod 7.

1.22 Pan fo'r trefniadau ar gyfer cynnal y cyfrifiad yng Nghymru yn wahanol i rai Lloegr, fe'u nodir yn adrannau perthnasol y Papur Gwyn hwn.

## Dewis dyddiad

1.23 Mae dewis dyddiad y cyfrifiad yn rhan ganolog o'r gwaith cynllunio cysylltiedig, ac mae'n cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y data a gesglir. Mae angen penderfynu ar ddyddiad y cyfrifiad ymhell ymlaen llaw. Er nad oes angen i'r cyfrifiad gael ei gynnal ar ddiwrnod penodol o'r wythnos, mae pob cyfrifiad sydd wedi'i gynnal yng Nghymru a Lloegr wedi nodi dydd Sul fel dyddiad cyfeirio. Wrth ddewis y dyddiad, cafodd nifer o ffactorau eu hystyried gan gynnwys:

- sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn eu cyfeiriad arferol
- sicrhau bod cynifer o fyfyrwyr â phosibl yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor
- osgoi etholiadau lleol a datganoledig (pan all negeseuon cyhoeddusrwydd gael eu cymysgu)
- sicrhau bod digon o olau dydd i wneud y gwaith maes
- osgoi cyfnodau gwyliau er mwyn hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw staff
- rheoli'r traffig ar-lein a ragwelir

1.24 Gan fod y cyfrifiad yn fater i lywodraethau Gogledd Iwerddon a'r Alban yn eu priod awdurdodaethau (gweler isod), cafodd dyddiad arfaethedig y cyfrifiad ei ystyried gan dair swyddfa'r cyfrifiad yn y DU (sef Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) gyda'i gilydd, er mwyn rhoi cyfrif am y gwahaniaethau ym mhob rhanbarth wrth geisio pennu dyddiad cyffredin er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

1.25 Y dyddiad a argymhellir ar gyfer y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yw dydd Sul 21 Mawrth 2021. Er mwyn lledaenu traffig ar-lein a helpu i gynllunio staff maes, bydd SYG yn canolbwyntio ar gyfnod cyfrifiad ehangach tua'r adeg hon ac yn annog pobl i ymateb cyn gynted â phosibl ar ôl cael llythyr yn eu gwahodd i gwblhau'r cyfrifiad.

# Ystyried y cynigion ar gyfer y cyfrifiadau yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar wahân

1.26 Mae cyfrifiad yn cael ei gynnal gan Gofrestrydd Cyffredinol yr Alban o dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920 a Chofrestrydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon o dan ddarpariaethau Deddf y Cyfrifiad (Gogledd Iwerddon) 1969. Bydd y trefniadau a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn lle maent yn cyfeirio at gynnal y cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ym mhob achos, yn amodol ar gael eu hystyried gan y priod weinyddiaethau datganoledig.

1.27 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn croesawu'r gwaith cynllunio a pharatoi manwl sydd eisoes yn mynd rhagddo ar gyfer cynnal y cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Ystadegydd Gwladol a Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cydweithio ar ddatblygu ac unioni cynlluniau ledled y DU. Maent wedi cyhoeddi datganiad o gytundeb[8] sy'n amlinellu'r camau a gymerir.

1.28 Mae'r tair swyddfa yn anelu at gynnal cyfrifiadau ar yr un pryd ledled y DU yn 2021. Mae'r llywodraeth ar ddeall bod y Cofrestrwyr Cyffredinol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bwriadu dilyn amserlen debyg i'r un a gynigir ar gyfer Cymru a Lloegr.

# Safbwynt rhyngwladol

1.29 Mae'r angen am wybodaeth y gellir ei chymharu'n rhyngwladol yn golygu bod y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yn anelu at fod yn gyson â safonau rhyngwladol byd-eang a rhanbarthol. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn adolygu ac yn gosod safonau ar gyfer cyfrifiadau bob deng mlynedd. Nod y safonau rhyngwladol hyn yw sicrhau cysondeb. Mae'r DU wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth nad yw'n ddatgelol (gwybodaeth nad yw'n arwain at adnabod unrhyw unigolyn) o Gyfrifiad 2021 i'r Cenhedloedd Unedig at ddibenion cymariaethau rhyngwladol.

# Cynnwys y cyfrifiad

1.30 Mae parhad data dros amser yn bwysig iawn i ddefnyddwyr y mae angen iddynt allu olrhain newidiadau dros amser er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd polisïau a gwella gwaith cynllunio. Felly, bydd y rhan fwyaf o'r pynciau a gwmpesir gan y cyfrifiad fel yr oeddent yn 2011. Yn

8 https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy/theconductofthe2021censusesintheuk.pdf

y gorffennol, mae'r cyfrifiad wedi cynnwys cymysgedd o gwestiynau a ofynnir i'r boblogaeth gyfan a chwestiynau sydd ond yn cael eu gofyn i bobl 16 oed a throsodd, yn unol ag arfer gorau ystadegol rhyngwladol. Bydd Cyfrifiad 2021 yn parhau i wneud hyn. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau arfaethedig y dylid eu nodi.

## Newidiadau i bynciau

1.31 Mae'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd gan SYG (gweler Pennod 2) wedi dangos bod angen casglu data ar rai pynciau yn benodol nas cwmpaswyd gan y cyfrifiad eisoes. Ar ôl ystyried hyn yn ofalus, ar sail tystiolaeth o ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae SYG yn cynnig casglu, am y tro cyntaf, wybodaeth am dri phwnc newydd. Bydd casglu data ar wasanaeth blaenorol yn Lluoedd Arfog y DU yn helpu darparwyr gwasanaethau ac eraill i gefnogi cyn-filwyr yn unol â Chyfamod y Lluoedd Arfog. Mae SYG hefyd yn cynnig cwestiynau ar hunaniaeth o ran rhywedd (gan gadw'r cwestiwn presennol ar ryw) a chyfeiriadedd rhywiol. Fel y cwestiwn ar ymlyniad crefyddol a gyflwynwyd yng Nghyfrifiad 2001, credwn y dylai'r cwestiynau newydd hyn (ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd) fod yn wirfoddol ac na ddylai unrhyw unigolyn gael ei orfodi i'w hateb os nad yw'n dymuno gwneud hynny. Nawr bydd y Llywodraeth ac Awdurdod Ystadegau'r DU yn ystyried y ffordd briodol o sicrhau hyn. Bydd y pynciau newydd i gyd yn helpu cyrff y llywodraeth drwy ddiwallu'r angen am wybodaeth o ansawdd gwell er mwyn monitro'r effaith ar gydraddoldeb mewn cymunedau.

Hefyd, ystyriwyd ychwanegu cwestiynau ar wirfoddoli ac incwm, ond nid yw SYG yn cynnig eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 (gweler Pennod 3 paragraffau 3.170 i 3.178).

1.32 Fel mae'n rhaid i bynciau newydd gael eu hychwanegu at y cyfrifiad o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas, rhaid dileu rhai pynciau hefyd. Y tro hwn argymhellir na ddylai'r cyfrifiad gynnwys cwestiynau ar nifer yr ystafelloedd ar gyfer pob cartref, na'r flwyddyn olaf y gwnaeth yr ymatebwyr weithio. O ran nifer yr ystafelloedd, mae SYG yn bwriadu cael gafael ar y data mewn ffyrdd amgen, ac o ran y flwyddyn olaf a weithiwyd mae SYG yn bwriadu casglu'r data drwy addasu un o gwestiynau eraill y cyfrifiad (y cwestiwn "erioed wedi gweithio").

1.33 Yn ogystal â'r prif newidiadau hyn, mae SYG wedi bod yn ystyried gwelliannau posibl i'r ffordd mae rhai cwestiynau yn cael eu gofyn yn y cyfrifiad. Yn amodol ar brofion parhaus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae SYG yn bwriadu seilio'r cwestiwn ar salwch ac anabledd hirdymor ar safon wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd y gyfres o gwestiynau ar gymwysterau addysgol yn cael ei symleiddio. Mae SYG hefyd

wedi bod yn adolygu'r cwestiwn ar bartneriaethau priodasol a sifil yn sgil hynt Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol, a bydd yn anelu at sicrhau bod pob statws a gydnabyddir yn gyfreithiol wedi'i gwmpasu.

1.34 Mae hefyd nifer o bynciau, fel ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd, lle mae SYG wedi bod yn ystyried pa opsiynau ymateb fydd ar gael fel dewisiadau penodol. Nid yw'n bosibl darparu opsiwn ymateb penodol ar gyfer yr holl grwpiau a hoffai gael un. Fodd bynnag, bydd Cyfrifiad 2021 yn defnyddio adnodd "chwilio wrth deipio", ynghyd â darparu gohebiaeth, ymgysylltu â'r gymuned, a chynnig cyngor a chymorth gan staff maes a staff y ganolfan gyswllt, er mwyn sicrhau bod modd i bobl ddweud wrthym sut maent am ddisgrifio'u hunain. Cefnogir hyn gan yr opsiwn nodi ar y ffurflen bapur. Hefyd, bydd SYG yn cynnig cryn dipyn o gyhoeddusrwydd a gohebiaeth i'r cymunedau hynny, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir cryn dipyn o angen yn lleol, er mwyn annog cyfranogiad a chodi ymwybyddiaeth o sut i nodi'r hunaniaeth maent wedi'i dewis. Mae'r mesurau hyn yn galluogi pobl o bob cymuned i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

1.35 Hefyd, am y tro cyntaf, bydd SYG yn darparu dadansoddiad, yn hytrach na dim ond tablau data, er mwyn helpu cymunedau i ddeall eu hanghenion. Bydd SYG yn adeiladu ar gynhyrchion dadansoddol blaenorol ac yn cynnig dadansoddiad a chipolwg manylach. Nodau'r gwaith dadansoddi manylach hwn yw rhoi'r wybodaeth fwyaf perthnasol a defnyddiol i'r cymunedau hyn, er mwyn iddynt ddeall eu hanghenion yn well a llywio polisïau a gwasanaethau. Gwneir hyn drwy ddadansoddi holl bynciau'r cyfrifiad, ynghyd â ffynonellau data perthnasol eraill, er mwyn sôn am themâu penodol fel iechyd.

1.36 Rhoddir manylion y cynnwys arfaethedig a'r pynciau nad argymhellir eu cynnwys ym Mhennod 3.

# 2

# 2 Ymgynghori, cynnal profion ar gyfer y cyfrifiad ac ymgysylltu'n ehangach

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r gwaith o ddylunio Cyfrifiad 2021 a'i gynnwys wedi'i lywio gan y canlynol:

- gofynion defnyddwyr o ran y mathau o allbynnau sydd eu hangen, ynghyd â'u hansawdd, amlder a manylder
- newidiadau mewn technoleg, yn arbennig y cyfleoedd a gynigir gan y cyfrifiad ar-lein a pharodrwydd a gallu'r cyhoedd i ddefnyddio systemau ar-lein y llywodraeth
- gwelliannau i ansawdd y data sydd eisoes gan y llywodraeth a ffynonellau eraill, ynghyd â'r gallu i gael gafael arnynt, gan gynnig y potensial i gynyddu'r defnydd a wneir ohonynt wrth gynhyrchu ystadegau
- yr angen parhaus i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus
- llwyddiannau Cyfrifiad 2011 a'r gwersi a ddysgwyd ohono[9]
- datblygiadau a gwersi a ddysgwyd wrth gynnal cyfrifiadau rhyngwladol

2.2 Er mwyn datblygu dyluniad arfaethedig y cyfrifiad, mae SYG wedi ymgynghori'n helaeth â phartïon â diddordeb, defnyddwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Gwnaed hyn drwy gysylltiadau rhyngwladol, pwyllgorau cynghori ffurfiol, gweithgorau seiliedig ar bwnc a chyfryngau fel ymgyngoriadau ffurfiol SYG a thudalennau cyfrifiad gwefan SYG.

## Ymgyngoriadau

2.3 Fel rhan o'r gwaith o gynllunio a dylunio Cyfrifiad 2021, cynhaliodd SYG nifer o ymgyngoriadau cyhoeddus ffurfiol, a ategwyd gan sioeau teithiol a chyfarfodydd agored. Mae'r ymgyngoriadau hyn, a nodir isod, wedi bod yn agored i bawb ac mae SYG wedi croesawu safbwyntiau a sylwadau ar y cyfrifiad o bob tu.

---

9 https://www.ons.gov.uk/census/2011census/howourcensusworks/howdidwedoin2011/2011censusgeneralreport

## Ymgynghori ar y cyfrifiad a darparu ystadegau ar y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol[10]

2.4 Yn 2010, gofynnodd Awdurdod Ystadegau'r DU i'r Ystadegydd Gwladol a SYG adolygu'r broses o ddarparu ystadegau ar y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol er mwyn hysbysu'r llywodraeth a'r Senedd am yr opsiynau ar gyfer y cyfrifiad nesaf. Dros y tair blynedd nesaf, ymchwiliodd SYG i ffyrdd newydd o gyfrif y boblogaeth, adolygodd arferion mewn gwledydd eraill, ymgysylltodd ag amrywiaeth o ddefnyddwyr, comisiynodd adolygiad annibynnol o fethodoleg a chwblhaodd ymgynghoriad cyhoeddus a barodd dri mis.

2.5 Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng 23 Medi a 13 Rhagfyr 2013. Derbyniwyd dros 700 o ymatebion – 444 gan unigolion a 271 gan sefydliadau – a gwnaeth mwy na 500 o bobl fynd i ddigwyddiadau ategol. Cynigiwyd dwy ffordd o gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol, sef:

- unwaith bob degawd, fel yr un a gynhaliwyd yn 2011, ond ar lein yn bennaf
- defnyddio data presennol y llywodraeth ac arolygon blynyddol gorfodol

2.6 Nododd yr ymgynghoriad y canlynol:

- bod galw parhaus o du'r llywodraeth, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, byd busnes, y sector gwirfoddol a dinasyddion unigol am wybodaeth fanwl am ardaloedd bach a phoblogaethau bach a gynigir gan y cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd
- bod cryn bryder na fyddai arolwg blynyddol o 4% o gartrefi (i ategu'r defnydd o ddata gweinyddol presennol) yn diwallu'r anghenion hyn, nac yn darparu'r ystadegau gofynnol ar ardaloedd bach a phoblogaethau bach a gynigir gan y cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd
- byddai'r ystadegau mwy mynych y gellid eu darparu rhwng cyfrifiadau drwy ddefnyddio data gweinyddol ac arolygon blynyddol yn cael eu croesawu, ond nid ar draul yr ystadegau manwl
- er bod gan y dulliau lle defnyddir data gweinyddol ac arolygon gryn botensial, roedd pryder nad oedd y rhain yn ddigon aeddfed eto i gymryd lle'r cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd
- roedd llawer o ymatebwyr yn cynnig dull hybrid, gan wneud y gorau o'r ddau ddull, gyda chyfrifiad ar-lein yn 2021 yn cael ei ategu gan ddata gweinyddol ac arolygon o gartrefi

---

10 http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105225506/http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/who-ons-are/programmes-and-projects/beyond-2011/beyond-2011-consultation/index.html

2.7 Ar ôl adolygu rhaglen ymchwil helaeth SYG ac ystyried yr holl opsiynau a thystiolaeth oedd ar gael (gan gynnwys cymariaethau rhyngwladol, ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus, dadansoddiad cost a budd ac adolygiad annibynnol wedi'i arwain gan yr Athro Chris Skinner, ym mis Mawrth 2014) argymhellodd yr Ystadegydd Gwladol ar y pryd y canlynol:

*"cyfrifiad ar-lein ar gyfer pob cartref a sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr yn 2021 fel olynydd modern i'r cyfrifiad papur traddodiadol bob deng mlynedd....."*

*"mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon er mwyn gwella'r ystadegau o Gyfrifiad 2021 a gwella ystadegau blynyddol rhwng cyfrifiadau."*

*"Byddai hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r holl ddata sydd ar gael er mwyn darparu ystadegau o'r boblogaeth sydd eu hangen ar Gymru a Lloegr a sbarduno mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon blynyddol yn y dyfodol....Gallai hyn gynnig y posibilrwydd i Lywodraeth a Senedd yn y dyfodol roi'r gorau i gyfrifiad traddodiadol bob deng mlynedd a dechrau cynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth bob blwyddyn drwy ddefnyddio data gweinyddol ac arolygon o'r boblogaeth."* [11]

2.8 Cefnogwyd hyn gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ar y pryd yn ymateb ffurfiol y Llywodraeth i'r argymhelliad:

*"The Government welcomes the recommendation for a predominantly online census in 2021 supplemented by further use of administrative and survey data. Government recognises the value of the census. ... We welcome the increased use of administrative data in producing the census in 2021 and other population statistics, and to improve statistics between censuses, since this would make the best use of all available data and provide a sound basis for the greater use of administrative data and surveys in the future."* [12]

2.9 Yn yr un modd, cefnogodd Llywodraeth Cymru y dull arfaethedig o gynnal y cyfrifiad mewn datganiad a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2014 gan y Gweinidog Cyllid.

2.10 Ceir manylion llawn yr argymhelliad ac ymateb y Llywodraeth ar wefan SYG [13].

---

11 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/beyond2011censustransformationprogramme/thecensusandfutureprovisionofpopulationstatisticsinenglandandwalesrecommendationfromthenationalstatisticianandchiefexecutiveoftheukstatisticsauthorityandthegovernmentsresponse

12 Llythyr oddi wrth y Gwir Anrhydeddus Francis Maude AS, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, Tâl-feistr Cyffredinol i Syr Andrew Dilnot CBE, Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU, 18 Gorffennaf 2014

13 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/beyond2011censustransformationprogramme/thecensusandfutureprovisionofpopulationstatisticsinenglandandwalesrecommendationfromthenationalstatisticianandchiefexecutiveoftheukstatisticsauthorityandthegovernmentsresponse

## Ymgyngoriadau ar bynciau'r cyfrifiad

2.11 Rhoddir rhagor o fanylion am y pynciau arfaethedig ym Mhennod 3.

### Ymgynghoriad ar bynciau'r cyfrifiad

2.12 Ym mis Mehefin 2015, lansiodd SYG ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos [14] gan ofyn i ddefnyddwyr y cyfrifiad rannu barn a thystiolaeth am y pynciau oedd yn ofynnol yn holiadur Cyfrifiad 2021 Cymru a Lloegr. Gallai unrhyw un gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a gwnaeth yr adborth a gafwyd lywio ymchwil bellach a gyfrannodd at ddatblygu a phrofi cwestiynau arfaethedig y cyfrifiad.

2.13 Cafwyd 1,095 o ymatebion i'r ymgynghoriad: roedd 279 o'r rhain gan sefydliadau ac roedd 816 gan unigolion.

2.14 Cafodd ymateb llawn SYG i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi ym mis Mai 2016, gan amlinellu'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddiwyd a chan ddiweddaru'r farn gychwynnol (gan SYG) am gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr. Hefyd, cyhoeddwyd adroddiadau pwnc unigol, gyda phob un yn amlinellu'r gwerthusiad o'r pwnc hwnnw yn erbyn y meini prawf penodol, y farn gyfredol am y pwnc hwnnw, goblygiadau o ran cydraddoldeb a'r camau nesaf i'w cymryd.

2.15 Ym mis Mehefin 2015 a mis Gorffennaf 2016 cynhaliodd SYG sioeau teithiol [15] er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnwys arfaethedig holiadur Cyfrifiad 2021.

### Ymgynghori â phartïon â diddordeb ynghylch pynciau

2.16 Yn ogystal â'r prif ymgynghoriad, gwnaeth SYG hefyd weithio gyda nifer o bartïon â diddordeb er mwyn deall anghenion manwl cynnwys cwestiynau penodol a diffiniadau (er enghraifft mathau o sefydliadau cymunedol). Ymhlith y partïon yr ymgynghorwyd â nhw roedd:

- adrannau'r llywodraeth, er enghraifft ar sail ddwyochrog ac ar y cyd drwy Benaethiaid Proffesiwn Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a phwyllgorau rhyngadrannol, a thrwy gysylltu ag arbenigwyr pwnc y Gwasanaeth hwnnw
- awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned academaidd, y sector busnes a grwpiau cymunedol lleol drwy Grwpiau Cynghori hirsefydledig y Cyfrifiad a grwpiau pwrpasol eraill

---

14 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales

15 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/newsandevents

- arbenigwyr pwnc a methodolegwyr o fewn Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, a holwyd yn rheolaidd oherwydd eu gwybodaeth arbenigol fanwl

## Ymgysylltu'n ehangach

2.17 Mae SYG yn gweithio gyda Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gyfrwng pwyllgorau dethol, pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Grwpiau Seneddol Hollbleidiol, ac ASau ac ACau unigol. Bwriedir i'r fath ymgysylltu feithrin gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd nodau ac amcanion y cyfrifiad yn 2021, a chefnogaeth iddynt.

2.18 Bydd cysylltu â grwpiau cymunedol, elusennau a chyrff eraill yn y trydydd sector yn helpu SYG i sicrhau, yn ogystal â diwallu anghenion ystadegol defnyddwyr, fod y cyfrifiad yn cael ei gefnogi, a'i gwblhau, gan bob rhan o'r gymuned.

2.19 Mae Grwpiau Cynghori'r Cyfrifiad yn cynrychioli buddiannau adrannau llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, a'r gwasanaeth iechyd. Yn ogystal â'r sector cyhoeddus maent yn cynrychioli'r gymuned academaidd, byd busnes a chymdeithasau proffesiynol, defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb, a chyrff o'r trydydd sector sy'n cynrychioli buddiannau cymunedau lleol, grwpiau lleiafrifol o'r boblogaeth, pobl ag anableddau a sefydliadau ffydd. Mae'r grwpiau cynghori hyn yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn gyfrwng i drafod agweddau ar y cyfrifiad, sy'n cwmpasu:

- sylfaen y boblogaeth
- cynnwys pwnc
- diffiniadau a dosbarthiadau
- cynlluniau a chanlyniadau profion ac ymarferion
- methodoleg casglu data
- cynlluniau sicrhau ansawdd
- cyswllt â'r gymuned
- allbynnau, gan gynnwys daearyddiaeth a dulliau dosbarthu
- methodolegau ystadegol a rheoli datgeliadau

Mae grwpiau cynghori yn rhan allweddol o ymgyngoriadau a chyngor defnyddwyr a byddant yn parhau i gyfarfod hyd at ddyddiad y cyfrifiad, ac ar ôl hynny.

2.20 Bydd SYG yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol drwy gydol y gwaith o gynllunio'r cyfrifiad. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth ddatblygu'r gweithrediad maes gyda'r nod cyffredinol o sicrhau'r ymateb gorau posibl, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'n anodd cyfrif rhai grwpiau o'r boblogaeth. Mae Grŵp Rheoli Gweithredol Awdurdodau Lleol eisoes yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn ystyried gofynion gweithredol y cyfrifiad. Gweler Pennod 4 am ragor o fanylion am y berthynas rhwng SYG ac awdurdodau lleol.

## Ymgysylltu â Chymru a'r gweinyddiaethau datganoledig

2.21 Mae SYG yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn sicrhau bod gofynion penodol defnyddwyr yng Nghymru yn cael eu deall ac yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

2.22 Mae SYG wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y pynciau i'w cynnwys, y cwestiynau i'w gofyn, a'r trefniadau ar gyfer cynnal y cyfrifiad yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion Cymru (er enghraifft darparu holiaduron y cyfrifiad yn Gymraeg a deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog). Gweler Pennod 7 am ragor o fanylion am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru.

2.23 Caiff partïon â diddordeb yng Nghymru eu cynrychioli ar Grŵp Cynghori'r Cyfrifiad Cymru. Mae SYG hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhwydweithiau ystadegol eraill fel Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru a Phanel Defnyddwyr y Trydydd Sector.

2.24 Mae SYG yn cyfarfod bob chwarter â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban, Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyfrifiad y DU. Mae hyn yn galluogi pob asiantaeth i fod yn ymwybodol o'r cynlluniau a'r cynnydd diweddaraf, er mwyn trafod syniadau a risgiau, a chefnogi'r gwaith o sicrhau bod cyfrifiadau'r DU yn gyson â'i gilydd. Ategir y cyfarfodydd hyn gan drafodaethau rheolaidd ar lefel weithredol.

## Profion y cyfrifiad

2.25 Mae rhaglen gynhwysfawr o ymchwil a phrofion wedi bod yn sail i gynigion Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Cyfrifiad 2021. Mae gwaith cynllunio cynnar, profion a gwaith gwerthuso yn hanfodol er mwyn cynnal cyfrifiad llwyddiannus a bydd profion, camau integreiddio a chamau cyflenwi parhaus yn cael eu mabwysiadu.

2.26 Mae'r rhaglen yn cynnwys profion bach a mawr ac ymchwil feintiol ac ansoddol. Mae SYG yn cynnal yr ymchwil a'r profion gwirfoddol hyn cyn cyfrifiad er mwyn sicrhau bod yr holl gwestiynau a gaiff eu cynnwys yn bodloni gofynion defnyddwyr ac yn dderbyniol i'r cyhoedd; treialu technoleg newydd; profi gweithdrefnau a phrosesau; cynllunio'r gwaith dosbarthu; a phrofi agweddau gwahanol ar weithredu'r cyfrifiad cyfan.

2.27 Mae natur newidiol cymdeithas yn golygu bod anghenion defnyddwyr o ran data'r cyfrifiad yn cael eu mireinio'n rheolaidd. O ganlyniad, mae angen newid y ffordd y caiff cyfrifiad ei weithredu bob tro ac, ar gyfer 2021, bydd SYG yn manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg er mwyn cefnogi hyn.

Rhaid i'r dechnoleg gael ei phrofi'n drylwyr cyn iddi gael ei mabwysiadu, gan ganiatáu amser i wneud newidiadau ac yna ailbrofi lle bo angen. Yn arbennig, mae Cyfrifiad 2021 yn anelu at fabwysiadu'r canlynol:

- dyluniad ar lein yn bennaf
- technolegau newydd i wella effeithlonrwydd ac amseroldeb y gweithrediadau casglu a phrosesu data
- rhannu allbynnau ystadegol mewn ffordd fwy hyblyg er mwyn cael y budd mwyaf

2.28 Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan ym mhrofion y cyfrifiad o'i wirfodd ac mae SYG yn ddiolchgar i'r aelodau o'r cyhoedd a'r sefydliadau sydd wedi cymryd rhan yn y treialon hanfodol hyn.

## Profi dilysrwydd dyluniad Cyfrifiad 2021

2.29 Cynhelir profion iteraidd fel rhan o strategaeth profion gynhwysfawr fel bod modd dylunio Cyfrifiad 2021 yn effeithiol drwyddi draw. Mae hyn wedi cynnwys ymchwil i ddefnyddwyr ym meysydd derbynioldeb ac ymddygiad, modelu ystadegol a dadansoddi opsiynau technoleg.

## Profion mawr y cyfrifiad

### Prawf 2017

2.30 Cynhaliodd SYG brawf gwirfoddol mawr ar gyfer y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai 2017[16]. Roedd y nodau'n cynnwys:

- gwerthuso ffyrdd o sicrhau'r "hunanymateb" mwyaf (nifer yr ymatebion cyn bod gwaith maes dilynol yn dechrau)
- asesu ymatebion ar-lein a chymorth ar gyfer y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol

[16] https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/2017censustest

- asesu ymarferoldeb rhai camau arloesol mawr o ran gweithdrefnau gweithredol, fel y defnydd o dechnoleg ar gyfer gwaith maes
- gwerthuso effaith cynnwys cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol ar lefel ac ansawdd yr ymateb

Roedd y prawf yn cynnwys cyfanswm o 208,000 o gartrefi, wedi'u rhannu'n ddwy elfen.

### Profi cynnwys yr holiadur a gwaith maes dilynol


2.31 Roedd yr elfen gyntaf hon yn cynnwys gwahodd 100,000 o gartrefi ar draws saith awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr i lenwi holiadur prawf ar lein. Y saith awdurdod lleol oedd Barnsley, Blackpool, ardaloedd dethol yng ngogledd Powys, Sheffield, De Gwlad yr Haf, Southwark a Gorllewin Dorset.

Cafodd yr ardaloedd hyn eu dewis am eu bod, gyda'i gilydd, yn cynnwys:

- lleoliadau gwledig a threfol
- mannau â llai o gysylltedd band eang a signal ffonau symudol
- cyfran uchel o fudwyr byrdymor
- amrywiaeth o grwpiau ethnig ac amrywiaeth o ieithoedd
- nifer fawr o bobl dros 65 oed
- is-set o sefydliadau cymunedol, gan gynnwys llety gwarchod, gwestai a neuaddau preswyl prifysgol
- ardaloedd â datblygiad tai diweddar

2.32 Gwnaeth gweithlu maes yn cynnwys mwy na 400 o swyddogion y cyfrifiad, yn gweithio ar draws y saith prif ardal brofi, gefnogi'r prawf hwn. Ymwelwyd â chartrefi nad oeddent wedi cwblhau'r holiadur er mwyn cynnig cymorth ac annog pobl i ddychwelyd eu ffurflen (ar lein yn bennaf).

## Ffigur 1: Map o brif ardaloedd Prawf 2017




Yn cynnwys data AO (h) Hawlfraint y Goron 2016

1 Mae ardaloedd Prawf 2017 yn cynnwys awdurdodau lleol neu unedol cyfan ar wahân i'r ardal ym Mhowys sy'n cynnwys 35 o'i Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is cyfansoddol ar gyfer 2011.

Creewyd gan GIS ac Uned Mapio, SYG Daearyddiaeth

### Profi deunyddiau

2.33 Yn yr ail elfen, anfonwyd gwahoddiadau i gymryd rhan i hapsampl (o 100,000 o gartrefi) ledled Cymru a Lloegr. Y nod oedd meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y gallai gwahanol fathau o ddeunyddiau (holiaduron, llythyrau atgoffa ac ati) gynyddu cyfraddau ymateb. Ni wnaed unrhyw waith dilynol gan staff maes, ond derbyniodd cartrefi nad oeddent wedi dychwelyd yr holiadur lythyrau atgoffa drwy'r post. Hefyd, cafodd sampl pellach (8,000 o gartrefi) ar Ynys Wyth ei ddewis er mwyn cynnal profion penodol ar gymorth digidol ar gyfer y rheini a allai gael eu hystyried wedi'u hallgáu'n ddigidol.

### Canlyniadau Prawf 2017

2.34 Gwnaeth yr ymateb cyffredinol i Brawf gwirfoddol 2017 ein galluogi i lunio casgliadau o brofion prosesau ystadegol a gweithredol.

#### *Gweithredu'r cyfrifiad*

2.35 Er mwyn meithrin ei dealltwriaeth o nodweddion pobl na allant gwblhau'r holiadur ar lein heb gymorth, os o gwbl, gwnaeth SYG gymharu effaith anfon holiaduron papur i rai cartrefi ag effaith anfon gwahoddiadau i ymateb ar lein ar ymatebion. Cafodd ceisiadau am holiaduron papur gan gartrefi a gafodd wahoddiadau i ymateb ar lein i ddechrau eu monitro. Gwnaeth hyn ein helpu i ddeall effaith gwahanol ddulliau o weithredu ar gyfraddau ymateb.

2.36 Dengys Tabl 1 y cyfraddau ymateb canrannol ar gyfer gwahanol grwpiau triniaeth Prawf 2017 a'r ganran a gwblhawyd ar lein. Cafodd SYG ymateb digonol gan bob grŵp er mwyn gallu llunio casgliadau ystadegol o'r canlyniadau.

### Tabl 1: Cyfradd ymateb ganrannol ac ymateb ar-lein o dan bob elfen ym Mhrawf 2017, Cymru a Lloegr

| | Cyfradd ymateb (%) | Y cafwyd ymateb ar-lein (%) |
|---|---:|---:|
| Ar lein yn gyntaf, papur ar gael ar gais neu wedi'i roi gan staff maes | 43 | 84 |
| Papur yn gyntaf, dim gwaith maes dilynol | 39 | 30 |
| Ar lein yn gyntaf, papur ddim ar gael, dim gwaith maes dilynol | 23 | 100 |
| Ar lein yn gyntaf, papur ddim ar gael ar gais, ond anfonwyd fel 3ydd llythyr atgoffa, dim gwaith maes dilynol | 33 | 55 |

**Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Mae'r canlyniadau hyn wedi rhoi gwell dealltwriaeth i SYG o'r ffordd mae pobl yn ymateb, gan ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i dargedu papur ar gyfer y rhai sydd angen hynny fwyaf ond gan sicrhau'r ymateb mwyaf posibl ar lein ar yr un pryd. Mae hyn yn rhoi hyder i SYG y gall gyflawni'r gyfradd ymateb ar-lein ddisgwyliedig o 75%.

2.37 Roedd yr adnodd rheoli gwaith maes yn llwyddiannus a bu'n ffynhonnell dda o wybodaeth reoli. Gwnaeth yr adnodd hwn alluogi staff maes i lanlwytho eu rhestrau o gartrefi nad oeddent wedi ymateb i ymweld â nhw, a rhannu canlyniad pob ymweliad â phencadlys y cyfrifiad bob dydd.

2.38 Ar gyfer yr elfen gyntaf (100,000 o gartrefi â gwaith maes dilynol), dyluniwyd y triniaethau i brofi p'un a oedd dechrau gwaith maes yn gynharach yn ffordd gosteffeithiol o wella cyfraddau ymateb. Dechreuodd SYG y gwaith maes dilynol naill ai 4 diwrnod neu 10 diwrnod yn dilyn diwrnod cyfeirio Prawf 2017 (9 Ebrill 2017) er mwyn gweld p'un a allai dechrau'n gynharach gynyddu cyfraddau ymateb terfynol. Dangosodd y canlyniadau fod dechrau gwaith maes dilynol yn gynharach yn cynyddu cyfraddau ymateb, ond awgrymwyd y gallai fod yn gosteffeithiol dechrau'n gynnar mewn rhai ardaloedd a nodweddir gan boblogaethau anodd eu cyrraedd.

***Cymorth digidol***

2.39 Yn y Prawf treialodd SYG wasanaeth "cymorth digidol" a ddyluniwyd i helpu pobl i lenwi'r holiadur ar lein. Cafodd y gwasanaeth cymorth digidol hwn ei dreialu ar Ynys Wyth, lle cafodd 8,000 o gartrefi eu gwahodd i gymryd rhan. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol. O'r 2,653 o ymatebion, cafodd 139 eu cwblhau mewn llyfrgelloedd, gan gynyddu'r gyfradd ymateb 1.7 pwynt canran. Gwnaed rhagor o ymchwil, ac mae'n parhau, er mwyn nodi ble y mae pobl hapusaf i fynd i gael help, beth y gallai SYG ei wneud er mwyn mynd â help iddyn nhw, ac archwilio ffyrdd mwy arloesol a "hawdd eu cyrraedd" o ddarparu help wyneb yn wyneb lle bo angen.

***Cyfeiriadedd rhywiol***

2.40 Un o amcanion Prawf 2017 oedd nodi effaith cynnwys cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol yn holiadur y cyfrifiad ar gyfraddau ymateb, ac ansawdd yr ymateb. Cafodd y cwestiwn ei brofi mewn dwy elfen ar wahân o'r prawf a chafodd hanner y cartrefi yn yr elfennau hyn holiaduron oedd yn cynnwys y cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol.

2.41 Byddai effaith sylweddol ar yr ymateb cyffredinol yn cynyddu costau petai SYG yn ceisio gwneud iawn am y gostyngiad yn y gyfradd ymateb, a byddai'n effeithio ar ansawdd cyffredinol y cyfrifiad. Penderfynodd SYG, yn gyson â throthwyon profi cwestiynau sensitif newydd mewn cyfrifiadau blaenorol, mai gwahaniaeth o ddau bwynt canran fyddai'r gostyngiad mwyaf yn y gyfradd ymateb y gellid ei oddef (sy'n gyson â chyfrifiadau blaenorol). Y gyfradd

ymateb gyffredinol ar gyfer y rhai a gafodd y cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol yn y naill elfen neu'r llall o'r prawf oedd 38.6%. Roedd yn 39.0% ar gyfer pobl nad oedd eu holiadur yn cynnwys y cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol. Mae hyn yn wahaniaeth o 0.4 pwynt canran, sydd ymhell o fewn y goddefiant mwyaf o ddau bwynt canran, sy'n awgrymu, o ran yr effaith ar gyfraddau ymateb, ei bod hi'n ddiogel cynnwys cwestiwn.

2.42 Mae hefyd yn hanfodol datblygu cwestiwn sy'n gweithio, ac sy'n hwyluso'r broses o gasglu data o ansawdd da er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr. Yma diffinnir ansawdd yr ymateb fel lefel diffyg ymateb eitem (y rhai a wnaeth ymateb i Brawf 2017 ond na wnaethant gwblhau'r cwestiwn), cymaradwyedd â ffynonellau eraill (sef yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth), a chyfraddau cytuno ag Arolwg Gwerthuso Prawf y Cyfrifiad.

2.43 Y lefel o ddiffyg ymateb ar gyfer y cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol ei hun oedd 8.4% yn gyffredinol. Roedd hyn yn 4.8% ar gyfer y rhai a ymatebodd ar lein ac 20.2% ar gyfer y rhai a ymatebodd ar bapur. Mae'r gwahaniaeth hwn yn debygol oherwydd tuedd o ran oedran yn y dull ymateb. Roedd y trothwy a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar gyfer hyn yn llai na 10%, a oedd wedi'i bennu ar y lefel y byddem yn ei disgwyl fwy neu lai ar gyfer cwestiwn gwirfoddol.

2.44 Mae Tabl 2 yn cymharu dosbarthiad y boblogaeth yn ôl ei chyfeiriadedd rhywiol yn y prawf a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Roedd y boblogaeth a nododd ei bod yn hoyw, lesbiaidd neu'n ddeurywiol yn y prawf (2.4%) yn debyg i amcangyfrif yr Arolwg (2.0%). Roedd cyfran yr ymatebion oedd ar goll yn uwch yn y prawf (8.4%) o gymharu â'r Arolwg (4.1%). Os caiff yr opsiynau "ddim yn gwybod" ac "ar goll" eu hepgor yna mae'r dosbarthiadau yn debyg iawn. Ers Prawf 2017 mae SYG wedi gwneud rhagor o waith datblygu (gweler Pennod 3 am ragor o fanylion).

### Tabl 2: Amcangyfrifon cyfeiriadedd rhywiol ym Mhrawf 2017 ac Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2016

| | Prawf 2017 (%) | Arolwg (%) |
|---|---|---|
| Heterorywiol neu strêt | 88.7 | 93.4 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 1.8 | 1.2 |
| Deurywiol | 0.6 | 0.8 |
| Arall | 0.5 | 0.5 |
| Ddim yn gwybod neu wrthod (Arolwg)/Ar goll (Prawf 2017) | 8.4 | 4.1 |

**Ffynhonnell: Prawf 2017 Cymru a Lloegr ac Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

## Ymarfer y cyfrifiad (2019)

2.45 Cynhelir ymarfer ar gyfer Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr yn ystod hydref 2019. Nod yr ymarfer fydd sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer dosbarthu a chasglu ffurflenni'r cyfrifiad yn effeithiol ac yn gallu ehangu'n gyflym, gan gynnwys asesu y bydd yr holl systemau a gwasanaethau angenrheidiol yn cydweithio'n dda.

2.46 Ar hyn o bryd cynllunnir yr ymarfer i efelychu amodau fel cyfrifiad go iawn drwy gynnwys croestoriad o'r boblogaeth a mathau o dai. Ymhlith y meini prawf ar gyfer dewis ardaloedd yr ymarfer mae ardaloedd â lefelau uchel o amlfeddiannaeth, yn enwedig twf cyflym a symudiad y boblogaeth, llety myfyrwyr, gwestai a llety gwyliau, ysbytai a sefydliadau cymunedol mawr eraill, a gwahanol gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae ardaloedd yr ymarfer yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

2.47 Mae'n fwriad cynnal ymarferion ategol y cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2019.

# 3

# 3 Y boblogaeth a'r pynciau i'w cynnwys yn y cyfrifiad

## Sylfaen y boblogaeth

3.1 Mae'r sylfaen gyfrif yn cynrychioli'r ffordd y mae poblogaeth Cymru a Lloegr yn cael ei chyfrif yn y cyfrifiad. Mae'r penderfyniad ynghylch pa sylfaen i'w defnyddio yn cael ei lywio gan yr angen i gasglu gwybodaeth am deuluoedd a chartrefi yn ogystal â grwpiau penodol o'r boblogaeth fel myfyrwyr ac aelodau o'r lluoedd arfog.

3.2 Mae SYG yn cynnig casglu gwybodaeth am bob preswylydd arferol a phawb sy'n bresennol mewn cyfeiriad ar ddyddiad y cyfrifiad. Byddai'r sawl sy'n bresennol yn cynnwys preswylwyr byrdymor ac ymwelwyr. Bydd hyn nid yn unig yn cynnig parhad o ran mesur y boblogaeth ond bydd hefyd yn ystyried safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol.

3.3 Mae'r term "fel arfer yn byw" yn cyfeirio at unrhyw un sydd, ar ddiwrnod y cyfrifiad, yn y DU ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y DU am gyfnod o 12 mis neu fwy. Bydd unrhyw un sydd i ffwrdd o'i breswylfa arferol dros dro am lai na 12 mis yn cael ei gyfrif yn breswylydd arferol.

3.4 Mae SYG yn cynnig cadw'r diffiniad o "gartref" a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyfrifiad 2011 er mwyn sicrhau cysondeb â chyfrifiadau blaenorol. Mae hyn yn golygu y bydd cartref yn parhau i gael ei ddiffinio fel "un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nid oes rhaid iddynt berthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad, ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta". Bydd hyn yn sicrhau cysondeb â safonau rhyngwladol[17].

3.5 Bydd y cyfrifiad yn casglu gwybodaeth am bob cartref a phob unigolyn sydd fel arfer yn byw yn y cartref. Bydd angen i'r ffurflenni gynnwys unrhyw un sydd fel arfer yn byw (gan gynnwys preswylwyr byrdymor) ym mhob cyfeiriad sy'n digwydd bod i ffwrdd ar ddyddiad y cyfrifiad, boed hynny rywle arall yn y DU neu dramor. Bydd angen i gartrefi â neb yn bresennol ar y dyddiad hwnnw gwblhau'r cyfrifiad pan fyddant yn dychwelyd i'w preswylfa arferol, os yw o fewn chwe mis i ddyddiad y cyfrifiad. Hefyd, mae SYG yn bwriadu gofyn i ddeiliaid cartrefi gofnodi nifer yr ymwelwyr sy'n bresennol yn y cyfeiriad ar ddyddiad y cyfrifiad ynghyd â rhywfaint o fanylion demograffig sylfaenol fel oedran, rhyw a chyfeiriad arferol. Bydd

---

17 https://unstats.un.org/unsd/demographic-social/sconcerns/family/#docs ac https://www.unece.org/fileadmin/DAM/stats/publications/2015/ECECES41_EN.pdf

angen i unrhyw ymwelwyr sydd fel arfer yn byw rywle arall yn y DU gwblhau holiadur y cyfrifiad pan fyddant yn dychwelyd i'w preswylfa arferol. Bydd hyn yn galluogi SYG i sicrhau eu bod yn cael eu dyrannu i'w preswylfa arferol a'u cyfrif yno.

3.6 Yn unol ag arfer safonol, ystyrir bod myfyrwyr a phlant mewn ysgol breswyl yn byw yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor ni waeth ble y gallant fod ar ddyddiad y cyfrifiad. Bydd hyn yn sicrhau bod sylfaen poblogaeth y cyfrifiad yn gyson â'r sylfaen a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng cyfrifiadau, sef amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth.

3.7 Bydd y cyfrifiad hefyd yn cyfrif pawb sy'n preswylio mewn sefydliadau cymunedol, fel ysbytai, cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl a gwestai ar ddyddiad y cyfrifiad. Gwneir trefniadau arbennig i gyfrif preswylwyr mewn carchardai a chanolfannau cadw mewnfudwyr, ar longau mewn porthladdoedd ac mewn gwersylloedd milwrol, a grwpiau eraill o'r boblogaeth nad ydynt yn byw mewn cartrefi preifat, fel pobl sy'n teithio gyda ffair.

## Gwerthuso gofynion pynciau

3.8 Mae'r pynciau a gynigir ar gyfer y cyfrifiad yn cynnwys y rheini ag angen defnyddwyr cryf, sydd wedi'i ddiffinio'n glir, a lle mae cwestiynau wedi'u llunio y gellir disgwyl iddynt gynhyrchu data dibynadwy a chywir. At hynny, ym mhob achos nid oes ffynhonnell gymaradwy na hygyrch arall o'r wybodaeth a all ddiwallu'r angen.

3.9 Mae SYG yn gweithio gyda defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb er mwyn sicrhau ei bod yn deall eu gofynion gwybodaeth mewn ffordd glir a chyfredol. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliodd SYG ymgynghoriad cyhoeddus yn 2015 a wnaeth ofyn i ddefnyddwyr am eu barn a thystiolaeth o'r pynciau yr oeddent o'r farn bod angen eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 (gweler Pennod 2). Ategwyd hyn gan y ddogfen 'Barn Gychwynnol ar Gynllun Cynnwys Allbynnau Cyfrifiad 2021'[18] a anelodd at hyrwyddo trafodaeth ac annog datblygiad achosion cryf dros bynciau i'w cynnwys. Arweiniodd yr ymgynghoriad at alwadau am lawer mwy o gwestiynau na'r hyn y byddai modd ei gynnwys ar holiadur y cyfrifiad neu y byddai'n rhesymol disgwyl i gartref eu cwblhau.

3.10 Nododd defnyddwyr fod angen parhaus am y rhan helaeth o'r pynciau a gwmpaswyd yng Nghyfrifiad 2011 yn ogystal ag amrywiaeth o ofynion ar gyfer pynciau ychwanegol gan gynnwys gwybodaeth am gymuned y lluoedd arfog, hunaniaeth o ran rhywedd, cyflyrau iechyd, man geni,

18 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales

rheswm dros fudo, cyfeiriadedd rhywiol, incwm, a gwirfoddoli. Cafodd yr anghenion gwahanol eu cydbwyso â chynyddu'r baich ar y cyhoedd. Un o nodau'r ymgynghoriad oedd osgoi cynyddu'r baich o gymharu â chyfrifiadau blaenorol ac osgoi cynyddu'r amser i gwblhau'r cyfrifiad (dim mwy nag 20 munud ar gyfer cartref pedwar person).

3.11 Defnyddiwyd tair set o feini prawf gwerthuso er mwyn asesu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan ddefnyddwyr. Er bod y rhain yr un peth â'r rhai a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus i bennu'r cwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfrifiad 2011 fwy neu lai, gwnaed rhai newidiadau. Cafodd y newidiadau eu dylunio i wneud y meini prawf yn gryfach ac yn fwy tryloyw, ac i adlewyrchu'r cynigion ar gyfer cyfrifiad ar lein yn bennaf yn 2021.

3.12 Mae'r tair set hyn o feini prawf yn cwmpasu gofynion defnyddwyr, ystyriaethau eraill, a gofynion gweithredol.

## Meini prawf gwerthuso gofynion defnyddwyr

3.13 Rhaid i unrhyw bwnc y cynigir ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 fod ag angen defnyddwyr cryf sydd wedi'i ddiffinio'n glir. Roedd y meini prawf o ran gofynion defnyddwyr yn cwmpasu nifer o ffactorau rhyng-gysylltiedig gan gynnwys diben, yr angen am wybodaeth ar lefel ardal fach neu ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth, parhad a chymaradwyedd. Rhoddir rhagor o fanylion yn nhabl 3.

## Tabl 3: Meini prawf gwerthuso gofynion defnyddwyr

| Maen prawf | Disgrifiad |
|---|---|
| Diben | Mae'r ffordd y defnyddir y data a'u heffaith yn rhan ganolog o'r broses werthuso. Mae'r dibenion yn cynnwys dyrannu adnoddau, cynllunio gwasanaethau, gwerthuso polisïau a monitro amrywiaeth, ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny. Mae hefyd yn bwysig ystyried y goblygiadau os na chesglir y data, er enghraifft costau ariannol uwch neu ansawdd data is at ddibenion cynllunio neu ddibenion eraill. Byddai perthnasedd y data i ystyriaethau cydraddoldeb neu hawliau dynol yn atgyfnerthu'r achos dros eu cynnwys. |
| Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | Mae'n rhaid bod angen gwybodaeth ar lefelau daearyddol manwl a/neu am grwpiau bach o'r boblogaeth. Efallai y byddai'n well caffael gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ardaloedd daearyddol eang neu grwpiau mawr o'r boblogaeth o ffynonellau ystadegol eraill. |
| Ffynonellau amgen | Bydd Cyfrifiad 2021 ond yn casglu gwybodaeth os na ellir casglu'r data gofynnol mewn unrhyw ffordd arall. Ystyriwyd p'un a yw gwybodaeth addas ar gael o ffynonellau eraill ai peidio, er enghraifft cofnodion gweinyddol neu arolygon sampl. |
| Dadansoddi amryw o elfennau | Un o fanteision allweddol data'r cyfrifiad yw gallu dadansoddi pynciau penodol yn erbyn ei gilydd. Bydd gofyniad i ddadansoddi amryw o elfennau (er enghraifft edrych ar iechyd cyffredinol yn ôl gweithgarwch economaidd er mwyn deall unrhyw berthynas rhwng iechyd a statws economaidd) yn atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau yn y cyfrifiad. Y rheswm dros hyn yw efallai na ddadansoddwyd amryw o elfennau'n fanwl gan ffynonellau amgen. |
| Parhad a chymaradwyedd | Mae parhad a chymaradwyedd â chyfrifiadau blaenorol a chyfrifiadau y tu hwnt i Gymru a Lloegr yn agweddau pwysig ar ddadansoddi'r cyfrifiad. Lle bo'n briodol, bydd y cwestiynau a ofynnir yn 2021 yr un peth â'r rhai a ofynnwyd yng Nghyfrifiad 2011 (neu bydd Cyfrifiad 2021 yn casglu'r un wybodaeth â Chyfrifiad 2011) a/neu yn fodd i gymharu â chanlyniadau cyfrifiadau yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'n rhyngwladol. |

## Meini prawf gwerthuso sy’n gysylltiedig ag ystyriaethau eraill

3.14 Roedd ffactorau eraill yr oedd angen i SYG eu hystyried wrth werthuso’r wybodaeth i’w chasglu o’r cyfrifiad yn 2021 ac asesu’r blaenoriaethau ar gyfer pynciau. Yn eu plith roedd ystyried effaith ffactorau fel ansawdd data, derbynioldeb i’r cyhoedd a baich ar yr ymatebwyr.

**Effaith ar ansawdd data a derbynioldeb i’r cyhoedd**

3.15 Dylai profion ar ddata a gesglir yng Nghyfrifiad 2021 ddangos eu bod o ansawdd digonol i allbynnau fod yn ddefnyddiol. O ganlyniad, dylai’r wybodaeth sydd ei hangen i ateb cwestiynau fod ar gael yn hawdd neu fod yn hawdd ei chofio. Hefyd, ni ddylai’r cyfrifiad ofyn cwestiynau sensitif na chwestiynau a allai fod yn fusneslyd a allai gael effaith negyddol ar yr ymateb neu wneud i ymatebwyr roi atebion sy’n dderbyniol yn gymdeithasol yn hytrach nag atebion cywir. Ni ddylai holi am farn nac agweddau unigolion.

**Yr effaith ar y baich ar yr ymatebydd**

3.16 Ni ddylai cynnwys cwestiynau am bwnc osod baich gormodol ar ymatebwyr. Gallai’r baich, er enghraifft, ddeillio o gyfarwyddiadau neu esboniadau hirfaith, nifer fawr o gategorïau ymateb, neu nifer fawr o gwestiynau ar un pwnc.

## Meini prawf gwerthuso sy’n gysylltiedig â gofynion gweithredol

3.17 Mae SYG yn defnyddio rhywfaint o ddata’r cyfrifiad yn weithredol er mwyn helpu i gynnal y cyfrifiad. Y pwysicaf o’r gofynion hyn yw sicrhau’r cwmpas mwyaf gan mai prif nod y cyfrifiad yw darparu amcangyfrif cadarn o’r boblogaeth sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr. Ymhlith y pryderon gweithredol eraill mae ystyried cost a chodio newidynnau deilliedig a dilysu.

## Profion datblygu cwestiynau

3.18 Mae’r gwaith o brofi a datblygu cwestiynau newydd arfaethedig y cyfrifiad, neu ddiwygio cwestiynau presennol y cyfrifiad, yn dilyn trywydd tebyg ar gyfer pob cwestiwn:

- Bydd SYG yn nodi pa mor gryf yw angen defnyddwyr a’r ffyrdd penodol y defnyddir y wybodaeth er mwyn llywio geiriad a datblygiad cwestiwn ynghyd ag opsiynau ymateb priodol
- Os yw’n gwestiwn newydd, gall SYG ddechrau gydag arolwg mawr er mwyn asesu pa mor dderbyniol yw’r cwestiwn i’r cyhoedd cyn mynd ati i’w ddatblygu ymhellach

- Gellir cynnal profion gwybyddol drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau llai, rhai unigol yn aml, er mwyn helpu i ddeall sut mae'r ymatebydd yn deall y cwestiwn
    - Mae'r cam hwn yn debygol o ofyn am nifer o iteriadau ac fe'i defnyddir i brofi, a mireinio, geiriad cwestiwn (a chanllawiau cysylltiedig yn aml) a sicrhau bod opsiynau ymateb yn gweithio, yn dderbyniol ac yn cael eu deall ymhlith y grwpiau bach hyn o ymatebwyr
    - Mae'r cwestiynau sydd wedi newid ers Cyfrifiad 2011, neu sy'n cael eu cynnwys o'r newydd, wedi bod yn destun profion gwybyddol yn yr iaith Gymraeg
- Yn olaf, os bydd cwestiwn yn gweithio mewn profion gwybyddol, caiff y cwestiwn ei brofi gyda sampl mwy o faint o'r boblogaeth fel arolwg hunanymateb er mwyn gweld a fydd y cwestiwn yn gweithio dan amodau cyfrifiad

3.19 Yna caiff y dystiolaeth hon ei hystyried ochr yn ochr â chryfder cyffredinol angen defnyddwyr, y baich cyffredinol ar ymatebwyr, cyfyngiadau lle ar y ffurflen bapur, a dyletswyddau cyfreithiol i wneud argymhelliad ynghylch p'un a ddylid cynnwys cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021.

# Pynciau dethol

## Crynodeb o'r pynciau

3.20 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig bod Cyfrifiad 2021 yn casglu gwybodaeth am y canlynol:

- cyfeiriad, gan gynnwys y cod post, ar gyfer pob cartref â rhywun yn byw ynddo, pob cartref heb neb yn byw ynddo, a phob sefydliad cymunedol
- enw pob preswylydd, boed yn bresennol neu'n absennol dros dro ar ddyddiad y cyfrifiad, a phob ymwelydd

3.21 Ategir y manylion hyn gan wybodaeth am bynciau penodol. Mewn rhai achosion, bydd un pwnc yn cael ei gwmpasu gan sawl cwestiwn. Tra bydd angen i rai cwestiynau gael eu hateb gan bawb sy'n byw mewn cartref neu sefydliad cymunedol (er enghraifft oedran a rhyw), bydd cwestiynau eraill ond yn berthnasol i grwpiau penodol o'r boblogaeth. Er enghraifft, bydd y cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, cymwysterau, gweithgarwch economaidd, galwedigaeth a diwydiant ond yn cael eu gofyn i bobl 16 oed a throsodd. Hefyd, bydd y cwestiwn am y Gymraeg ond yn cael ei ofyn yng Nghymru a bydd rhai cwestiynau am fudo ond yn cael eu gofyn i bobl a aned y tu allan i'r DU.

3.22 Rhan o'r cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a'r cyhoedd yw sicrhau bod diben cwbl ystadegol a chyfrinachedd y cyfrifiad yn cael ei wneud yn glir i ymatebwyr. Fel rhan o waith cynllunio Cyfrifiad 2021, bydd SYG yn monitro'n agos yr hyn a ddywedir gan y cyhoedd am bynciau penodol er mwyn sicrhau y gall SYG ymateb yn briodol i bryderon cymunedau.

3.23 Rhoddir crynodeb o'r math o wybodaeth a gesglir oddi wrth gartrefi, sefydliadau cymunedol, pobl sy'n byw mewn cartrefi ac yn bresennol mewn sefydliadau cymunedol ac ymwelwyr, neu sy'n deillio o'r wybodaeth a roddir ganddynt, isod.

**Ar gyfer cartrefi**

- Perthynas o fewn y cartref
- Math o lety
- Natur hunangynhwysol y llety
- Nifer yr ystafelloedd gwely
- Math o wres canolog
- Deiliadaeth a math o landlord (os yw'n llety a gaiff ei rentu)
- Nifer y ceir neu faniau

**Ar gyfer sefydliadau cymunedol**

- Math o sefydliad (gan gynnwys pwy mae'n darparu ar eu cyfer a phwy sy'n gyfrifol am ei reoli)

**Ar gyfer preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol**

- Rôl yn y sefydliad

**Ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi a sefydliadau cymunedol**
*Noder: * yn dynodi cynigion ar gyfer cwestiynau newydd y cyfrifiad*

- Enw
- Rhyw
- Dyddiad geni
- Statws priodasol/partneriaeth sifil gyfreithiol
- Grŵp ethnig
- Hunaniaeth genedlaethol
- Y gofal di-dâl a ddarperir
- Iechyd cyffredinol
- Problem iechyd neu anabledd hirdymor
- Cymwysterau

- Mudo rhyngwladol hirdymor
- Mudo rhyngwladol byrdymor
- Cyfeiriad flwyddyn yn ôl
- Dinasyddiaeth (drwy'r pasbort a ddelir)
- Crefydd
- Sgiliau Cymraeg (Cymru yn unig)
- Prif iaith a ddefnyddir
- Pa mor dda y gellir siarad Saesneg
- Gweithgarwch economaidd
- Galwedigaeth
- Diwydiant
- Dull o deithio i'r gweithle
- Statws goruchwylio
- Cyfeiriad y gweithle
- Math o ail gyfeiriad a'i gyfeiriad
- Ail gyfeiriad
- Cyfeiriadau myfyrwyr yn ystod y tymor
- Y lluoedd arfog*
- Hunaniaeth o ran rhywedd*
- Cyfeiriadedd rhywiol*

**Ar gyfer ymwelwyr mewn cartrefi**

- Enw
- Rhyw
- Dyddiad geni
- Lleoliad preswylfa arferol

3.24 Mae SYG yn cynnig **hepgor** dau gwestiwn a gwmpaswyd yng Nghyfrifiad 2021, sef:

- Nifer yr ystafelloedd
- Y flwyddyn ddiwethaf i rywun weithio

Bydd pob pwnc arall a gafodd ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2011 yn cael ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

3.25 Bydd cwestiynau am yr holl bynciau a restrir uchod yn cael eu cynnwys yn Ymarfer 2019. Amlinellir y cynigion ar gyfer pynciau newydd ym mharagraffau 3.26 i 3.54. Caiff y cwestiynau sy'n parhau, a, lle bo'n berthnasol, sut maent yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad

2011, eu disgrifio ym mharagraffau 3.55 i 3.167. Bydd y cwestiynau a gaiff eu cynnwys yn y cyfrifiad yn cael eu hamlinellu maes o law yng Ngorchymyn y Cyfrifiad (disgrifir y broses ddeddfwriaethol ym Mhennod 7).

## Pynciau arfaethedig newydd

3.26 Yn ogystal â pharhau i gasglu gwybodaeth mae SYG wedi'i chasglu o'r blaen, dangosodd yr ymgynghoriad fod cryn dipyn o angen gofyn cwestiynau newydd yn y cyfrifiad ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn adlewyrchu pwy yw grwpiau penodol o'r boblogaeth. Yr anghenion a nodwyd oedd:

- casglu gwybodaeth am gyn-filwyr **lluoedd arfog y DU** er mwyn helpu defnyddwyr i gyflawni eu hymrwymiadau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog – addewid rhwng y wlad a'r sawl sydd wedi neu yn ei gwasanaethu
- casglu gwybodaeth am hunaniaeth o ran rhywedd, yn ogystal â'r cwestiwn presennol am ryw, er mwyn diwallu'r angen am well gwybodaeth ar gyfer monitro a chefnogi dyletswyddau gwrthwahaniaethu Deddf Cydraddoldeb 2010
- casglu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol er mwyn diwallu'r angen am well gwybodaeth am y boblogaeth lesbiaidd, hoyw a deurywiol er mwyn monitro a chefnogi dyletswyddau gwrthwahaniaethu Deddf Cydraddoldeb 2010

3.27 Mae gwaith pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â'r cwestiynau newydd er mwyn profi manylion fel llwybr a threfn y cwestiynau a all gael effaith sylweddol ar y ffordd maent yn cael eu hateb. Bydd y gwaith hwn yn llywio dyluniad terfynol y cyfrifiad. Mae SYG hefyd yn cynnal profion defnyddwyr a phrofion gwybyddol yn Gymraeg a Saesneg a hynny ar gwestiynau ar-lein a chwestiynau papur er mwyn sicrhau bod ymatebwyr yn gallu darparu data o ansawdd yn hawdd.

### Y lluoedd arfog

#### Anghenion defnyddwyr

3.28 Yn ystod yr ymgynghoriad ar bynciau, nodwyd angen newydd i ddeall maint a nodweddion y gymuned lluoedd arfog. Y prif angen a nodwyd gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ac elusennau sy'n gweithio gyda chyn-filwyr a'u teuluoedd, fel y Lleng Brydeinig Frenhinol, oedd cyflawni eu hymrwymiadau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog [19]. Addewid gan y genedl yw'r Cyfamod hwn, gan sicrhau bod y sawl sydd wedi neu sydd yn

[19] https://www.gov.uk/government/publications/armed-forces-community-covenant/armed-forces-community-covenant

gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Mae'r rheini sydd wedi ymrwymo i'r Cyfamod yn darparu cymorth mewn nifer o feysydd gan gynnwys addysg a llesiant teuluoedd, tai, gofal iechyd, cyflogaeth, cymorth ariannol, a gwasanaethau a ddarperir ar gyfradd ostyngol.

3.29 Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau allu asesu pa mor dda maent yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn, ac er mwyn gwneud hynny mae angen iddynt gael gafael ar wybodaeth sylfaenol am y boblogaeth o gyn-filwyr yn y gymuned maent yn ceisio ei gwasanaethu. Drwy gynnwys cwestiwn yn y cyfrifiad bydd modd iddynt gael gafael ar y data hynny oherwydd bydd yn bosibl dadansoddi'r ymatebion i holl gwestiynau eraill y cyfrifiad ochr yn ochr â'r ymatebion ar fod yn aelod o'r lluoedd arfog (dadansoddi amryw o elfennau) ar lefel leol.

### Y broses ystyried

3.30 I ddechrau, aseswyd bod angen defnyddwyr am y pwnc hwn islaw'r trothwy ar gyfer ei gynnwys, yn bennaf seiliedig ar argaeledd ymddangosiadol data o ffynhonnell amgen o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Fodd bynnag, dangosodd gwaith pellach mai dim ond diwallu'r angen defnyddwyr yn rhannol roedd y ffynhonnell hon yn ei wneud. Parodd SYG y Gronfa Ddata Cyn-filwyr yn llwyddiannus â data'r cyfrifiad. Fodd bynnag, roedd bylchau yn y data ar gyfer y rhai a adawodd y lluoedd arfog cyn 1971. Gwnaeth SYG hefyd ystyried cyfuno samplau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ond roedd rhai samplau yn rhy fach i ddarparu data lleol oedd yn ddigon cyson.

3.31 Cafodd fersiynau o gwestiynau eu profi drwy brofion gwybyddol a phrofion ar raddfa fawr a nododd fod y cwestiwn yn dderbyniol ar y cyfan (er bod angen i'r rheswm dros ei ofyn fod yn gwbl glir), a bod y cwestiwn oedd yn cael ei ddatblygu yn hawdd i'w ateb yn gywir.

### Argymhelliad

3.32 Mae SYG yn argymell cyflwyno cwestiwn newydd er mwyn nodi'r bobl hynny sy'n 16 oed a throsodd sydd wedi neu sydd yn gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU. Mae hyn yn cynnwys milwyr rheolaidd, milwyr wrth gefn a'r rheini a fu'n gwasanaethu fel rhan o Wasanaeth Milwrol. Bydd yn cynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU am ddiwrnod neu fwy ac sydd wedi gadael ar adeg y cyfrifiad.

3.33 Bydd cynnwys y cwestiwn hwn yng Nghyfrifiad 2021 yn darparu amcangyfrif cywir o faint y gymuned o gyn-filwyr. Bydd hyn yn cynnwys data ar nodweddion eraill, fel eu sefyllfa dai, dangosyddion iechyd cyffredinol a'u gweithgarwch yn y farchnad lafur, ar gyfer ardaloedd bach. Yn ogystal

â datblygu polisïau adrannau llywodraeth ganolog, bydd yn galluogi awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Cyfamod.

## Hunaniaeth o ran rhywedd

### Anghenion defnyddwyr

3.34 Mae defnyddwyr wedi nodi bod angen gwybodaeth am y boblogaeth drawsryweddol. Mae "trawsryweddol" yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yr un peth â'u rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni[20]. Mae angen cael y wybodaeth hon er mwyn cyflawni dyletswyddau cydraddoldeb, a dyrannu adnoddau a datblygu polisïau, yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd. Hefyd mae angen ymatebwyr i'r cwestiwn ar ryw fod yn fwy cynhwysol am nad oedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cwestiwn ar ryw yn 2011 yn darparu digon o opsiynau ymateb ac felly ystyriwyd yr angen hwn hefyd.

3.35 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata swyddogol ar faint y boblogaeth drawsryweddol. Byddai cynnwys cwestiwn yn y cyfrifiad yn cynyddu gweladwyedd ac yn darparu sylfaen well i nodi anghydraddoldebau, anghenion, gwasanaethau a chymorth i bobl drawsryweddol. Mae hyn hefyd yn berthnasol o ystyried maint bach y boblogaeth a ragamcenir, sy'n ei gwneud hi'n anodd ei nodi drwy arolygon sampl.

3.36 Un o brif elfennau'r gwaith hwn fu sicrhau nad oes unrhyw risg i ansawdd data a gesglir ar wybodaeth hanfodol am ryw unigolyn (yn wryw neu'n fenyw).

### Dylunio cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd

3.37 Fodd bynnag, mae materion cymhleth i'w hystyried wrth ddylunio cwestiwn ar y pwnc hwn. Mae nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at bobl sy'n bwriadu, sydd yn, neu sydd wedi, dilyn proses (neu ran o broses) i ailbennu rhyw'r unigolyn drwy newid nodweddion ffisiolegol neu nodweddion rhyw eraill. Mae hefyd yn cynnwys pobl y tybir bod ganddynt y nodwedd hon. Ar y llaw arall, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi diffinio hunaniaeth o ran rhywedd fel "the way in which an individual identifies with a gender category"[21]. Seilir hyn ar ganfyddiad unigolion ohonyn nhw eu hunain ac felly efallai na fydd y categori rhywedd y mae pobl yn uniaethu ag ef yn cyfateb i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni.

---

20 https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/measuringequality/genderidentity/genderidentityupdate

21 https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/rr75_final.pdf

## Y broses ystyried

3.38 Cafodd y cynllun ymchwil a phrofion ei ddylunio er mwyn egluro'r ffordd y caiff y cysyniadau o ran rhyw, rhywedd a thrawsrywedd eu mynegi a'u mesur. Fe'i defnyddir i asesu p'un a oes modd datblygu cwestiwn fel a ganlyn, gan barhau i ofyn cwestiwn ar ryw:

- yn dderbyniol i'r cyhoedd
- yn hawdd ei ddeall
- yn gallu darparu data o ansawdd da

3.39 Y prif agweddau ar y cynllun ymchwil oedd:

- adolygu gwaith rhyngwladol yn y maes hwn
- ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn egluro gofynion y data
- nodi unrhyw opsiynau amgen i ddiwallu anghenion defnyddwyr
- nodi agweddau allweddol ar waith gwerthuso er mwyn penderfynu p'un a ddylid argymell cynnwys cwestiwn (er enghraifft, derbynioldeb i'r cyhoedd ac ansawdd y data a gesglir)

3.40 Ers i'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus[22] gael ei gyhoeddi mae SYG wedi gwneud rhagor o waith gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Stonewall a'r LGBT Foundation er mwyn egluro anghenion defnyddwyr, adolygu'r gwaith mae asiantaethau ystadegol cenedlaethol eraill yn ei ystyried, a dechrau asesu p'un a all ffynonellau amgen ddiwallu anghenion defnyddwyr. Mae SYG hefyd wedi ymchwilio i'r lleiafswm oedran ar gyfer gofyn cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd. Ystyriwyd sawl ffordd wahanol o ofyn cwestiwn gan gynnwys:

- gofyn cwestiwn rhyw/rhywedd mwy cynhwysol sy'n cynnwys trydydd blwch "arall"
- gofyn cwestiwn ar ryw ac yna gwestiwn ar rywedd, gan anelu at nodi'r boblogaeth drawsryweddol drwy ymatebion gwahanol i'r ddau gwestiwn
- gofyn cwestiwn ar ryw ac yna gwestiwn sy'n gofyn p'un a yw'r ymatebydd yn drawsryweddol

3.41 Gwnaeth SYG hefyd gomisiynu ymchwil annibynnol i dderbynioldeb i'r cyhoedd[23]. Cafwyd ymatebion gan tua 4,000 o bobl, a dangosodd y canlyniadau fod y cwestiwn yn cael ei dderbyn yn eang:

- dim ond 1% a ddywedodd y byddai'n gwneud iddynt beidio â chwblhau'r cyfrifiad o gwbl

---

22 https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales/topicreport03genderidentity.pdf

23 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/questiondevelopment/2021censustopicresearchdecember2017

- roedd 80% yn Lloegr a 75% yng Nghymru o'r farn ei bod hi'n dderbyniol gofyn cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd
- dywedodd 5% yn Lloegr a 10% yng Nghymru y byddent yn anwybyddu'r cwestiwn ond yn cwblhau'r cyfrifiad
- roedd 79% yng Nghymru a Lloegr o'r farn ei bod yn dderbyniol ateb ar ran aelodau eraill o'r cartref sy'n 16 oed a throsodd, gan ostwng i 69% pan oedd ar ran aelodau eraill o'r cartref sy'n 15 oed neu'n iau

3.42 Mae ymchwil hefyd wedi cael ei chynnal i ddatblygu cwestiynau gan gynnwys cyfweliadau gwybyddol, grwpiau ffocws, gweithdai, profion anffurfiol yn y gymuned, arolygon ar raddfa fawr, omnibws ar-lein ac ymchwil i dderbynioldeb i'r cyhoedd. Dengys yr ymchwil y canlynol:

- mae cwestiwn rhyw 2011 yn rhwystr i unigolion trawsryweddol ac anneuaidd[24] ymateb i'r cyfrifiad
- ni all cwestiwn unigol ar ryw na rhywedd ddiwallu anghenion defnyddwyr
- mae ychwanegu cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd neu ofyn p'un a yw ymatebydd yn drawsryweddol yn dderbyniol i'r cyhoedd a byddai'n diwallu'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr
- mae ychwanegu cafeat at y cwestiwn ar ryw y bydd cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd yn ei ddilyn yn gwneud y cwestiwn yn fwy derbyniol i bobl anneuaidd a thrawsryweddol

3.43 Daeth SYG i'r casgliad y byddai risg i'r data a gesglir ar ryw petai trydydd opsiwn ymateb yn cael ei ychwanegu at y cwestiwn hwnnw. Hefyd daeth SYG i'r casgliad y gall cwestiwn sy'n gofyn p'un a yw ymatebydd yn drawsryweddol ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr. Mae SYG yn profi dau opsiwn gwahanol ar gyfer cwestiwn ac mae'n hyderus y bydd un o'r rhain yn diwallu'r angen.

3.44 Mae SYG yn cynnal prawf meintiol mawr er mwyn helpu i ddeall effaith y mathau gwahanol hyn o gwestiynau ar gyfraddau ymateb a'r data a gesglir, ynghyd â phrofion i bennu pa mor dderbyniol yw gwahanol gwestiynau i'r cyhoedd. Yn ogystal â phrofi cwestiynau posibl ar gyfer y cyfrifiad, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi opsiynau atodol. Mae SYG yn cydweithio â nifer o adrannau'r llywodraeth er mwyn archwilio ffynonellau data gweinyddol ac mae hefyd yn ystyried y posibilrwydd o fesur hunaniaeth o ran rhywedd yn fanylach drwy arolygon cymdeithasol SYG.

---

24 https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/measuringequality/genderidentity/genderidentityupdate

### Argymhelliad

3.45 Mae SYG yn cynnig na ddylid newid y cwestiwn ar ryw, a bod cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd yn cael ei ofyn i unigolion 16 oed a throsodd. Fel y cwestiwn ar ymlyniad crefyddol a gyflwynwyd yng Nghyfrifiad 2001, cred SYG y dylai'r cwestiwn newydd ar hunaniaeth o ran rhywedd fod yn wirfoddol. Hynny yw, ni ddylai neb orfod ateb y cwestiwn hwn os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd y llywodraeth ac Awdurdod Ystadegau'r DU yn ystyried y ffordd briodol o sicrhau hyn.

Mae SYG wrthi'n cynnal rhagor o brofion ar ddyluniad cwestiynau, a fydd yn helpu i lywio'r ffordd mae'r cwestiwn yn cael ei ofyn ymhellach. Yn amodol ar y profion hynny, mae SYG yn cynnig cynnwys y cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd gydag chafeat yn y cwestiwn ar ryw er mwyn egluro y bydd cwestiwn ar rywedd yn dilyn yn ddiweddarach yn yr holiadur. Gwelwyd bod hyn yn ei wneud yn fwy derbyniol i'r gymuned drawsryweddol ac anneuaidd.

## Cyfeiriadedd rhywiol

### Anghenion defnyddwyr

3.46 Nododd ymgysylltiad cyhoeddus SYG â defnyddwyr o ymgynghoriad 2015 ar bynciau ofyniad clir a sylweddol am well gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol. Byddai hyn yn cefnogi gwaith ar ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi y monitro a dyletswyddau statudol eraill a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[25].

### Y broses ystyried

3.47 Dechreuodd SYG raglen eang o brofion a oedd yn cynnwys:

- cwestiwn ar y pwnc hwn yn un hanner o Brawf 2017 er mwyn ymchwilio i'r effaith ar yr ymateb cyffredinol ac ansawdd ymatebion
- prawf ar wahân er mwyn asesu pa mor dderbyniol oedd gofyn cwestiwn o'r fath i'r cyhoedd
- asesu dyluniad y cwestiwn ar gyfer y cyfrifiad mewn astudiaethau ansoddol
- asesu gofynion deddfwriaethol cynnwys y cwestiwn yn y cyfrifiad
- asesu effeithiau ar gydraddoldeb gofyn y cwestiwn fel gofyn am ffurflen i unigolion neu unigolyn yn datgelu pwy ydyw drwy ddewis peidio ag ateb

---

25 http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

3.48 Yn y profion roedd y cwestiwn yn dderbyniol i'r cyhoedd. Dangosodd y canlyniadau o arolwg annibynnol gyda 15,595 o gartrefi a chyfradd ymateb o 25% y canlynol:

- dim ond 1% na fyddent yn cwblhau holiadur y cyfrifiad petai'r cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol yn cael ei gynnwys
- roedd 70% o'r ymatebwyr 16 oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr o'r farn ei bod yn dderbyniol cynnwys cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol ar yr holiadur
- dywedodd 80% o'r ymatebwyr y byddent yn darparu ateb cywir i gwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol o ran eu hunain ac ar ran aelodau eraill o'r cartref
- byddai llai nag 1% yn darparu ateb anghywir neu'n gofyn am gael ffurflen i unigolion am resymau preifatrwydd

3.49 Cafodd SYG ddata o ansawdd da o Brawf 2017. Dangosodd y canlyniadau'r canlynol:

- ni chafodd cynnwys y cwestiwn effaith berthnasol ar yr ymateb cyffredinol
    - Roedd y gwahaniaeth mewn ymateb yn 0.4 pwynt canran rhwng holiadur â'r cwestiwn a holiadur heb y cwestiwn, oedd ymhell o fewn y trothwy o 2.0% (gweler para 2.41)
- lefel diffyg ymateb eitem oedd 8.4% yn gyffredinol
    - Roedd hyn yn is na'r trothwy (10%) ac mae ymchwil bellach yn awgrymu ei bod yn uwch ar gyfer oedrannau hŷn ac y gellid ei lliniaru drwy well cyhoeddusrwydd ac arweiniad am y rheswm dros gasglu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol
- dim ond nifer fach o bobl a roddodd y gorau i gwblhau holiadur y cyfrifiad wrth gyrraedd y cwestiwn hwn
- roedd y gyfradd gytuno rhwng y cyfrifiad ac arolwg gwerthuso dilynol yn uchel iawn, sef 98.6%
- roedd dosbarthiad ymatebion yn gyson â chanlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, gan ddangos bod canran uchel o'r sampl yn nodi ei bod yn lesbiaidd ac yn hoyw, gydag amcangyfrifon tebyg ar gyfer bod yn ddeurywiol, a dosbarthiadau union debyg ar gyfer "arall"

3.50 Felly, mae SYG yn hyderus, petai'r cwestiwn yn cael ei gynnwys ar Gyfrifiad 2021, y bydd yn gallu cynhyrchu ystadegau a wnaiff hysbysu defnyddwyr am y boblogaeth hon.

3.51 Un o'r materion a nodwyd yn glir oedd bod angen i bobl allu cadw eu cyfeiriadedd rhywiol yn breifat os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Ystyriwyd ffyrdd amrywiol o gyflawni hyn. Felly cynhaliodd SYG brawf mawr

arall o 13,700 o gartrefi. Profodd dri math o'r cwestiwn: un gydag opsiwn "gwell gennyf beidio â dweud" ar gyfer yr ymateb; un gyda nodyn bod y cwestiwn yn wirfoddol; ac un heb yr un o'r rhain. Dangosodd y canlyniadau mai'r opsiwn "gwell gennyf beidio â dweud" a gafodd y gyfradd ymateb uchaf i'r arolwg, y lefel isaf o fethiant i ateb y cwestiwn penodol, ac a gynhyrchodd y ffigur uchaf ar gyfer dosbarthu'r boblogaeth hoyw, lesbiaidd a deurywiol (LGB). Rhoddir y ffigurau yn nhabl 4.

## Tabl 4: Profi opsiynau preifatrwydd cyfeiriadedd rhywiol

| Sampl Opsiwn | Ymateb i'r Arolwg (%) | Heb ymateb i'r cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol (%) | Dosbarthiad y boblogaeth LGB (%) |
|---|---|---|---|
| Gwell gennyf beidio â dweud | 34.8 | 1.6 | 2.3 |
| Nodyn bod y cwestiwn yn wirfoddol | 33.0 | 7.8 | 1.7 |
| Dim nodyn nac opsiwn | 33.2 | 2.4 | 1.5 |

**Ffynhonnell: SYG**

3.52 Mae SYG hefyd wedi cynnal profion gwybyddol o wahanol fersiynau o gwestiynau, sydd wedi dangos bod y cwestiwn yn dderbyniol ac mae wedi ein helpu i asesu a datblygu'r cwestiwn a'r arweiniad cysylltiedig yn Gymraeg a Saesneg. Gwnaeth SYG hefyd ddadansoddi'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gyflwynodd amcangyfrifon is-genedlaethol o gyfeiriadedd rhywiol fel cyfartaledd ar gyfer blynyddoedd cyfunol 2013 i 2015. Dangosodd hyn na fyddai'r dull hwnnw o weithredu yn diwallu anghenion defnyddwyr am ddata ar y boblogaeth LGB yn llawn mewn ardaloedd daearyddol bach, am fod meintiau sampl yr Arolwg yn rhy fach[26].

3.53 Dengys y prawf hwn y bydd y cwestiwn yn gweithio, ei fod yn dderbyniol i'r cyhoedd, ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar ansawdd cyffredinol y cyfrifiad. Byddai'n gweithio'n well petai ond yn cael ei ofyn i bobl 16 oed a throsodd, ac os yw'r cwestiwn yn cynnwys opsiwn ymateb "gwell gennyf beidio â dweud". Byddai hyn yn galluogi'r ymatebwyr i gydymffurfio â natur orfodol y cwestiwn ond gan gadw eu preifatrwydd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

---

[26] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/articles/subnationalsexualidentityestimates/uk2013to2015

**Argymhelliad**

3.54 Mae SYG yn argymell cyflwyno cwestiwn newydd ar gyfeiriadedd rhywiol i bobl 16 oed a throsodd. Fel y cwestiwn ar ymlyniad crefyddol a gyflwynwyd yng Nghyfrifiad 2001, cred SYG y dylai'r cwestiwn newydd ar gyfeiriadedd rhywiol fod yn wirfoddol. Hynny yw, ni ddylai neb orfod ateb y cwestiwn hwn os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd y llywodraeth ac Awdurdod Ystadegau'r DU yn ystyried y ffordd briodol o sicrhau hyn.

Mae'r penderfyniad i argymell cwestiwn i'w gynnwys yn y cyfrifiad yn 2021 yn seiliedig ar ganlyniad y profion hyn ynghyd â chryfder angen defnyddwyr am y pwnc hwn. Mae'r profion wedi dangos y byddai'n dderbyniol, ar y cyfan, gynnwys cwestiwn yn y cyfrifiad ac y bydd yn darparu data o ansawdd da heb gael fawr ddim effaith ar yr ymateb cyffredinol. Bydd SYG yn parhau i wneud gwaith ymchwil er mwyn gwella'r broses o gyflwyno'r cwestiwn ac ansawdd dilynol y data a gesglir ymhellach.

# Pynciau a gadwyd o 2011

## Cwestiynau ar gyfeiriad preswylfa arferol

3.55 Mae gofyniad gweithredol i gasglu a/neu gadarnhau data ar gyfeiriad pob cartref â rhywun yn byw ynddo, pob cartref heb neb yn byw ynddo, a phob sefydliad cymunedol. Gofynnir i ddeiliad y cartref (neu reolwr y sefydliad cymunedol) gadarnhau bod y wybodaeth am y cyfeiriad a gaiff ei mewnbynnu ymlaen llaw yn gywir a'i diwygio os oes angen.

3.56 Bydd gwybodaeth am gyfeiriadau yn fodd i ddyrannu pob cartref â rhywun yn byw ynddo, pob cartref heb neb yn byw ynddo, a phob sefydliad cymunedol i ardaloedd cynnyrch. Ardaloedd cynnyrch yw'r lefel ddaearyddol isaf lle darperir amcangyfrifon y cyfrifiad ac fe'u sefydlir ar sail clystyrau o godau post cyfagos (gweler Pennod 5).

## Cwestiynau ar enwau pob preswylydd ac ymwelydd

3.57 Bydd y person sy'n gyfrifol am gwblhau ffurflen y cyfrifiad yn nodi enwau pob aelod o'r cartref neu bawb sy'n preswylio yn y sefydliad cymunedol (neu sydd fel arfer yn byw neu'n preswylio yno), ynghyd â phob ymwelydd sy'n bresennol yn ei gyfeiriad ar ddyddiad y cyfrifiad. Defnyddir y wybodaeth hon yn weithredol er mwyn helpu i sicrhau bod y gwaith cyfrif yn gyflawn a chyfeirio unrhyw ymholiadau at y person cywir os bydd angen holi am wybodaeth sydd ar goll.

## Cwestiynau am y cartref

3.58 Bydd rhai cwestiynau yn cyfeirio at y cartref cyfan yn hytrach nag unigolion. Cesglir gwybodaeth am gartrefi â rhywun yno a chartrefi heb neb yno. Os na fydd neb yn bresennol mewn cartref ar ddyddiad y cyfrifiad ac na ddychwelyd ffurflen, cofnodir y wybodaeth gan staff maes neu gall gael ei hamcangyfrif ar sail ffynonellau data eraill y llywodraeth.

3.59 Mae gwybodaeth am gartrefi yn hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau sy'n gysylltiedig â gwaith cynllunio er mwyn diwallu'r angen am dai a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn y dyfodol. Ar lefel ardal leol, y cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth am dai y gellir ei chymharu'n genedlaethol, a chaiff ei ddefnyddio'n eang i ddatblygu cynlluniau lleol a rhagamcanion tai. Hefyd, defnyddir mesurau tai annigonol a gorlenwi gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol er mwyn pennu lefelau buddsoddi mewn tai a thargedu rhaglenni sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd mewn ardaloedd gwledig a threfol.

3.60 Gofynnir cwestiynau ar y pynciau canlynol:

### Preswylwyr arferol

3.61 Cwestiynau ar nifer y preswylwyr arferol (gan gynnwys preswylwyr byrdymor) a pha fath o rai ydynt. Defnyddir y wybodaeth hon yn weithredol i gefnogi'r gwaith o lunio amcangyfrifon cywir o nifer y preswylwyr arferol ar lefel ardal leol.

### Ymwelwyr

3.62 Cwestiynau ar nifer yr ymwelwyr a pha fath o rai ydynt. Ymwelwyr yw'r bobl hynny sy'n bresennol mewn cyfeiriad ar ddyddiad y cyfrifiad lle nad ydynt yn byw fel arfer. Bydd y wybodaeth hon yn cefnogi'r gwaith o lunio amcangyfrifon cywir o nifer yr ymwelwyr a phreswylwyr arferol ar lefel ardal leol.

### Y berthynas rhwng aelodau o'r cartref ac aelodau o'r teulu

3.63 Mewn cartrefi lle mae dau neu fwy o bobl, gofynnir cwestiwn am y berthynas rhwng pawb yn y cartref. Mae'r wybodaeth am y berthynas rhwng aelodau o'r cartref ac aelodau o'r teulu yn hanfodol er mwyn proffilio'r boblogaeth ac at ddibenion cynllunio, fel yr angen am dai yn y dyfodol, ac er mwyn cynllunio gwasanaethau ar gyfer mathau penodol o deuluoedd (fel teuluoedd un rhiant).

### Nifer yr ystafelloedd gwely

3.64 Defnyddir y cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd gwely sydd ar gael i'w defnyddio gan bob cartref yn helaeth er mwyn deall gorlenwi, ac er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch asesiadau o anghenion strategaethau tai. Mae byw mewn cartrefi wedi'u gorlenwi yn gysylltiedig ag effeithiau personol, cymdeithasol ac iechyd andwyol. Er enghraifft, ystyrir bod prinder lle yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad plant.

3.65 Cafodd y cwestiwn hwn ei ofyn am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011 ar y cyd â'r cwestiwn hirsefydledig ar nifer yr ystafelloedd. Yng nghyd-destun lleihau'r baich ar yr ymatebydd, nid yw SYG o'r farn ei bod yn briodol parhau i ofyn dau gwestiwn sy'n bodloni un gofyniad o ran gwybodaeth onid oes achos clir a diamwys dros wneud hynny. Mae'n symlach i ymatebwyr ateb y cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd gwely ac mae o ansawdd gwell.

3.66 Yn 2017 edrychodd SYG ar ddata[27] Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel dewis amgen posibl i amcangyfrif nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely ar gyfer Cyfrifiad 2021. Cynhaliodd SYG ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn gwahodd defnyddwyr i ymateb i hyn. Nododd yr ymgynghoriad y canlynol:

- roedd mwy o ymatebwyr yn defnyddio nifer yr ystafelloedd gwely na nifer yr ystafelloedd
- gofynnir am nifer yr ystafelloedd er mwyn pennu tanddefnydd a gorddefnydd o le a all gael ei gyfrifo ar sail nifer yr ystafelloedd gwely
- mae ansawdd data cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd gwely yn uwch nag ar gyfer cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd
- hefyd, mae data Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cynnwys gwybodaeth am le a fydd hefyd yn amhrisiadwy er mwyn deall amodau byw cyfyng

3.67 O ystyried y pwyntiau hyn a'r ffaith bod SYG o'r farn ei bod ond yn briodol gofyn un cwestiwn, mae SYG yn argymell y dylid cadw'r cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd gwely, a dileu'r cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd. Bydd SYG yn parhau i weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn archwilio ymarferoldeb ategu cwestiynau'r cyfrifiad â data gweinyddol ar gyfanswm nifer yr ystafelloedd, lle byw a math o eiddo.

### Math o lety a'i natur hunangynhwysol

3.68 Mae cwestiynau ar y math o lety a'i natur hunangynhwysol yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau.

---

27 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/questiondevelopment/housingcommunalestablishmentsandvisitors/estimatingthenumberofroomsandbedroomsinthe2021censusanalternativeapproachusingvaluationofficeagencydata

3.69 Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio er mwyn darparu nifer yr anheddau, gan gynnwys rhai gwag, a'r rhai a rennir gan ddau gartref neu fwy. Drwy gasglu gwybodaeth am y llety a feddiannir gan bob cartref, bydd y cyfrifiad yn gallu dangos sut mae'r stoc dai yn cael ei defnyddio a chynnig sylfaen gadarn i asesu gofynion nawr ac yn y dyfodol wrth i nifer y cartrefi a'r mathau o gartrefi newid. Defnyddir y wybodaeth i gymharu amcangyfrifon o gartrefi ac anheddau ac i ddeall dosbarthiad anheddau gwag.

### Deiliadaeth a math o landlord (os yw'n llety a gaiff ei rentu)

3.70 Mae cwestiynau ar ddeiliadaeth llety a, lle bo'n berthnasol, y math o landlord yn hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau sy'n gysylltiedig â gwaith cynllunio er mwyn diwallu'r angen am dai yn y dyfodol. Bydd y data yn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i ddeall newidiadau yn y sector rhentu preifat.

### Math o wres canolog

3.71 Mae'r cwestiwn ar y math o wres canolog yn cefnogi'r gwaith o fonitro polisïau tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni yn ogystal â dyrannu adnoddau er mwyn cefnogi ymyriadau sy'n gysylltiedig â pholisïau. Mae SYG wrthi'n gwneud ymchwil er mwyn ystyried p'un a oes angen cynnwys opsiynau ymateb ychwanegol er mwyn cwmpasu ffynonellau newydd o wres fel ynni adnewyddadwy.

### Nifer y ceir neu faniau

3.72 Mae cwestiwn ar nifer y ceir neu faniau sydd ar gael at ddefnydd preifat aelodau o'r cartref wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad ers 1971. Caiff y wybodaeth ei defnyddio ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol a sectorau eraill er mwyn helpu i fodelu trafnidiaeth, cynllunio trafnidiaeth a dyrannu adnoddau cysylltiedig. Hefyd defnyddir y wybodaeth i ddatblygu cynlluniau parcio, gan gynnwys darparu a dyrannu parcio i breswylwyr.

## Cwestiynau am sefydliadau cymunedol

3.73 Bydd nifer y cwestiynau a'r math o gwestiynau a ofynnir am sefydliadau cymunedol, sy'n cynnwys ysbytai, ysgolion, canolfannau cadw a sefydliadau preswyl eraill, yn gyfyngedig ac yn ymwneud â deall natur y sefydliad.

### Math o sefydliad

3.74 Bydd y cwestiynau'n ceisio nodi natur y sefydliad, y math o grwpiau ac oedran y grwpiau y darperir ar eu cyfer a chyfrifoldebau rheoli. Caiff ystadegau ar breswylwyr sefydliadau cymunedol, sy'n nodi staff preswyl ar wahân, eu paratoi ar gyfer pob math o sefydliad. Gan fod llety cymunedol yn cael ei ddosbarthu fwyfwy mewn unedau bach, mae'n anodd casglu

gwybodaeth gynhwysfawr mewn arolygon sampl. Mae'r cyfrifiad yn darparu amcangyfrif awdurdodol o'r boblogaeth sy'n byw yn y sefydliadau hyn nad yw ar gael o ffynonellau eraill.

3.75 Os ydynt yn byw rhywle arall yn y DU, gofynnir i ymwelwyr gwblhau ffurflen cyfrifiad lawn yn eu cyfeiriad arferol. Ni chaiff unrhyw wybodaeth ei chasglu am unrhyw ymwelydd nad yw'n breswylydd y DU sy'n aros mewn sefydliad cymunedol am lai na thri mis.

## Cwestiynau am breswylwyr arferol sefydliadau cymunedol

3.76 Gofynnir i breswylwyr sefydliadau cymunedol gwblhau ffurflen y cyfrifiad i unigolion. Gofynnir iddynt ateb y cwestiynau a ofynnir i bawb sy'n breswylydd arferol. Hefyd, mae angen iddynt roi manylion eu statws yn y sefydliad, a nodi p'un a ydynt yn ateb drostynt eu hunain neu ar ran rhywun arall.

### Statws yn y sefydliad

3.77 Gofynnir cwestiwn ar rôl yr ymatebydd o fewn y sefydliad er mwyn nodi p'un a yw'n breswylydd, yn aelod o staff neu'n berchennog, neu'n aelod o deulu staff neu berchennog. Bydd y wybodaeth hon yn fodd i'r grwpiau hyn gael eu nodi ar wahân mewn ystadegau ynghylch preswylwyr sefydliadau cymunedol.

## Cwestiynau am breswylwyr arferol cartrefi a sefydliadau cymunedol

3.78 Prif ddiben y cyfrifiad yw rhoi amcangyfrif cywir ac awdurdodol o nifer y bobl yng Nghymru a Lloegr a dangos ble maent yn byw fel arfer. Y rheswm dros hyn yw darparu meincnod newydd a chyfredol ar gyfer yr amcangyfrifon canol blwyddyn blynyddol o'r boblogaeth ar gyfer ardaloedd lleol. Mae amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ganolog i bob system ystadegau swyddogol genedlaethol. Fe'u defnyddir mewn fformiwlâu ystadegol sy'n dyrannu arian cyhoeddus i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd.

3.79 Yn y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau, caiff yr amcangyfrifon canol blwyddyn blynyddol o'r boblogaeth eu diweddaru (gan gynnwys amcangyfrifon y cyfrifiad fel sylfaen) drwy ddefnyddio gwybodaeth cofrestru genedigaethau a marwolaethau ac amcangyfrifon mudo. Heb y gwaith diweddaru a chywiro cyfnodol sy'n digwydd ar sail cyfrif y cyfrifiad byddai'r amcangyfrifon hyn, yn enwedig ar lefel ardal leol, yn mynd yn llai ac yn llai dibynadwy.

3.80 Mae angen i bolisïau hirdymor ystyried y boblogaeth sy'n newid. Bydd amcangyfrifon o'r boblogaeth a ddiwygiwyd yn sgil y cyfrifiad yn sail i ragamcanion o nifer y bobl a chartrefi yn y dyfodol. Fe'u defnyddir i asesu'r galw tebygol am nwyddau a gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

3.81 Fodd bynnag, mae anghenion polisi byrdymor hefyd, ac mae angen bodloni gofynion y sawl sy'n gwneud penderfyniadau am wybodaeth fwy aml a mwy manwl am ein cymdeithas sy'n newid yn barhaus. Mae SYG yn datblygu system weinyddol newydd, wedi'i harwain gan ddata, ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth a mudo ar gyfer Cymru a Lloegr erbyn gwanwyn 2020. Mae SYG yn datblygu ei defnydd o ddata gweinyddol (hynny yw gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu gan y sector cyhoeddus) fel bod ystadegau ar y boblogaeth a thai yn cael eu darparu drwy integreiddio data gweinyddol a ategir gan arolygon (ac mewn rhai achosion ddata masnachol) er mwyn llenwi bylchau na all y data gweinyddol eu llenwi.

3.82 Amlinellir y cynigion ar gyfer cwestiynau'r cyfrifiad, sy'n ymwneud â phobl, a fydd yn parhau yn 2021, isod.

### Oedran a rhyw

3.83 Mae'r newidynnau demograffig craidd hyn yn hollbwysig i amrywiaeth o ddefnyddwyr y cyfrifiad, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer ystadegau cenedlaethol a lleol ar y boblogaeth fel y disgrifir uchod. Hefyd, mae oedran (ar sail dyddiad geni) a rhyw yn hanfodol er mwyn llunio cyfraddau afiachedd, marwolaeth a ffrwythlondeb sy'n benodol i oedran a rhyw sydd, yn eu tro, yn llywio, ymhlith allbynnau eraill, ragamcanion o'r boblogaeth. Mae'r rhain, yn eu tro, yn sail i wneud penderfyniadau, cynllunio a dyrannu adnoddau ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Caiff y ddau newidyn eu defnyddio'n helaeth at ddiben dadansoddi amryw o elfennau, maent yn gyfystyr â dwy o nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 a chânt eu defnyddio'n helaeth i fonitro a mesur anghydraddoldebau o ran oedran a rhyw.

3.84 Mae oedran a rhyw hefyd yn newidynnau pwysig wrth brosesu data'r cyfrifiad. Fe'u defnyddir i amcangyfrif gor-gwmpas neu dan-gwmpas y cyfrifiad, ynghyd ag addasu ar gyfer unrhyw wallau yn hynny o beth, ac i sicrhau bod amcangyfrifon o'r boblogaeth terfynol y cyfrifiad yn gywir.

### Statws priodasol neu bartneriaeth sifil

3.85 Mae'r cwestiwn ar statws priodasol neu bartneriaeth sifil yn cael ei ddefnyddio'n eang gan ddefnyddwyr, gan gynnwys llywodraeth ganolog, er mwyn monitro effaith polisïau'r llywodraeth, a helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae priodas a phartneriaeth sifil yn un o'r naw nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

3.86 Yn dilyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004, cafodd y cwestiwn ar statws priodasol yn y cyfrifiad ei ehangu er mwyn cynnwys categorïau ymateb ar gyfer statws partneriaeth sifil. Daeth priodi cyplau o'r un rhyw yn gyfreithlon

ers y cyfrifiad diwethaf[28], ac yn unol â'r ymgymeriad yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ar bynciau[29], mae SYG yn cynnal profion er mwyn adolygu'r cwestiwn a'r opsiynau ymateb ar gyfer statws priodasol er mwyn sicrhau bod yr holl ddata angenrheidiol yn cael eu casglu a bydd yn ceisio sicrhau bod pob statws a gydnabyddir yn gyfreithiol yn cael ei gynnwys. Mae SYG yn ystyried y camau y gallai eu cymryd yn sgil ymateb y llywodraeth i ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Steinfeld a Keidan*[30] ynghylch argaeledd partneriaethau sifil i gyplau nad ydynt o'r un rhyw.

### Grŵp ethnig

3.87 Mae angen defnyddwyr am ddata ar grŵp ethnig yn uwch nag unrhyw bwnc arall ar wahân i oedran, rhyw a pherthynas aelodau o'r cartref. Mae'r data yn hynod bwysig i awdurdodau lleol, cynllunio gwasanaethau, a chyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr ymgynghoriad ar bynciau, nododd yr ymatebwyr y newidiadau y byddent yn hoffi eu gweld i'r opsiynau ymateb ar gyfer grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol. Yn sgil hyn, ymchwiliodd SYG i'r ffordd orau o gyflwyno'r cwestiwn presennol ar grŵp ethnig ar lein ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Ar y cyd â hyn gwnaeth SYG adolygu'r opsiynau ymateb ar gyfer grŵp ethnig, ynghyd â'r opsiynau ymateb ar gyfer hunaniaeth genedlaethol a chrefydd.

3.88 Cafodd tri math gwahanol o gwestiwn eu profi'n ansoddol gyda sampl o bobl o wahanol gefndiroedd ethnig. Roedd y rhain ar ffurf dyluniad dau gam yn debyg i'r un yn 2011, dyluniad dau gam gyda blwch agored ar yr ail gam, a chwestiwn cwbl agored. Dangosodd y canfyddiadau fod cwestiwn a ddyluniwyd gydag opsiynau ymateb blwch ticio yn fwy effeithiol na chwestiwn blwch testun rhydd cwbl agored. Yna dangosodd profion meintiol fod cwestiwn â cham cyntaf caeedig, wedi'i ddilyn gan flwch agored ymateb agored ar yr ail gam, yn arwain at ddiffyg ymateb sylweddol ar y cam hwnnw. Cafodd derbynioldeb a hygyrchedd dyluniad 2011 brofion gwybyddol pellach, a arweiniodd at rai newidiadau. Cynhelir mwy o brofion er mwyn sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i'r cwestiwn hwn ar lein. Mae'r profion a gynhaliwyd hyd yn hyn wedi dangos mai cwestiwn dau gam, sy'n gofyn am y grwpiau lefel uwch yn gyntaf, ac yna ail gwestiwn sy'n gofyn am ethnigrwydd manwl, sy'n gweithio orau.

3.89 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar bynciau, cafwyd ymarfer pellach er mwyn casglu tystiolaeth o'r angen am opsiynau ymateb newydd o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig. I ddechrau, blaenoriaethwyd ceisiadau yn erbyn cryfder

---

28 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/30/contents/enacted

29 T24, yn https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales/topicreport09demography.pdf

30 R (Steinfeld a Keidan) v Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhyngwladol [2018] UKSC 32 (Ar apêl o [2017] EWCA Civ 81)

yr angen, ac ymhellach yn erbyn meini prawf ychwanegol gan gynnwys argaeledd ffynonellau data amgen, ansawdd data, a chymaradwyedd. Yn yr ymarfer hwn, gofynnwyd am 55 o opsiynau ymateb newydd posibl, gyda phedwar o'r rheini yn cael eu dewis i ymchwilio iddynt ymhellach. Y pedwar maes â'r angen mwyaf gan ddefnyddwyr oedd: Roma, Somalïaidd, Sikhïaidd ac Iddewig. Mae'r achos dros bob un o'r rhain wedi'i ystyried yn fanwl.

3.90 Mae SYG yn cydnabod anghenion y pedwar maes. Bydd SYG yn diwallu anghenion defnyddwyr ar gyfer y pedwar maes ond mewn ffyrdd gwahanol ar ôl cynnal profion.

***Ar gyfer y boblogaeth Roma***

3.91 Gwnaeth SYG argymell cynnwys ymateb ychwanegol. Bydd SYG yn gweithio gyda'r boblogaeth Roma, gan helpu sefydliadau Roma i ddarparu cymorth i gymunedau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r opsiwn ymateb Roma.

3.92 Mae tystiolaeth bod Roma yn grŵp o ddiddordeb polisi arbennig i randdeiliaid er mwyn helpu i sicrhau, wrth ddatblygu polisïau gosod lleol, fod ei anghenion yn cael eu diwallu heb wahaniaethu anfwriadol. Hefyd, mae tystiolaeth bod angen data ar Roma wrth gynllunio gwasanaethau, er enghraifft er mwyn helpu i gynllunio llefydd mewn ysgolion, deall anghenion iaith, adolygu'r angen am dai, a chynllunio'r gwaith o ddatblygu a dylunio tai.

3.93 Cynhaliodd SYG brosiectau ymchwil er mwyn ymchwilio ymhellach i dderbynioldeb blwch ticio Roma ychwanegol o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig. Nododd SYG, er y byddai rhai aelodau o'r boblogaeth Roma fel arfer yn dewis 'Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig', nad oedd hyn yn bodloni gofyniad defnyddwyr (sy'n angen gwahanol i ddata ar Sipsi/Teithiwr Gwyddelig), ac y gall leihau ansawdd a defnyddioldeb y data.

3.94 Roedd y term yn dderbyniol i gyfranogwyr grŵp ffocws Roma, ac mae cynnwys yr opsiwn ymateb penodol yn gwneud y cwestiwn ar grŵp ethnig yn fwy derbyniol. Cafwyd peth anghytuno ymhlith y grwpiau ynghylch p'un a yw 'Sipsi' yn derm bychanol. Byddai rhai o'r rheini oedd o'r farn bod y term yn fychanol yn parhau i'w ddewis o gwestiwn grŵp ethnig Cyfrifiad 2011, gan gredu mai dyma'r term y'u labelwyd ag ef.

3.95 Wrth brofi'r cwestiwn ymhlith grwpiau Roma, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn uniaethu â'r blwch ticio Roma ac o'r farn bod ychwanegu'r opsiwn ymateb penodol yn lleihau'r baich ar ymatebwyr. Dangosodd y prawf mai gosod yr opsiwn ymateb penodol yn y categori Gwyn oedd yn achosi'r dryswch lleiaf.

*Ar gyfer y boblogaeth Somali*

3.96 Bydd SYG yn gweithio gydag aelodau o'r boblogaeth Somali er mwyn annog ymgysylltu ac yn darparu cymorth maes priodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r opsiwn i nodi eu grŵp ethnig. Bydd hyn yn annog mwy i gwblhau'r cyfrifiad ac yn gwella amcangyfrifon o'r boblogaeth. Gyda'r cyfrifiad ar lein cyntaf yn 2021 mae SYG yn datblygu'r adnodd "chwilio wrth deipio" a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddio'r opsiwn nodi, drwy ddarparu Somali fel un o'r opsiynau. Yn y gorffennol, mae'r cyfrifiad wedi cynnwys blwch "arall, nodwch" yn y cwestiwn ar grŵp ethnig sydd wedi galluogi ymatebydd i nodi ei grŵp ethnig.

3.97 Bydd SYG yn parhau i wella'r wybodaeth y gall ei llunio a'i chyhoeddi am y boblogaeth Somali (fel y nodwyd gan y defnydd o'r opsiwn nodi), ac mae'n edrych ar ffyrdd posibl o gasglu gwybodaeth fanylach am y boblogaeth Somali a phoblogaethau Affricanaidd eraill. Bydd SYG yn parhau i weithio gyda grwpiau Somali er mwyn datblygu canllawiau, gweithgareddau hyrwyddo a chynhyrchion dadansoddol er mwyn sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu.

3.98 Nid yw SYG yn argymell cynnwys blwch ticio Somali o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig ar gyfer Cyfrifiad 2021. Y rheswm dros hyn oedd bod ychwanegu opsiwn ymateb penodol ar gyfer Somalïaidd yn cael ei weld gan rai aelodau o'r boblogaeth Somalïaidd a rhai pobl Ddu Affricanaidd fel blaenoriaethu un ethnigrwydd Affricanaidd, nad oedd yn dderbyniol.

3.99 Mae'r argymhelliad hwn yn dilyn gwaith ymchwil ac ymgysylltu, gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau ffocws, er mwyn deall ymhellach yr angen am opsiwn ymateb penodol ar gyfer Somalïaidd o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig, a pha mor dderbyniol yw hynny.

3.100 Mae tystiolaeth gref bod pobl o darddiad Somalïaidd yn profi anfantais mewn sawl rhan o fywyd ac mae peth tystiolaeth bod angen data er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau. Dangosodd y gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid fod cefnogaeth gref i opsiwn ymateb penodol ar gyfer Somalïaidd er mwyn cael gwell data ar y boblogaeth honno. Fodd bynnag, nododd y grwpiau ffocws, a gynhaliwyd gan asiantaeth ymchwil annibynnol, na fyddai'n dderbyniol cynnwys blwch ticio Somalïaidd, heb gynnwys un ar gyfer ethnigrwydd Affricanaidd arall. Yn sgil ychwanegu blwch ticio Somalïaidd yn y profion, teimlai'r cyfranogwyr fod yn rhaid iddynt ddewis rhwng bod yn Affricanaidd neu fod yn Somalïaidd.

*Ar gyfer y boblogaeth Sikhïaidd*

3.101 Mae SYG bob amser wedi darparu blwch "arall, nodwch" o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig, er mwyn galluogi ymatebwyr i ateb fel maent yn dymuno (er enghraifft nodi eu bod yn Sikhiaid). Gyda'r cyfrifiad ar-lein yn 2021, mae

SYG yn datblygu'r adnodd "chwilio wrth deipio" a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddio'r opsiwn hwn, gan ei gwneud hi'n haws i ymatebwyr hunanddiffinio eu grŵp ethnig (pan nad oes opsiwn ymateb penodol ar gael).

3.102 Bydd Cyfrifiad 2021 yn parhau i gynnwys cwestiwn ar grefydd, gydag opsiwn ymateb penodol ar gyfer Sikhiaid. Bydd allbynnau data hyblyg yn fodd i ddadansoddi'r rhai sy'n nodi mai Sikhiaeth yw eu crefydd (drwy'r opsiwn ymateb crefydd) a'r rhai sy'n nodi mai Sikhiaidd yw eu grŵp ethnig drwy'r adnodd "chwilio wrth deipio" ar y cwestiwn ar grŵp ethnig ar lein.

3.103 Bydd SYG yn amcangyfrif y boblogaeth Sikhiaidd gan ddefnyddio ffynonellau data amgen er mwyn asesu'r niferoedd a all nodi eu bod o gefndir Sikhiaidd ond nid drwy'r cwestiwn ar grefydd. Bydd SYG yn atgyfnerthu'r canllawiau ar sicrhau cysondeb wrth gasglu data ar grefydd ochr yn ochr â data ar ethnigrwydd ar draws y llywodraeth. Bydd SYG hefyd yn cynyddu'r arlwy ddadansoddol a'r allbynnau ar gyfer pob grŵp ethnig, drwy allbynnau hyblyg.

3.104 Bydd y cynigion ar ddefnyddio Deddf Economi Ddigidol 2017 (gweler Pennod 3, paragraff 3.183) yn sicrhau bod data ar y boblogaeth Sikhiaidd ar gael ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Bydd SYG yn gweithio gydag aelodau o'r boblogaeth Sikhiaidd er mwyn annog mwy o bobl i gwblhau'r cyfrifiad a chodi ymwybyddiaeth o'r opsiynau i nodi eu hunaniaeth yn y cwestiwn ar grŵp ethnig.

3.105 Nid yw SYG yn cynnig ychwanegu opsiwn ymateb penodol ychwanegol at y cwestiwn ar grŵp ethnig ar gyfer Cyfrifiad 2021 oherwydd y dystiolaeth na fyddai hyn yn dderbyniol i gyfran o'r boblogaeth Sikhiaidd. Ym marn SYG gellir llunio amcangyfrifon o'r boblogaeth Sikhiaidd drwy ddefnyddio data o'r opsiwn ymateb penodol yn y cwestiwn ar grefydd Sikh.

3.106 Mae'r cynigion yn diwallu anghenion defnyddwyr a rannwyd â SYG ac maent yn dilyn cryn ymchwil. Mae arweinwyr grwpiau Sikhaidd wedi darparu gwybodaeth sydd wedi bwydo i mewn i'r dadansoddiad. Ceir gwahaniaeth barn o fewn y boblogaeth Sikhiaidd ynghylch p'un a ddylid ychwanegu opsiwn ymateb penodol at Gyfrifiad 2021, ac mae barn gref ar y ddwy ochr.

3.107 Derbyniodd SYG wybodaeth o arolwg o Gurdwarau lle holwyd pa mor dderbyniol fyddai blwch ticio grŵp ethnig Sikhiaidd, a ddangosodd cryn dipyn o gefnogaeth i'w gynnwys. Rhoddodd yr arolwg gipolwg i'r SYG o farn arweinwyr grwpiau Sikhiaidd, ochr yn ochr a ymchwil eraill SYG. Cynhaliwyd ymchwil annibynnol er mwyn meithrin dealltwriaeth bellach o ba mor dderbyniol fyddai opsiwn ymateb ar gyfer Sikhiaidd o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig.

3.108 Cynhaliwyd grwpiau ffocws, gyda mwy na 50 o bobl yn cymryd rhan o Gaerlŷr, Birmingham a Llundain, gydag ystod o oedran, rhywedd a chyfnodau mewn bywyd. Nodwyd y canlynol:

- nid oedd yn dderbyniol cynnwys blwch ticio Sikhiaidd, heb flychau ticio crefydd eraill, o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig – yn enwedig ymhlith cyfranogwyr iau, ail genhedlaeth
- roedd cyfranogwyr iau, ail genhedlaeth am fynegi eu cefndir Sikhiaidd drwy'r cwestiwn ar grefydd am mai dyma fel roeddent yn disgwyl i hunaniaeth Sikhiaidd gael ei chofnodi
- roedd nifer fach o ddynion hŷn yn awyddus i fynegi eu hunaniaeth Sikhiaidd drwy flwch ticio ethnigrwydd Sikhiaidd a nododd sawl un ohonynt mai dyma oedd un o'r agweddau pwysicaf ar eu cefndir
- roedd mwy o faich ar yr ymatebwyr gyda rhai cyfranogwyr yn drysu o orfod dewis rhwng hunaniaeth Indiaidd a Sikhiaidd gan deimlo bod yn rhaid iddynt ddewis un neu'r llall pan oedd y ddwy yn berthnasol iddynt

3.109 Dengys canfyddiadau arolwg meintiol ychwanegol nad oes unrhyw dystiolaeth bod y cwestiynau ar grefydd na grŵp ethnig yn nodi gwahanol boblogaethau Sikhiaidd. Gwnaeth pob ymatebydd a nododd ei fod o dras ethnig Sikhiaidd (mewn fersiynau o'r cwestiwn ag opsiwn ymateb penodol ar gyfer Sikhiaidd a hebddo) hefyd nodi mai Sikh oedd eu crefydd. Mae hyn yn unol â chanfyddiadau data Cyfrifiad 2011 (lle mai dim ond 1.6% o'r rheini a nododd eu bod o dras ethnig Sikhiaidd oedd yn dilyn crefydd heblaw am Sikh).

***Ar gyfer y boblogaeth Iddewig***

3.110 Bydd SYG yn gweithio gydag aelodau o'r boblogaeth Iddewig er mwyn annog ymgysylltu ac atgyfnerthu'r canllawiau ar sicrhau cysondeb wrth gasglu data ar grefydd ar draws y llywodraeth.

3.111 Gyda'r cyfrifiad ar-lein yn 2021, mae SYG yn datblygu'r adnodd "chwilio wrth deipio" a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddio'r opsiwn nodi, gan ei gwneud hi'n haws i ymatebwyr hunanddiffinio eu hethnigrwydd. Mae SYG bob amser wedi darparu blwch "arall, nodwch" o fewn y cwestiwn ar grŵp ethnig, er mwyn galluogi ymatebwyr i hunan-nodi a bydd yn parhau i wneud hynny. Bydd SYG hefyd yn cynyddu'r arlwy ddadansoddol ar gyfer y boblogaeth Iddewig, ac ar gyfer pob grŵp ethnig, drwy allbynnau hyblyg.

3.112 Nid yw SYG yn argymell cynnwys opsiwn ymateb penodol ar gyfer Iddewig yn y cwestiwn ar grŵp ethnig ar gyfer Cyfrifiad 2021. Dengys ymchwil y byddai'n well gan y boblogaeth Iddewig ond cael opsiwn Iddewig yn y cwestiwn ar grefydd.

3.113 Mae'r argymhelliad hwn yn deillio o brofion gyda grwpiau ffocws drwy asiantaeth ymchwil allanol ar y cwestiwn ar grŵp ethnig. Cytunwyd yn gryf nad oedd opsiwn ymateb penodol ar gyfer Iddewig yn dderbyniol, ni waeth ble roedd yn cael ei roi. Fodd bynnag, byddai ymatebwyr yn dal i fod yn debygol o nodi eu crefydd fel Iddewiaeth gan mai dyma sut roeddent wedi arfer cyfleu pwy ydynt.

3.114 Yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Fwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain a Sefydliad Ymchwil Polisïau Iddewig, gwelwyd bod pryderon ynghylch parhad data. Gallai newidiadau ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddwyr wybod p'un a gafwyd newid mewn data oherwydd newid gwirioneddol yn y boblogaeth neu ddull gweithredu gwahanol.

### Hunaniaeth genedlaethol

3.115 Cafodd cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol ei ofyn am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011 er mwyn ategu'r cwestiwn ar grŵp ethnig. Gwnaeth y cwestiwn alluogi ymatebwyr i nodi pwy oeddent gan ddefnyddio amrywiaeth o opsiynau gan gynnwys Prydeiniwr/Prydeinwraig, Sais/Saesnes, Cymro/Cymraes, Albanwr/Albanes a Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon, ni waeth beth fo'u grŵp ethnig. Wrth ystyried y pwnc hwn ar gyfer Cyfrifiad 2021, nododd SYG angen defnyddwyr canolig, yn enwedig wrth ei ystyried gyda'r grŵp ethnig, ac argymhellodd, ar yr adeg honno, gynnwys cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol.

3.116 Nododd y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar bynciau ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid ynghylch ethnigrwydd geisiadau am opsiwn ymateb newydd, sef Cernÿwr/Cernywes. Mae SYG yn cydnabod yn llawn yr angen sydd gan y gymuned Gernywaidd am ddata ar amodau economaidd-gymdeithasol, addysgol, iechyd a thai y rheini sy'n hanu o Gernyw. Er bod angen defnyddwyr cenedlaethol, mae'r prif angen yn lleol yng Nghernyw.

3.117 Ar y cyd â datblygu'r cyfleuster "chwilio wrth deipio" ar y ffurflen ar-lein cynhelir ymgyrch marchnata a chyfathrebu leol gref, a bydd cymorth maes ychwanegol yn galluogi pawb sydd am nodi hunaniaeth benodol, gan gynnwys Cernywiaid, i wybod sut i wneud hynny.

3.118 Hefyd, am y tro cyntaf, bydd SYG yn llunio adroddiad dadansoddol ar y boblogaeth sy'n nodi ei bod yn Gernywig, a sut mae ei hiechyd, tai, gwaith ac addysg yn wahanol i bobl nad ydynt yn nodi eu bod yn Gernywig.

3.119 Dangosodd y dystiolaeth o'r ymgynghoriad ar bynciau fod angen opsiwn ymateb Cernÿwr/Cernywes er mwyn ategu ffynonellau data eraill, fel y Cyfrifiad Ysgolion a'r arolwg o anghenion tai, er mwyn deall effaith polisi a nodweddion amddifadedd y boblogaeth gynhenid a'i hunaniaeth ddiwylliannol. Yn ategu'r dystiolaeth hon roedd cydnabod yn 2014 fod pobl

Cernyw yn Lleiafrif Cenedlaethol o dan Gonfensiwn Fframwaith Ewropeaidd Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol. Yng Nghyfrifiad 2011 gwnaeth 83,000 o breswylwyr arferol nodi mai Cernywig oedd eu hunaniaeth genedlaethol. O'r rhain, roedd 73,000 yn byw yng Nghernyw, sy'n cynnwys tua 14% o'r boblogaeth. Roedd y 10,000 arall yn byw mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr.

3.120 Mae SYG wedi cyfarfod â rhanddeiliaid o Gernyw, ac wedi adolygu eu tystiolaeth, er mwyn deall yr angen ac mae wedi cynnal profion er mwyn ystyried pa mor dderbyniol fyddai ychwanegu blychau ticio rhanbarthol, gan gynnwys Cernywig, at y cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth yn erbyn y meini prawf gwerthuso, mae SYG wedi dod i'r casgliad mai angen lleol iawn sydd am flwch ticio Cernywig ac nad yw'n ddigon cryf i gyfiawnhau ei gynnwys yn y cyfrifiad cenedlaethol, pan all SYG gasglu'r data drwy opsiynau nodi'r ffurflen ar-lein a'r ffurflen bapur.

### Y gofal di-dâl a ddarperir

3.121 Bydd SYG yn cynnwys cwestiwn am ddarparu gofal di-dâl yng Nghyfrifiad 2021. Defnyddir gwybodaeth am ofal di-dâl gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol er mwyn dyrannu adnoddau i wasanaethau a darparu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr. Gwnaeth y cwestiwn hefyd ddarparu tystiolaeth a gyfrannodd at gyflwyno Deddf Gofal 2014.

3.122 Bydd y cwestiwn a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyfrifiad 2011 yn cael ei ddiwygio fel ei fod yn cyrraedd Safon Gwasanaeth Digidol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (gweler Pennod 4 am ragor o fanylion am ei gwblhau ar lein, para 4.41 ar gyfer y Gwasanaeth). Ar sail tystiolaeth o brofion gwybyddol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, bydd SYG hefyd yn anelu at sicrhau bod y cwestiwn yn dal i ofyn i unigolion p'un a ydynt yn darparu help neu gefnogaeth yn ddi-dâl. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion sydd â phroblem iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, anabledd, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint. Bydd hyn yn cynnwys faint o amser a dreulir bob wythnos. Yn amodol ar y lle sydd ar gael ar yr holiadur papur, mae SYG hefyd yn anelu at ddiwygio'r ymateb "Ydw, 20-49 awr yr wythnos" fel bod y cyfrifiad yn gallu casglu gwybodaeth am lwfans gofalwyr, ar gais defnyddwyr data.

### Iechyd cyffredinol

3.123 Mae iechyd cyffredinol yn hunanasesiad o gyflwr iechyd cyffredinol person. Dangoswyd bod ymatebion i'r cwestiwn yn helpu i ddarogan y galw am wasanaethau iechyd yn y dyfodol. Cafodd cwestiwn ar iechyd cyffredinol ei gynnwys gyntaf yng Nghyfrifiad 2001 ac ymhelaethwyd arno yng Nghyfrifiad 2011. Bydd SYG yn parhau i gasglu gwybodaeth am iechyd

cyffredinol yng Nghyfrifiad 2021 a bydd yn cadw geiriad y cwestiwn a'r opsiynau ymateb estynedig sy'n galluogi ymatebwyr i nodi bod eu hiechyd yn "da iawn", "da", "gweddol", "gwael" neu "gwael iawn".

### Problem iechyd neu anabledd hirdymor

3.124 Bydd SYG yn cynnwys cwestiwn ar broblem iechyd neu anabledd hirdymor yng Nghyfrifiad 2021. Bydd y cwestiwn yn seiliedig ar arfer gorau rhyngwladol o ran diffinio anabledd. Mae gwybodaeth am broblemau iechyd ac anabledd hirdymor yn llywio penderfyniadau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol ynghylch dyrannu adnoddau a darparu gwasanaethau. Gan fod anabledd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 bydd y wybodaeth a gesglir yn bwysig wrth asesu anghydraddoldeb a thargedu ymyriadau a gynlluniwyd i leihau anghydraddoldeb yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd hefyd yn helpu i ddatgrynhoi data'r DU yn ôl statws anabledd ar gyfer y Nodau Datblygu Cynaliadwy byd-eang.

3.125 Nid yw SYG yn bwriadu i gwestiwn 2021 fod yr un peth â'r un a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2011. Y rheswm dros hyn yw nad oedd cwestiwn 2011 yn dilyn yr hyn sydd bellach yn cael ei ystyried yn arfer gorau o ran mesur anabledd. Yn amodol ar brofion parhaus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae SYG yn bwriadu seilio cwestiwn Cyfrifiad 2021 ar safon gysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, a ddatblygwyd yn 2011 (ar ôl y cyfrifiad diwethaf) yn dilyn ymgynghoriad eang ag adrannau'r llywodraeth a grwpiau anabledd.

3.126 Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i ba mor fanwl mae angen i ddata ar y pwnc hwn fod, fel gwybodaeth am fathau o anabledd (er enghraifft corfforol, meddyliol, synhwyraidd a dysgu) a fyddai'n galluogi darparwyr gwasanaethau i gynllunio'n well er mwyn diwallu anghenion pobl anabl. Bydd SYG yn datblygu ffyrdd o integreiddio data o Gyfrifiad 2021 â data iechyd a gofal cymdeithasol, arolygon y llywodraeth a ffynonellau gweinyddol fel data ar fudd-daliadau, er mwyn cynhyrchu ymchwil newydd a fydd yn disgrifio iechyd y boblogaeth mewn ffyrdd arloesol a chyda mwy o fanylder a manwl gywirdeb. Bydd SYG yn defnyddio data cysylltiedig, gan gynnwys dadansoddiad hydredol, er mwyn ateb cwestiynau pwysig am benderfynyddion iechyd a phrofiadau iechyd a llesiant gydol oes. Ymhlith y meysydd y canolbwyntir arnynt fydd iechyd meddwl, anabledd, symudedd cymdeithasol, a phontio rhwng cyflyrau iechyd ac ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Cymwysterau

3.127 Defnyddir gwybodaeth am gymwysterau yn helaeth ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau a datblygu polisïau. Yn arbennig, mae'r wybodaeth yn sail i fynd i'r afael ag amrywiadau o ran lefelau sgiliau a thargedu ymyriadau'n briodol.

3.128 Dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd gan ddefnyddwyr mai'r angen mwyaf dybryd oedd yr angen am wybodaeth am y lefelau uchaf o gymwysterau a dim cymwysterau. Yn draddodiadol, nid yw'r cwestiwn hwn wedi perfformio'n dda am ei bod yn anodd i ymatebwyr gofio eu cymwysterau a/neu geisio eu cysoni â chymwysterau yng Nghymru a Lloegr os mai cymwysterau tramor sydd ganddynt. Mae SYG yn cynnal profion er mwyn datblygu cwestiwn neu gyfres o gwestiynau gyda'r nod o ddarparu data o ansawdd gwell ar angen craidd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

### Mudo

3.129 Gall mudo ddigwydd yn fewnol neu'n rhyngwladol. Gall mudwr rhyngwladol gael ei ddiffinio mewn tair ffordd, sef:

- person a aned y tu allan i'r DU
- person sydd â phasbort nad yw'n basbort y DU (sy'n golygu nad yw'n wladolyn y DU)
- person oedd fel arfer yn byw y tu allan i'r DU flwyddyn cyn dyddiad y cyfrifiad

3.130 Mae'r cyfrifiad yn ein galluogi i ddadansoddi gwahanol fathau o fudwyr a'u canlyniadau economaidd-gymdeithasol, i lawr i lefelau daearyddol isel. At ddibenion polisi, dyrannu adnoddau a chynllunio mae'n bwysig cael diffiniad cyson o fudo er mwyn ategu amcangyfrifon swyddogol o'r boblogaeth ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig deall sut mae mudo yn llywio newidiadau yn y boblogaeth ar lefel ficro er mwyn gwneud penderfyniadau lleol lle gall fod yn ddefnyddiol deall effaith gwahanol fathau o fudwyr. Er enghraifft, gall rhai pobl gael eu disgrifio'n fudwyr cylchol, hynny yw mudwyr sy'n symud nôl ac ymlaen rhwng dwy wlad neu fwy. Bydd deall y grŵp hwn, yn ogystal â'r rhai a all gael eu cwmpasu gan ddata'r cyfrifiad, yn bwysig er mwyn deall effaith mudo ar yr economi a chymdeithas.

3.131 Mae SYG wedi sefydlu rhaglen gwasanaeth ystadegol traws-lywodraethol, gan weithio gyda'r Swyddfa Gartref (yr adran bolisi arweiniol), y gweinyddiaethau datganoledig ac adrannau eraill y llywodraeth sydd â diddordeb cryf mewn gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer mudo. Nod SYG drwy sefydlu'r rhaglen hon yw cael budd o'r arbenigedd sy'n bodoli o fewn yr adrannau hyn er mwyn cynhyrchu ymchwil gadarn gydweithredol sy'n ychwanegu gwerth. Mae'r rhaglen waith hon yn mynd rhagddi ac mae nifer gynyddol o ffynonellau data ar gael er mwyn asesu tueddiadau ym maes mudo.

### Pasbortau sydd gennych

3.132 Cyflwynodd SYG gwestiwn am basbortau a ddelir yn 2011 fel cwestiwn amgen ar gyfer dinasyddiaeth. Defnyddir y wybodaeth hon er mwyn helpu i ddatblygu polisi mudo, yn ogystal â monitro effeithiau cenedlaethol a lleol mudo rhyngwladol a llywio gwaith cydlyniant cymunedol. Bydd SYG yn parhau i gasglu'r wybodaeth hon yn yr un ffordd yn 2021.

### Cwestiynau am y flwyddyn y daethoch i fyw yma

3.133 Cafodd y cwestiynau ar y mis a'r flwyddyn y daethpwyd i fyw yma ac am faint mae rhywun yn bwriadu aros yma eu cyflwyno yng Nghyfrifiad 2011 ac roeddent yn hanfodol er mwyn gwella'r ymateb i'r cyfrifiad a chyfrif pawb yn y ffordd briodol (hynny yw fel preswylydd arferol neu breswylydd byrdymor). Mae SYG yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth yn y ffordd hon eto yn 2021. Rhennir mudo yn fudo hirdymor, mudo byrdymor a mudo mewnol a drafodir isod.

3.134 Cafodd cwestiynau newydd ar basbortau a'r flwyddyn y daethpwyd i fyw yma (ar gyfer y rheini a aned dramor) eu cyflwyno ar gyfer Cyfrifiad 2011, er mwyn deall patrymau mudo rhyngwladol a nodweddion gwahanol grwpiau o fudwyr rhyngwladol yn well. Rhoddodd y cwestiynau hyn gyfleoedd dadansoddi nad oeddent yn bosibl o'r blaen ac maent wedi bod yn arbennig o fuddiol er mwyn helpu i lenwi bylchau yn y data ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol rhai grwpiau o bobl sydd wedi bod yn y DU ers cyn 1973 ond nad oes ganddynt basbortau.

### Mudo rhyngwladol hirdymor

3.135 Mae cwestiwn yn gofyn am gyfeiriad arferol pawb flwyddyn cyn y cyfrifiad wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad ers 1961 a bydd yn cael ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 hefyd. Gofynnir i'r ymatebwyr gofnodi eu cyfeiriad flwyddyn yn ôl, os yw'n wahanol i'w cyfeiriad arferol presennol, a nodi'r wlad lle maent yn byw os yw y tu allan i'r DU. Bydd y ffigurau yn dangos pwy sydd wedi dod o'r tu allan i'r DU, ond nid pwy sydd wedi gadael, yn y flwyddyn cyn y cyfrifiad.

3.136 Mae mudo rhyngwladol hirdymor yn elfen bwysig o'r amcangyfrifon a'r rhagamcanion o'r boblogaeth, sy'n sail i waith cynllunio a dyrannu adnoddau ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae hefyd yn helpu i ddeall newidiadau yn y boblogaeth ar lefel leol, gan alluogi awdurdodau lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau, gan gynnwys addysg, tai a gofal iechyd.

### Mudo rhyngwladol byrdymor

3.137 Bydd cwestiwn ar wlad enedigol. Fel yng Nghyfrifiad 2011, gofynnir cwestiynau ychwanegol i unrhyw un a aned y tu allan i'r DU ynghylch y mis a'r flwyddyn y daethpwyd i fyw i'r DU ac am faint maent yn bwriadu aros yn y DU. Mae'r cwestiynau hyn yn golygu y gall pobl na chawsant eu geni yn y DU gael eu categoreiddio'n breswylydd arferol neu'n breswylydd byrdymor. Mae gwybodaeth am fudo rhyngwladol byrdymor yn ategu'r amcangyfrifon o'r boblogaeth ar sail preswylwyr arferol, gan roi gwell dealltwriaeth i awdurdodau lleol o'u poblogaeth gyfan a'i gofynion cysylltiedig o ran gwasanaethau.

### Mudo mewnol

3.138 Bydd y cwestiwn ar gyfeiriad arferol pawb flwyddyn cyn y cyfrifiad hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn casglu gwybodaeth am fudo mewnol mewn achosion lle roedd y cyfeiriad blaenorol yn y DU. Fel gyda mudo rhyngwladol hirdymor, mae mudo mewnol yn elfen bwysig o'r amcangyfrifon a'r rhagamcanion o'r boblogaeth, sy'n cyfrannu at y ddealltwriaeth o'r newid yn y boblogaeth ar lefel leol ac sy'n galluogi awdurdodau lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau.

### Crefydd

3.139 Cafodd cwestiwn ar grefydd ei gynnwys yn y cyfrifiad am y tro cyntaf yn 2001. Mae SYG yn bwriadu gofyn yr un cwestiwn yn 2021 er mwyn sicrhau parhad o ran canlyniadau Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011. Bydd yr un opsiynau ymateb yn cael eu cynnwys ar y cwestiwn, er mae SYG yn ystyried gwneud rhai newidiadau bach i'r ffordd maent yn cael eu cyflwyno.

3.140 Fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, bydd y cwestiwn hwn yn parhau i fod yn wirfoddol. Defnyddir gwybodaeth am grefydd gan amrywiaeth o ddefnyddwyr data gan gynnwys llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a sefydliadau crefyddol er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd yr ymatebion yn helpu defnyddwyr i fonitro cydraddoldeb canlyniadau a darpariaeth er mwyn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3.141 Er na all opsiynau ymateb penodol gael eu cynnwys ar gyfer pob crefydd, mae SYG yn cynnig sicrhau, drwy ddefnyddio cyfleusterau nodi ar lein ac ar bapur (gyda'r adnodd "chwilio wrth deipio" y mae SYG yn ei ddatblygu ar gyfer cwblhau'r cyfrifiad ar lein) a darparu cyngor da, fod pawb yn gallu nodi pwy ydynt fel maent yn ei ddymuno.

3.142 Bydd SYG yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac yn darparu dadansoddiad er mwyn eu helpu i wasanaethu'r cymunedau crefyddol gwahanol y maent yn eu gwasanaethu yn eu hardaloedd. Dangosodd gwaith SYG gyda rhai cymunedau, er bod y blwch "Arall" yn cael ei ddefnyddio'n eang, nad oedd y data yn cael eu defnyddio cystal gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, felly bydd SYG yn gweithio gyda chymunedau er mwyn sicrhau bod y data ar gael yn hawdd i'r bobl hynny.

### Y Gymraeg

3.143 Mae cwestiwn ar sgiliau Cymraeg wedi'i gynnwys ym mhob cyfrifiad yng Nghymru ers 1891. Mae'r cwestiwn yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwyr i ddeall Cymraeg llafar, a siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Defnyddir gwybodaeth am sgiliau Cymraeg yn helaeth gan Lywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru er mwyn monitro'r defnydd o'r Gymraeg a llywio strategaethau i'w chefnogi a'i hyrwyddo. Mae'r gofyniad hwn wedi'i atgyfnerthu gan gyfrifoldebau cyfreithiol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ynghylch y Gymraeg a nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau cysylltiedig.

### Prif iaith a ddefnyddir

3.144 Cyfrifiad 2011 oedd y cyntaf i gasglu gwybodaeth am y prif iaith a ddefnyddir (gan gynnwys ieithoedd arwyddion), yn dilyn rhaglen ymchwil, proses ymgynghori, profion a gwaith dadansoddi er mwyn penderfynu ar y cwestiynau mwyaf addas.

3.145 Mae'r wybodaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i nodi ardaloedd lle defnyddir ieithoedd penodol ac, ar y cyd â data ar ba mor dda y gellir siarad Saesneg, mae'n helpu i gynllunio gwasanaethau a'i gwneud yn haws i gael gafael arnynt. Mae hefyd yn helpu i gynllunio i ddarparu cyfleusterau dehongli/cyfieithu ar y pryd priodol ac mae'n targedu ymyriadau sydd â'r nod o wella lefelau integreiddio a chydlyniant cymunedau.

3.146 Mae SYG yn bwriadu casglu gwybodaeth am brif ieithoedd yn 2021. Bydd y cwestiwn yn parhau fel yr oedd yng Nghymru a Lloegr yn 2011.

### Pa mor dda y gellir siarad Saesneg

3.147 Mae'r cwestiwn ar ba mor dda y gellir siarad Saesneg yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r cwestiwn ar brif iaith er mwyn targedu cymorth ieithyddol a sicrhau bod polisïau integreiddio yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny â'r angen mwyaf. Cafodd y cwestiwn ei ofyn am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011 a bydd yn cael ei ofyn eto yn 2021.

## Gweithgarwch economaidd

3.148 Defnyddir data ar weithgarwch economaidd o'r cyfrifiad yn helaeth gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Fel agwedd allweddol ar berfformiad economaidd lleol, defnyddir gweithgarwch economaidd gan awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau a strategaethau economaidd, a chefnogi rhaglenni buddsoddi cyhoeddus mawr. Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn fesurau pwysig a all gael eu defnyddio i nodi pa grwpiau penodol o'r boblogaeth sydd dan anfantais, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

3.149 Caiff gwybodaeth am weithgarwch economaidd ei chasglu drwy gyfres o gwestiynau sydd ond yn gymwys i'r rhai sy'n 16 oed a throsodd. Mae'r cwestiynau wedi'u dylunio i bennu p'un a yw rhywun mewn cyflogaeth, neu:

- wedi ymddeol
- yn fyfyriwr
- yn gofalu am y teulu neu am y cartref
- yn sâl neu wedi bod yn anabl am gyfnod hir
- yn chwilio am waith
- ar gael i weithio
- yn aros i ddechrau swydd

3.150 Bydd y categorïau hyn yn darparu'r dosbarthiad sylfaenol ar gyfer dadansoddi gweithgarwch economaidd ac maent wedi'u dylunio i fod mor gyson â phosibl â'r diffiniadau a argymhellir gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO). Bydd SYG yn parhau i gasglu gwybodaeth am weithgarwch economaidd yng Nghyfrifiad 2021. Os bydd angen gwneud newidiadau er mwyn sicrhau cysondeb â chanllawiau'r ILO ac allbynnau'r Arolwg o'r Llafurlu, efallai y bydd angen i'r cwestiynau gael eu hadolygu.

3.151 Yng Nghyfrifiad 2011 gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi p'un a oeddent wedi gweithio erioed, ac os oeddent, nodi'r flwyddyn ddiwethaf iddynt weithio. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei defnyddio'n bennaf gan awdurdodau lleol i broffilio a deall anghenion pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi cryn dipyn o faich ar yr ymatebydd, ac roedd y dystiolaeth i ategu'r angen parhaus am wybodaeth am y flwyddyn ddiwethaf i rywun weithio yn gyfyngedig, ac yn annigonol i gyfiawnhau ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

3.152 Mae dal angen gwahaniaethu rhwng pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod byr ac am gyfnod hir, a'r rhai nad ydynt erioed wedi gweithio. Defnyddir hyn yn Nosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau

Gwladol (NS-SEC). Mae SYG yn bwriadu casglu'r data hyn drwy addasu'r cwestiwn "wedi gweithio erioed" er mwyn casglu data ar p'un a yw rhywun wedi gweithio yn y 12 mis diwethaf.

3.153 Dim ond y bobl hynny sy'n gyflogedig neu sydd wedi gweithio erioed fydd angen rhoi rhagor o wybodaeth am bynciau fel eu galwedigaeth neu'r diwydiant maent ynddo neu roeddent ynddo.

### Galwedigaeth

3.154 Ar gyfer y rhai sy'n gwneud gwaith am dâl neu sydd wedi gweithio erioed, caiff gwybodaeth am alwedigaeth eu swydd bresennol neu eu prif swydd ddiwethaf ei chasglu. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu drwy gwestiynau ar deitl swydd llawn unigolyn a phrif weithgareddau ei swydd.

3.155 Mae gwybodaeth am alwedigaeth yn darparu sail ar gyfer dadansoddi marchnadoedd llafur lleol, nodi unrhyw eithriadau o fathau penodol o waith a chefnogi cynlluniau datblygu economaidd lleol a phrosiectau seilwaith mawr.

### Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol

3.156 Mae'r cwestiynau ar alwedigaeth ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig am statws cyflogaeth a statws goruchwylio yn sail i bennu Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC). Mae SYG wedi comisiynu ymchwilwyr o Brifysgol Essex i adolygu'r broses o bennu NS-SEC er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ddealladwy yng nghyd-destun marchnad lafur newidiol. Bydd y canlyniadau yn llywio'r broses o bennu NS-SEC yng Nghyfrifiad 2021.

### Statws goruchwylio

3.157 Cafodd statws goruchwylio ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng codau NS-SEC ar gyfer 139 o alwedigaethau yn 2011, gan effeithio ar ryw 2.6 miliwn o bobl. Mae'r ymchwil i ddileu statws goruchwylio wedi dod i ben, a bydd SYG yn parhau i gasglu'r wybodaeth hon er mwyn cynnal ansawdd y dosbarthiad hwn.

### Diwydiant

3.158 Mae gwybodaeth am ddiwydiant yn ategu'r data a gesglir gan y cwestiwn ar alwedigaeth ac mae'n darparu manylion penodol am farchnadoedd llafur lleol. Hefyd, gall y data gael eu defnyddio i nodi meysydd lle mae crynoadau o weithwyr wedi'u cyflogi mewn sector penodol, er mwyn ategu cynlluniau datblygu economaidd lleol a phrosiectau seilwaith mawr.

3.159 Pennir diwydiant yn bennaf drwy ofyn i bobl am natur y busnes neu weithgarwch y sefydliad sy'n eu cyflogi. Cesglir manylion atodol drwy'r cwestiynau ar enw'r sefydliad ac, ar gyfer y rheini sy'n gweithio ar y pryd, gyfeiriad eu gweithle.

### Oriau sy'n cael eu gweithio

3.160 Mae cwestiwn ar nifer yr oriau sy'n cael eu gweithio fel arfer fel rhan o brif swydd yr unigolyn yn fodd i wahaniaethu rhwng pobl sy'n gweithio'n llawn amser ac yn rhan amser. Mae'r wybodaeth yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o newidiadau mewn patrymau gweithio a sut mae'r rhain yn effeithio ar alwedigaethau a diwydiannau penodol.

### Cyfeiriad y gweithle

3.161 Caiff y cwestiwn hwn ei ddefnyddio i gefnogi gwaith cynllunio trafnidiaeth. Drwy gyfuno ymatebion i gwestiwn ar gyfeiriad y gweithle (cyrchfan) â gwybodaeth am gyfeiriad arferol (tarddle) bydd modd casglu gwybodaeth am deithio i'r gwaith a'r niferoedd sy'n teithio rhwng tarddle a chyrchfan penodol. Ar y cyd â gwybodaeth o'r cwestiwn am y ffordd mae rhywun yn teithio i'r gwaith, bydd y data yn helpu i nodi llwybrau cymudo lle ceir lefel uchel o draffig. Hefyd, caiff y cwestiwn ar gyfeiriad y gweithle ei ddefnyddio er mwyn llunio ystadegau o'r gweithle.

### Dull o deithio i'r gweithle

3.162 Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymatebwyr am wybodaeth am eu dulliau o deithio i'r gweithle ac, yn arbennig, fanylion am y rhan hiraf, o ran pellter, o'u taith arferol i'r gwaith. Mae gwybodaeth o'r cwestiwn hwn a'r cwestiwn blaenorol ar gyfeiriad y gweithle yn cefnogi'r gwaith o gynllunio trafnidiaeth drwy gyfrannu at y broses o bennu modelau trafnidiaeth ac mae'n sail i fesur patrymau cymudo. Mae'r data yn cael eu defnyddio'n helaeth i ddatblygu polisïau a gwaith monitro, gan gynnwys asesu effaith polisïau tai a thrafnidiaeth blaenorol.

### Ail gyfeiriad

3.163 Cafodd cwestiynau ar drefniadau preswylio, gan gynnwys manylion ail gyfeiriad a'r rhesymau dros aros mewn cyfeiriad o'r fath, eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011. Mae'r rhain yn gwella cwmpas ac ansawdd amcangyfrifon o'r boblogaeth a byddant yn cael eu gofyn eto yn 2021.

3.164 Bydd y cwestiynau hyn yn darparu mesur gwell o ddynameg newidiadau mewn cymdeithas fel yr adlewyrchir gan drefniadau byw mwy cymhleth. Ymhlith yr enghreifftiau mae cymudwyr wythnosol, plant rhieni sydd wedi cael ysgariad neu sydd wedi gwahanu, neu bobl ag ail gartref. Mae gan y materion hyn oblygiadau pwysig i'r cysyniad hirsefydledig blaenorol o

breswylfa arferol a llunio ystadegau o'r boblogaeth. Ar y cyd â'r wybodaeth am gyfeiriad arferol, bydd yr ymatebion yn galluogi SYG i sicrhau bod pobl yn cael eu dyrannu'n briodol i'w preswylfa arferol a bydd yn helpu i gysoni'r amcangyfrifon o'r boblogaeth ag amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth.

**Cyfeiriadau myfyrwyr yn ystod y tymor**

3.165 Caiff cwestiynau ynghylch p'un a yw rhywun yn blentyn ysgol neu'n fyfyriwr mewn addysg amser llawn, ynghyd â manylion am ei gyfeiriad yn ystod y tymor, eu defnyddio i wella cwmpas. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod myfyrwyr a disgyblion mewn ysgolion preswyl yn cael eu cofnodi yn eu preswylfa arferol, hynny yw, eu cyfeiriad yn ystod y tymor. Unwaith eto, mae'r wybodaeth hon yn helpu i gysoni amcangyfrifon y cyfrifiad â'r amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth. Bydd y cwestiynau hyn, a ofynnwyd yn 1991 ac yn 2001, yn cael eu gofyn eto yn 2021.

### Cwestiynau am ymwelwyr

3.166 Bydd Cyfrifiad 2021 yn casglu gwybodaeth gyfyngedig ar holiadur y cartref am unrhyw un sydd mewn cyfeiriad ar ddyddiad y cyfrifiad nad yw'n breswylfa arferol. Bydd angen i ymwelwyr sy'n byw rywle arall yn y DU roi gwybodaeth lawn ar holiadur y cartref am eu cyfeiriad arferol.

3.167 Y cwestiynau y bydd angen i ymwelwyr eu cwblhau fydd enw, cyfeiriad arferol neu'r wlad y maent yn byw ynddi os yn dod o'r tu allan i'r DU, rhyw a dyddiad geni. Bydd y wybodaeth hon yn cefnogi'r gwaith o gyfrif ymwelwyr a phreswylwyr arferol yn gywir ar lefel leol. Hefyd, gallai cysylltu nifer yr ymwelwyr â nifer y preswylwyr yn eu cyfeiriad arferol helpu i amcangyfrif unrhyw orgyfrif neu dangyfrif yn y cyfrifiad.

## Cwestiynau nad yw SYG yn bwriadu eu gofyn

3.168 Mae pob pwnc sydd wedi'i gynnwys yn y cynigion ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn bodloni'r meini prawf gwerthuso y cyfeirir atynt yn gynharach yn y bennod hon. Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn ddiolchgar i bawb a wnaeth awgrymiadau ac mae'n ymddiheuro na fu modd iddo dderbyn pob un ohonynt.

3.169 Arweiniodd ymgynghoriad defnyddwyr SYG at gynnig nifer o bynciau newydd i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Mewn achosion lle darparwyd digon o dystiolaeth, cynhaliwyd asesiadau manwl er mwyn deall gofynion

y wybodaeth newydd. Fodd bynnag, roedd nifer o bynciau lle'r oedd tystiolaeth o ofynion defnyddwyr yn gymharol is nag ar gyfer pynciau eraill, ac felly nid yw SYG yn argymell eu cynnwys. Y pynciau yw:

- technoleg
- bod yn berchen ar anifail anwes
- iechyd meddwl
- cyflyrau iechyd ac analluogrwydd
- ffactorau sy'n effeithio ar iechyd
- rheswm dros fudo
- cyfeiriad y man astudio
- man geni
- enw cyn priodi

3.170 I'r gwrthwyneb, cafwyd dau bwnc lle'r oedd tystiolaeth o ofyniad defnyddwyr uwch, ond, serch hynny, nid yw SYG yn argymell eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Y pynciau hyn oedd:

- incwm
- gwirfoddoli

## Incwm

3.171 Mae incwm yn bwnc y mae defnyddwyr yn gofyn iddo gael ei gynnwys yn holiadur y cyfrifiad yn fynych. Defnyddir data ar incwm er mwyn llywio gwaith cynllunio gwasanaethau, datblygu polisïau a gweithredu polisïau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Caiff gwybodaeth am incwm ei defnyddio mewn sawl ffordd gan gynnwys er mwyn:

- asesu fforddiadwyedd tai
- datblygu polisïau a strategaethau i drechu tlodi
- lliniaru dyled a goresgyn anfantais

3.172 Fodd bynnag, dangosodd y profion a gynhaliwyd cyn Cyfrifiad 2011 fod effaith annerbyniol ar gyfraddau ymateb a phryderon am gywirdeb data. Dangosodd Prawf 2007 a gynhaliwyd wrth baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2011 fod cynnwys cwestiwn ar incwm yn gostwng cyfraddau ymateb cyffredinol 2.7 pwynt canran, sy'n ystadegol sylweddol. Roedd y canlyniadau hyn yn gyson â phrofion cynharach. Yn ychwanegol at y canfyddiadau hyn roedd pryderon ynghylch ansawdd y data ar incwm a gasglwyd drwy holiadur prawf y cyfrifiad a ph'un a oedd yr ymatebwyr yn deall cwestiynau ar incwm ac yn barod i'w hateb.

3.173 O ystyried y pryderon hyn, nid yw SYG yn argymell casglu gwybodaeth am incwm yng Nghyfrifiad 2021.

3.174 Fodd bynnag, er mwyn diwallu'r angen, mae SYG yn gweithio gyda data ar drethi a budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) er mwyn datblygu data math cyfrifiad ar incwm a all gael eu hintegreiddio â'r data a gesglir yng Nghyfrifiad 2021. Mae SYG eisoes wedi llunio rhai allbynnau ymchwil er mwyn dangos potensial hyn[31].

## Gwirfoddoli

3.175 Nododd defnyddwyr fod angen cael gwybodaeth am wirfoddoli er mwyn cyfrifo ei gyfraniad at yr economi, mesur ymgysylltiad gwirfoddolwyr a gwella gwasanaethau seiliedig ar wirfoddolwyr. Roedd ganddynt ddiddordeb ym mha mor aml roedd pobl yn gwirfoddoli, a faint o oriau y gwnaed hynny hefyd. Ers yr adroddiad cychwynnol ar bynciau[32] mae SYG wedi gwneud rhagor o waith gyda rhanddeiliaid ac wedi cynnal profion er mwyn cadarnhau'r angen gan ddefnyddwyr ac ystyried ffynonellau data amgen sydd ar gael.

3.176 Gwnaeth SYG ddatblygu a phrofi gwahanol fersiynau o gwestiynau er mwyn asesu p'un a allai SYG ddylunio cwestiwn a fyddai, o'i gynnwys yn y cyfrifiad, yn darparu data o ansawdd digon da i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Fel rhan o hyn cafwyd dwy rownd o brofion gwybyddol, profion ar raddfa fawr ac arolwg gwerthuso a nododd y canlynol:

- cyfradd gytuno o 78% rhwng ymatebion Prawf 2017 ac arolwg gwerthuso dilynol o ymatebwyr i'r prawf – roedd y gyfradd gytuno hon yn is na phynciau eraill
- ni allai'r ymatebwyr oedd yn gwirfoddoli ar sail ad hoc ddewis yn llwyddiannus opsiwn ymateb oedd yn gweddu i'w hamserlenni gwirfoddoli

3.177 Mae'r profion wedi dangos bod y cwestiwn hwn yn anodd i ymatebwyr, sy'n codi pryderon o ran ansawdd y data ac yn awgrymu y byddai'n rhaid gofyn mwy nag un cwestiwn er mwyn diwallu'r angen.

3.178 Er mwyn diwallu'r angen, mae SYG yn argymell y dylai barhau i gasglu'r data sydd eu hangen er mwyn amcangyfrif cyfraniad gwirfoddoli at yr economi drwy ei harolygon o gartrefi, sy'n fwy addas ar gyfer y pwnc.

---

31 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedatacensusproject/administrativedatacensusresearchoutputs

32 https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales/topicreport05labourmarket.pdf

## Cwestiynau y mae SYG yn argymell eu dileu

3.179 Mae rhai cwestiynau presennol nad oes achos digonol dros eu cynnwys mwyach.

3.180 Er bod SYG yn argymell parhau i ofyn cwestiwn ar **nifer yr ystafelloedd gwely**, mae'n argymell defnyddio data gweinyddol ar gyfer **nifer yr ystafelloedd** mewn ffordd debyg i incwm. Er mwyn lleihau'r baich ar yr ymatebydd, nid yw SYG o'r farn ei bod yn briodol parhau i ofyn y ddau gwestiwn. Gan ei bod yn haws deall y cwestiwn ar ystafelloedd gwely a'i fod yn darparu data o ansawdd gwell, mae SYG yn argymell dileu'r cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd.

3.181 Yng Nghyfrifiad 2011 gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi p'un a oeddent wedi gweithio erioed, ac os oeddent, nodi'r flwyddyn ddiwethaf iddynt weithio. Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi baich mawr ar ymatebwyr. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei defnyddio'n bennaf gan awdurdodau lleol i broffilio a deall anghenion pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Mae SYG yn argymell dileu'r cwestiwn ar **y flwyddyn olaf a weithiwyd** gan fod ymchwil bellach wedi nodi mai cael gwybod am weithio yn y flwyddyn ddiwethaf yr oedd defnyddwyr am ei wneud. Bydd SYG yn casglu'r wybodaeth hon drwy addasu'r cwestiwn "wedi gweithio erioed".

## Monitro cydraddoldeb yn dilyn y cyfrifiad

3.182 Yn 2017 gwnaeth gwasanaeth data ar-lein y llywodraeth "Ethnicity Facts and Figures" [33], a gyhoeddwyd gan yr Uned Anghyfartalwch Hiliol, ddangos bod casglu data ar grwpiau ethnig ar draws y sector cyhoeddus yn anghyson. Hefyd, prin mae crefydd yn cael ei fonitro ar draws y llywodraeth. Mae SYG yn cydnabod bod hyn, i gymunedau gan gynnwys Sikhiaid, Iddewon a Roma, yn golygu bod sawl agwedd ar anghenion eu cymunedau yn cael eu celu ar hyn o bryd ac mae angen i hyn newid.

3.183 Yn ogystal ag ystyried sut y gellir mynd i'r afael â hyn yn y cyfrifiad, bydd SYG yn defnyddio posibiliadau newydd Deddf Economi Ddigidol 2017 i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Bydd SYG yn gweithio ar draws y llywodraeth er mwyn nodi corff sy'n casglu data ar bob nodwedd allweddol fel bod modd i'r data, ar ôl eu casglu, gael eu rhannu â SYG a'u defnyddio gyda data eraill er mwyn gwella gallu'r llywodraeth i nodi a threchu anfantais

33 https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk

sy'n gysylltiedig â phob un o'r nodweddion gwarchodedig ar draws y llywodraeth, yn gyson, ar gost is i'r trethdalwr, a chan roi llai o faich ar ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus.

3.184 Cyn gwneud hyn bydd y canllawiau cysoni yn cael eu diweddaru cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau sydd angen eu monitro fel hil yn llawn.

# 4

# 4 Casglu'r wybodaeth

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r gweithrediad casglu data – wyneb cyhoeddus y cyfrifiad – yn cwmpasu'r gweithgareddau a gynhelir er mwyn helpu ymatebwyr i gwblhau'r cyfrifiad yn y ffordd sy'n diwallu eu hanghenion orau, gan sicrhau bod y targedau ansawdd perthnasol yn cael eu cyflawni hefyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- cyhoeddusrwydd a marchnata
- nodi'r holl gyfeiriadau lle gall rhywun fod yn byw
- dosbarthu gwahoddiad i gymryd rhan i bob cartref a sefydliad cymunedol
- cymorth cyhoeddus er mwyn helpu ymatebwyr i gwblhau eu holiadur
- recriwtio staff maes i roi cymorth wyneb yn wyneb i gartrefi sydd heb ymateb

Mae'r gweithrediad casglu data hefyd yn gyfrifol am reoli'r cyflenwyr a fydd yn gweithio gyda SYG er mwyn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i gasglu'r data.

4.2 Er mwyn sicrhau bod data'r cyfrifiad o werth i ddefnyddwyr, rhaid sicrhau bod y cyfrifiad o ansawdd uchel. Mae sawl agwedd i hyn. Y cyntaf o'r rhain yw y dylai cyfradd ymateb y cyfrifiad fod yn uchel iawn. Mae hyn yn golygu bod angen i SYG gael ymatebion gan 94% o'r boblogaeth yn genedlaethol ac o leiaf 80% o'r boblogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, heb fawr ddim amrywiad o fewn ardaloedd. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y data yn adlewyrchu'r boblogaeth a'i nodweddion mewn ardaloedd bach, ac ar gyfer poblogaethau bach. Yn ogystal â chael cyfraddau ymateb uchel, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod pobl yn gallu deall y cwestiynau a rhoi atebion cywir yn hawdd, felly mae'n hanfodol bod yr holiaduron papur ac ar-lein wedi'u dylunio'n dda a'i bod yn hawdd ei defnyddio.

4.3 Fel gyda Chyfrifiad 2011, yr her fydd cyfrif poblogaeth sy'n parhau i newid o ran ei hymddygiad a'i hagwedd tuag at arolygon. Mae gwasanaethau digidol wedi cyrraedd y brif ffrwd, gan gynnig cyfleoedd i wella'r broses o gasglu data o ran ansawdd y data hynny a pha mor effeithlon yw'r broses. Mae hyn yn galluogi Cyfrifiad 2021 i fod yn un "digidol yn gyntaf" gan anelu at gyfradd ymateb ar-lein o 75% (er na fydd ar draul targedau cyfraddau ymateb eraill).

4.4 Dengys profiad ei bod hi'n fwyfwy anodd cysylltu â chartrefi penodol, yn enwedig ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd canol dinas. Gall fod sawl rheswm dros hyn fel:

- poblogaeth sy'n heneiddio
- niferoedd cynyddol o gartrefi un person
- patrymau gwaith newidiol
- cynnydd mewn eiddo lle rheolir mynediad iddynt
- rhai grwpiau a chymunedau o fewn y boblogaeth nad ydynt yn teimlo'n rhan o gymdeithas

4.5 Efallai na fydd rhai pobl a wnaeth gwblhau Cyfrifiad 2011 ar bapur mor barod i gwblhau'r holiadur ar lein yn 2021 pan fydd yn un digidol yn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys pobl na allant ddefnyddio gwasanaethau digidol, neu nad ydynt yn barod i wneud hynny. Mae'r ffactorau hyn wedi cael cryn ddylanwad ar gynlluniau casglu data Cyfrifiad 2021. Bydd strategaeth gyhoeddusrwydd effeithiol, deunyddiau cyfathrebu sydd wedi'u profi'n dda a chymorth cyhoeddus mewn sawl iaith ac ar sawl cyfrwng hefyd yn hanfodol i lwyddiant y cyfrifiad.

4.6 Mae llawer o bobl bellach yn defnyddio'r we yn rheolaidd er mwyn cael gafael ar ystod eang o wasanaethau[34], a chwblhau'r holiadur ar lein fydd y ffordd orau o gynnwys y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn 2021. Disgwylir i ymatebion digidol helpu i wella ansawdd data, ei gwneud yn bosibl i brosesu data'r cyfrifiad yn gyflymach, a dylai leihau costau. Yn 2011, cafodd holiaduron papur eu dosbarthu i bob cyfeiriad, gan roi'r dewis i ymatebwyr eu cwblhau ar bapur neu ar lein. Yn 2021, bydd cartrefi a sefydliadau cymunedol yn cael llythyr sy'n cynnwys cod mynediad unigryw er mwyn eu galluogi i gwblhau'r holiadur ar lein yn ddiogel. Mewn rhai ardaloedd lle defnyddir gwasanaethau ar-lein i raddau llai, bydd holiadur papur yn cael ei ddosbarthu sydd hefyd yn cynnwys cod mynediad unigryw. Dychwelir holiaduron papur drwy'r post mewn amlen barod i'w prosesu.

4.7 Mae staff maes yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r broses o gasglu data. Caiff staff eu hyfforddi i annog ymatebwyr i gwblhau eu holiadur ac i ddarparu help priodol. Bydd SYG yn gweithio gydag awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn helpu pobl i gwblhau'r cyfrifiad ar lein neu ar bapur. Cyflogir staff arbenigol i weithio gyda rhai cymunedau anos eu cyrraedd er mwyn annog a chynyddu lefelau cyfranogi.

---


34 https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/internet-and-on-demand-research/internet-use-and-attitudes ac https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/bulletins/internetaccesshouseholdsandindividuals/2018

4.8 Bydd SYG yn gwella'r defnydd o lythyrau atgoffa wedi'u targedu gyda rhai o'r rheini nad ydynt yn ymateb, a ddigwyddodd gyntaf yn 2011[35]. Bydd SYG yn cyflwyno llwythi gwaith electronig diogel ar ddyfeisiau symudol drwy'r adnodd rheoli gwaith maes yn lle rhestrau papur o gyfeiriadau i staff maes ymweld â nhw. Bydd hyn yn helpu i atal ymweliadau diangen â chartrefi a bydd yn cynyddu effeithlonrwydd y staff maes.

4.9 Yn Ffigur 2 nodir y prif ryngweithio wrth gasglu ymatebion i'r cyfrifiad ar ffurf syml iawn.

[35] https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/2011census/howourcensusworks/howdidwedoin2011/2011censusgeneralreport/2011censusgeneralreportforenglandandwaleschapter3_tcm77-384965.pdf

## Ffigur 2. Trosolwg o Weithgaredd Rhyngweithio Ymatebwyr y Cyfrifiad



# Amcanion gweithredol

4.10 Mae nifer o amcanion y broses o gasglu data yn sail i nodau strategol cyffredinol Cyfrifiad 2021 a amlinellir ym Mhennod 1, sef:

- datblygu methodoleg cyfrif effeithiol sy'n targedu adnoddau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau'r ymateb mwyaf posibl
- annog lefel uchel o ymatebion ar lein (a gaiff effaith gadarnhaol mewn meysydd gweithredol eraill)
- tracio ymatebion ar-lein, a dychwelyd a chael holiaduron (rhai electronig a phapur) er mwyn targedu diffyg ymateb
- rheoli'r tasgau sy'n gysylltiedig â recriwtio, cadw a thalu gweithlu maes mawr
- annog y cyhoedd i gymryd rhan a chydweithredu drwy gyhoeddusrwydd llawn gwybodaeth, a sianelau cymorth cyhoeddus
- gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i gynllunio a chyflawni'r cyfrif, yn arbennig gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth am eu cymunedau, eu rhestrau cyfeiriadau lleol a threfniadau preswylio, a ffyrdd o gysylltu â grwpiau anos eu cyrraedd
- datblygu atebion technegol a wnaiff gefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau maes
- cyflawni targedau cyfraddau ymateb o 94% yn genedlaethol ac 80% ym mhob awdurdod lleol, er mwyn cefnogi lefelau ansawdd
- darparu adnoddau a gweithdrefnau maes er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnwys cymunedau anodd eu cyrraedd neu agored i niwed fel myfyrwyr, yr henoed, preswylwyr sefydliadau cymunedol, pobl sy'n cysgu ar y stryd a phobl nad ydynt yn siarad Saesneg
- cynorthwyo cymunedau a grwpiau drwy raglen ymgysylltu â chymunedau
- datblygu strategaeth marchnata digidol gref ar gyfer amrywiaeth o gynhyrchion a chyfryngau cymdeithasol

# Datblygu a defnyddio cofrestr cyfeiriadau gynhwysfawr

## Trosolwg

4.11 Mae'r angen i sicrhau bod pob aelod o gartref a sefydliad cymunedol yn cael ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021, ac yn cael ei gymell i ymateb, yn rhywbeth sydd yn fwy nag erioed yn sbarduno'r strategaeth a'r gwaith cynllunio ar

gyfer casglu data. Un o ragofynion cyfrifiad cynhwysol a llwyddiannus fydd argaeledd cofrestr cyfeiriadau gynhwysfawr, o ansawdd uchel, sy'n cwmpasu pob cartref a sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr.

4.12 Bydd SYG yn defnyddio AddressBase fel set ddata graidd y gofrestr cyfeiriadau ar gyfer Cyfrifiad 2021. Caiff AddressBase ei chynnal gan GeoPlace, cyd-fenter rhwng llywodraeth leol a'r Arolwg Ordnans, ac mae'n defnyddio'r ffynonellau data cyfeiriadau cenedlaethol gorau (gan gynnwys rhestrau awdurdodau lleol a'r Post Brenhinol (Ffeil Cyfeiriadau Cod Post)). Caiff SYG ddefnyddio AddressBase o dan Gytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus[36] ac mae wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â GeoPlace, gan gytuno i gydweithio'n agos er mwyn sicrhau ansawdd y rhestr o gyfeiriadau ar gyfer y cyfrifiad.

4.13 Mae gan bob cyfeiriad sydd wedi'i gynnwys yn AddressBase rif cyfeirnod eiddo unigryw a ddefnyddir drwy gydol y broses er mwyn helpu i osgoi problemau o ran dyblygu a all ddigwydd gyda chyfeiriadau cymhleth neu sefydliadau cymunedol.

4.14 Un maes y canolbwyntir arno'n benodol yng Nghyfrifiad 2021 fydd sicrhau bod pob sefydliad cymunedol sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr o gyfeiriadau yn cael ei nodi a'i ddosbarthu'n gywir. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yn ogystal â sicrhau ansawdd y rhestrau gan ddefnyddio rhestrau cyhoeddus a masnachol (fel rhestrau o gartrefi gofal neu feysydd carafannau).

## Datblygu a sicrhau ansawdd cofrestr cyfeiriadau'r cyfrifiad

4.15 Ni fydd SYG yn creu cofrestr cyfeiriadau ar wahân, fel yn achos Cyfrifiad 2011. Yn hytrach bydd yn gweithio mewn partneriaeth â GeoPlace, awdurdodau lleol a chyflenwyr eraill er mwyn sicrhau y gall AddressBase ddiwallu anghenion y cyfrifiad ac anghenion parhaus SYG.

4.16 Serch hynny, bydd SYG yn sicrhau bod y rhestr o ansawdd a gall fynd ati i'w gwella lle bo angen er mwyn bodloni gofynion y cyfrifiad. Nodwyd amrywiaeth o ddulliau a strategaethau:

- nodi unrhyw wahaniaethau rhwng dosbarthiadau AddressBase a'r rhai sydd eu hangen ar gyfer y cyfrifiad
- gweithio'n agos gyda'r Arolwg Ordnans a GeoPlace er mwyn deall y broses o greu a chynnal AddressBase

[36] https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-and-government/public-sector/mapping-agreements/public-sector-mapping-agreement.html

- cydweithredu â’r Arolwg Ordnans a GeoPlace er mwyn datrys unrhyw anghysondebau a nodir
- gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y data ar gyfeiriadau maent yn eu cyfrannu at AddressBase yn adlewyrchu gofynion y cyfrifiad ac yn hwyluso’r broses o gasglu data o ansawdd uchel ar gyfer y cyfrifiad
- defnyddio ymchwiliadau clercaidd er mwyn datrys anghysondebau a sicrhau ansawdd samplau o gyfeiriadau
- cysylltu data gweinyddol ag AddressBase er mwyn nodi’r gwahaniaethau rhwng nodweddion cyfeiriadau (er enghraifft statws preswyl neu gymunedol) ar AddressBase a’r rhai mewn data gweinyddol (gweler para 4.18 isod)

4.17 Bydd cydweithio’n agos ag awdurdodau lleol, sef y prif gyflenwyr gwybodaeth ar gyfer cynnal AddressBase, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau bod y rhestr a ddefnyddir gan SYG o ansawdd, yn amserol ac yn addas.

## Defnyddio data gweinyddol er mwyn gwella’r gofrestr cyfeiriadau

4.18 Mae SYG yn ymchwilio i’r defnydd o ddata gweinyddol er mwyn gwella ansawdd y gofrestr cyfeiriadau. Er enghraifft, gall nodweddion data gweinyddol, fel baneri er mwyn dynodi bod cyfeiriad yn gartref gofal neu’n wag, helpu SYG i gynnal proses gyfrif effeithlon ar gyfer y cyfrifiad.

4.19 Megis dechrau mae’r gwaith hwn ac ni wnaed unrhyw benderfyniadau ynghylch y defnydd o ddata gweinyddol. Mae’r holl waith yn cael ei wneud yn unol â pholisi SYG ar ddiogelwch data, datgeliadau a moeseg.

## Paru cyfeiriadau

4.20 Caiff dulliau paru cyfeiriadau eu datblygu er mwyn helpu i ddefnyddio data gweinyddol yn y cyfrifiad. Byddai’r defnydd o ddulliau paru data cyffredin ar draws y llywodraeth yn helpu i wella cysylltiad a defnydd data ac mae SYG yn rhannu profiad o hyn mewn nifer o feysydd (er enghraifft drwy rannu profiad o ddatblygu dulliau â CThEM, a darparu gwasanaeth paru i Lywodraeth Cymru a rhai awdurdodau lleol ei dreialu).

4.21 Er mwyn helpu i wella ansawdd a chywirdeb y data a gesglir, defnyddir adnodd chwilio am gyfeiriad fel rhan o’r holiadur ar-lein er mwyn galluogi ymatebwyr i ddewis a chadarnhau manylion cyfeiriad, fel gweithle neu gyfeiriad flwyddyn yn ôl.

## Adeiladu i ailddefnyddio

4.22 Mae cynigion y cyfrifiad wedi cael eu datblygu fel rhan o waith ehangach SYG o fewn Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data er mwyn adnewyddu ei seilwaith technoleg drwy ddylunio ffynonellau data, prosesau a systemau cyffredin er mwyn sicrhau bod modd ailddefnyddio cymaint â phosibl (mae Pennod 9 yn amlinellu buddiannau'r rhaglen).

4.23 Bydd y gofrestr cyfeiriadau, er enghraifft, yn cael ei dylunio a'i hadeiladu i'w hailddefnyddio er mwyn cefnogi prosesau ystadegol, fel cynnal arolygon cymdeithasol, arolygon busnes a chysylltu data gweinyddol, fel bod modd meithrin dealltwriaeth o'r newydd o'n cymdeithas a'n heconomi. O ystyried y nodau hirdymor ar gyfer y gofrestr cyfeiriadau, mae'r dulliau a ddefnyddir i'w datblygu a'i gwella yn cael eu creu i fod yn gynaliadwy.

4.24 Enghraifft arall yw Llwyfan Casglu Data Arolygon, sydd eisoes wedi cael ei ddefnyddio i gasglu dros 200,000 o ymatebion gan fusnesau ar lein, ac sy'n darparu seilwaith a fydd hefyd yn sail i'r cyfrifiad yn 2021.

4.25 Wrth brosesu data Cyfrifiad 2021, bydd SYG yn defnyddio ei Llwyfan Mynediad Data newydd, a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion sefydliad ystadegau gwladol. Bydd technolegau newydd yn helpu gyda phrosesu cychwynnol ymatebion mewn amser real, gan ei gwneud yn bosibl i gyflawni gwaith dadansoddi ac addasu'r modd y caiff data eu casglu os oes angen. Gall y dull gweithredu a gaiff ei ddatblygu wedyn gael ei ddefnyddio gydag ymarferion casglu data eraill SYG, gyda'r potensial i effeithio ar ansawdd ystadegol ac amseroldeb allbynnau.

4.26 Mae'r dechnoleg newydd hefyd yn golygu bod angen i'r rhan fwyaf o'r dulliau ystadegol a ddefnyddir i brosesu'r data gael eu hailysgrifennu. Bydd y ffordd yr eir ati i gyflawni'r dasg hon yn sicrhau bod modd ailddefnyddio i'r eithaf. Bydd yr angen i ysgrifennu cod hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i staff ddysgu'r dulliau newydd o reoli data ac felly datblygir y gallu i gefnogi'r gwaith o drawsnewid y swyddfa'n ehangach. Lle bo modd, mae'r gwaith o ddatblygu'r system brosesu yn cael ei wneud gan dimau prosiect integredig cydweithredol. Mae'r rhain nid yn unig yn helpu i sicrhau safbwynt ehangach, ond maent hefyd yn helpu i sicrhau y bydd maes busnes yn gyfrifol am y gwaith datblygu unwaith y bydd y cyfrifiad wedi gorffen.

4.27 Er mwyn sicrhau bod data'r cyfrifiad mor fuddiol â phosibl i SYG ar lefel ystadegol, mae eu defnydd ehangach posibl yn cael ei ystyried yn y modelau data a'r ddogfennaeth gysylltiedig a lunnir er mwyn cefnogi'r gwaith o'u prosesu. Mae'r timau yn defnyddio adnoddau newydd er mwyn casglu gwybodaeth ar y cam adeiladu system er mwyn hwyluso hyn. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu â chymuned ehangach SYG.

4.28 Mae'r Llwyfan Mynediad Data wedi cael ei adeiladu ar sail diogelu drwy ddylunio gyda'r gwaith dylunio yn dilyn nifer o egwyddorion diogelwch. Bydd y mesurau a roddwyd ar waith nid yn unig yn diogelu data'r cyfrifiad ond gwybodaeth arall a gedwir at ddefnydd ystadegol. Rhoddir rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data ym Mhennod 6.

# Staffio

## Staff maes

4.29 Bydd y gweithlu maes dros dro a gyflogir i gefnogi'r gweithrediad yn cynnwys staff llawn amser a rhan amser, gydag o leiaf 17,000 o swyddogion maes y cyfrifiad yn cael eu recriwtio. Bydd eu rôl yn cynnwys cysylltu â chartrefi sydd heb ymateb, annog pobl i gymryd rhan, tynnu sylw at y buddiannau i gartrefi ac unigolion, a darparu cymorth i gwblhau holiaduron papur a holiaduron ar-lein fel sydd angen. Byddant hefyd yn cyfarfod â rheolwyr sefydliadau cymunedol (er enghraifft cartrefi gofal ac ysgolion preswyl) er mwyn rheoli'r broses o gyfrif preswylwyr.

4.30 Arweinir strwythur rheoli'r staff maes gan reolwyr gweithrediadau ardal y cyfrifiad a gyflogir am ryw ddeufis cyn y cyfrifiad, a rhyw dri mis ar ei ôl. Bydd rhai yn gyfrifol am gyfrif ardal sy'n cynnwys tua 500,000 o bobl, tra bydd eraill, mewn ardaloedd llai poblog, yn gyfrifol am lai. Byddant yn gyfrifol am reoli rheolwyr tîm lleol a elwir yn gydlynwyr y cyfrifiad a chydlynwyr sefydliadau cymunedol a fydd, yn eu tro, yn goruchwylio timau lleol o swyddogion y cyfrifiad a swyddogion sefydliadau cymunedol.

4.31 Hefyd, bydd rheolwyr ymgysylltu â'r cyfrifiad a staff cyswllt, a gaiff eu cyflogi i weithio gydag awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol o fewn eu hardal ac ymgysylltu â phoblogaethau penodol, sy'n canolbwyntio ar waith cyhoeddusrwydd a chyswllt â'r cyfryngau. Bydd y cynghorwyr cymunedol hyn, y bydd gan rai ohonynt sgiliau iaith penodol, yn gweithio gyda chymunedau penodol fel y rhai lle mae iaith neu ddiwylliant yn rhwystr i gymryd rhan. Bydd y rheolwyr ymgysylltu ardal a'r staff cyswllt yn dechrau yn ystod haf 2020, gan roi amser iddynt feithrin dealltwriaeth o'u hardal a meithrin cydberthnasau ag arweinwyr cymunedau.

4.32 Yn dilyn y cyfrifiad, bydd nifer fach o staff ynghlwm wrth waith gorfodi yn dilyn achosion o ddiffyg cydymffurfio, sef cam olaf y gweithrediad maes.

## Recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes

4.33 Bydd y strategaeth ar gyfer recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes Cyfrifiad 2021 yn debyg i'r hyn a wnaed yn 2011. Gwnaeth y penderfyniad i osod y gwasanaethau hyn ar gontract allanol ar gam cynnar, gan ddefnyddio cyflenwr ag arbenigedd mewn gweithrediadau maes, brofi i fod yn un llwyddiannus yn 2011 ac mae SYG am wneud hyn eto. Yn amlwg, nid yw gwasanaethau o'r fath yn rhan o weithgarwch craidd SYG ac ni ellir eu darparu'n fewnol, i'r fath raddfa, heb fuddsoddiad ychwanegol sylweddol.

4.34 Er mai'r cyflenwr fydd yn gyfrifol am recriwtio staff maes, mae SYG yn bwriadu sicrhau mai cyflogeion SYG yw'r staff a benodir ar gyfer y gweithrediad maes, ac felly cânt eu recriwtio yn unol ag egwyddor cystadleuaeth deg ac agored Cod y Gwasanaeth Sifil[37]. Dylai'r dull cynhwysol hwn o recriwtio sicrhau bod y staff maes yn adlewyrchu proffil y cymunedau lle byddant yn gweithio. Bydd hyn yn galluogi staff maes i ymgysylltu'n fwy effeithiol er mwyn annog cyfranogi. Caiff nifer ddigonol o staff maes Cymraeg eu hiaith eu recriwtio yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y rhai sydd am ymgysylltu â'r cyfrifiad yn Gymraeg yn cael y cymorth priodol.

4.35 Bydd y rhwymedigaeth statudol i bobl a gyflogir i weithio ar y cyfrifiad lynu wrth ymgymeriadau cyfrinachedd llym yr un mor gymwys i staff maes dros dro a gaiff eu recriwtio gan y cyflenwr dan gontract ag i staff parhaol SYG.

4.36 Bydd tîm o SYG yn cynorthwyo'r staff maes i ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag ymholiadau ynghylch cyflog, treuliau, materion cyflogaeth, logisteg, digwyddiadau ac ymholiadau maes cyffredinol.

# Dulliau casglu a dychwelyd data (cartrefi)

## Cyswllt cychwynnol

4.37 Gwneir cyswllt cychwynnol uniongyrchol â'r cyhoedd ychydig wythnosau (tair wythnos fel rheol) cyn dyddiad y cyfrifiad. Bydd hyn ar ffurf llythyr a anfonir i gartrefi yng Nghymru a Lloegr (tua 26 miliwn) yn ogystal â chyfeiriadau sefydliadau cymunedol (er enghraifft neuaddau preswyl prifysgol a chartrefi gofal preswyl). Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i sicrhau bod pob llythyr yn cael ei ddosbarthu cyn dyddiad y cyfrifiad ac mae'n golygu bod amser i ddatrys unrhyw faterion all godi. Bydd pob llythyr yn cynnwys cod mynediad unigryw a dolen i'r wefan, fel bod modd cwblhau holiadur y cyfrifiad ar lein.

[37] http://civilservicecommission.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2012/04/Recruitment-Principles.pdf

4.38 Dosberthir holiaduron papur fel y cyswllt cychwynnol mewn rhai ardaloedd, yn seiliedig ar ba mor debygol yw hi y dewisir yr opsiwn ar-lein neu lle mae preswylwyr yn debygol iawn o ffafrio fersiwn bapur. Bydd yr holiaduron papur hyn hefyd yn cynnwys Cod Mynediad Unigryw fel bod modd cwblhau'r cyfrifiad ar lein os dymunir gwneud hynny. Yn yr un modd, gall unrhyw un sydd am gwblhau holiadur papur ofyn amdano drwy'r sianelau cymorth cyhoeddus.

## Cwblhau holiadur ar lein

4.39 Yn seiliedig ar brofiad o gasglu holiaduron ar-lein o gyfrifiadau blaenorol a rhyngwladol, a'r rhagamcanion o ran y defnydd o wasanaethau digidol, mae SYG yn anelu at weld tua 75% o gartrefi yn ymateb ar lein. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd gwirioneddol o'r sianel hon yn sicr a bydd y gwaith o gynllunio capasiti'r system ymateb yn caniatáu hyblygrwydd.

4.40 Mae cyfrifiad digidol yn gyntaf yn cyflawni nod y llywodraeth i geisio cynyddu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar lein, a bydd yn rhoi cyfle i SYG gyflawni arbedion cost hirdymor a gwella ansawdd a gwaith prosesu data.

4.41 Bydd yr holiadur ar-lein yn cael ei ddylunio fel bod modd ei gwblhau ar y porwyr gwe a'r dyfeisiau symudol mwyaf cyffredin. Bydd yn cydymffurfio â Safon Gwasanaeth Digidol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth. Er mwyn achub yn llawn ar alluoedd ar-lein, defnyddir swyddogaethau fel llwybro, dilysu ac arweiniad. Dylunnir ymarferoldeb ar-lein i leihau'r baich ar ymatebwyr a gwella ansawdd data.

4.42 Caiff ymatebwyr god mynediad unigryw mewn llythyr cyswllt (naill ai ar gyfer cartref neu unigolyn) a ddefnyddir ganddynt wrth gwblhau'r holiadur yn ddiogel ar lein. Bydd unrhyw un sy'n 16 oed a throsodd yn gallu gofyn am god (ar gyfer ffurflen i unigolion) neu ffurflen bapur i unigolion os byddant am ymateb yn breifat. Nid oes rhaid iddynt ddweud wrth ddeiliad y cartref eu bod wedi gwneud hyn.

4.43 Bydd SYG yn anelu at sicrhau bod y cwestiynau yn y fersiynau ar-lein a phapur yn darparu'r un data ymateb, gyda'r cwestiynau ar eu ffurf fwyaf priodol ar gyfer pob sianel. Bydd digon o le ar yr yr holiadur ar-lein ar gyfer cartrefi â nifer fawr iawn o unigolion.

## Papur

### Dosbarthu'r holiadur papur

4.44 Bydd holiaduron papur yn cael eu dosbarthu i'r cyhoedd dan yr amodau canlynol:

- fel y cyswllt cychwynnol mewn ardaloedd lle gall fod yn anodd cael ymateb ar lein
- pan ofynnir am hynny gan y cyhoedd, drwy'r sianeli cymorth cyhoeddus
- pan gânt eu cyflwyno ar garreg y drws gan staff maes
- pan gânt eu hanfon drwy'r post er mwyn atgoffa pobl sydd heb ymateb
- mewn rhai sefydliadau cymunedol

Gall unrhyw un sy'n 16 oed a throsodd ofyn am holiadur papur (i unigolion) ar wahân.

Bydd holiaduron papur i unigolion hefyd yn cael eu cwblhau gan rai preswylwyr mewn rhai mathau o sefydliadau cymunedol, lle mae'n well ganddynt hynny i fersiwn ar-lein.

Bydd holiaduron papur parhad ar gael (ar gais) ar gyfer cartrefi sydd â mwy o breswylwyr na'r hyn a ganiateir ar y prif holiadur, neu lle mae mwy na thri ymwelydd yn bresennol, ar ddyddiad y cyfrifiad.

Bydd pob holiadur papur a roddir i ymatebwyr yn cynnwys taflen esboniadol ac amlen barod er mwyn ei ddychwelyd drwy'r post.

# Sefydliadau cymunedol (SCau)

4.45 Rhaid i'r cyfrifiad adlewyrchu bywydau pobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol (fel gwestai, ysbytai, ysgolion preswyl, neu garchardai) yn ogystal â chartrefi. Bydd y dulliau o gyrraedd pobl o'r fath yn amrywio yn dibynnu ar faint y sefydliad a'r lefelau amrywiol o anhawster sydd ynghlwm wrth gysylltu â nhw a sicrhau bod preswylwyr yn cwblhau eu holiaduron. Mewn rhai mathau o SCau, cwblheir holiaduron papur i unigolion gan breswylwyr. Mewn rhai eraill gwneir trefniadau priodol yn dilyn cyswllt cychwynnol â'r awdurdod lleol neu asiantaeth reoli arall ynghylch faint o gymorth sydd ei angen, a'r dull mwyaf priodol o gwblhau holiaduron. Gwneir gwaith dilynol gyda SCau gan staff maes y cyfrifiad a fydd yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl.

4.46 Cyn y cyfrifiad, bydd staff maes y cyfrifiad yn cysylltu ag awdurdodau lleol a phrif swyddfeydd/asiantaethau eraill er mwyn eu hysbysu am y cyfrifiad a mynd ati i gysylltu â rheolwyr pob SC. Drwy wneud hyn nodir swyddog lleol priodol ar gyfer unrhyw gyswllt pellach a chadarnheir manylion y math o sefydliad, ei faint ac unrhyw gymorth arbennig sydd ei angen.

4.47 Mae gweithdrefnau cyfrif manwl, penodol ar gyfer SCau yn cael eu datblygu, gan gynnwys trefniadau arbennig ar gyfer dychwelyd holiaduron papur gan rai SCau.

# Rheoli ymatebion

4.48 Defnyddir system rheoli ymatebion er mwyn sbarduno'r broses o anfon gwahoddiadau i gymryd rhan a thracio statws dychwelyd holiaduron ar-lein a phapur. Bydd y system hon yn cynnwys cyfeiriad pob cartref a sefydliad cymunedol, a dynodwyr cysylltiedig yr holiaduron.

4.49 Bydd y system yn cofnodi pan fydd ymateb ar-lein neu bapur yn dod i law oddi wrth gyfeiriad fel na fydd yn cael unrhyw ohebiaeth bellach yn ceisio ymateb ganddo. Bydd y system rheoli ymatebion yn cadw hanes rhyngweithio cyfeiriad a bydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn targedu gohebiaeth atgoffa ac anfon staff maes i ardaloedd lle mae'r ymateb yn is na'r disgwyl.

4.50 Bydd y system rheoli ymatebion yn rhyngwynebu â gwasanaethau gweithredol er mwyn sicrhau bod ceisiadau am ddeunyddiau yn cael eu bodloni a bod ymatebwyr yn cael digon o gymorth i gwblhau eu holiaduron ar gyfer y cyfrifiad.

## Anfon llythyrau atgoffa

4.51 Yn ogystal ag ymweliadau gan staff maes, bydd gweithgareddau dilynol yn cael eu cynnal ar gyfer cyfeiriadau sydd heb ymateb. Disgwylir gweld llythyrau atgoffa wedi'u targedu yn cael eu cyflwyno ar dri cham, gyda'r olaf o'r rhain yn cynnwys holiaduron papur weithiau. Bydd y system rheoli ymatebion yn nodi'r cyfeiriadau sydd heb ymateb a, lle bo'n briodol o ran y cam a'r math o lythyr atgoffa sydd ei angen, fe'u trosglwyddir i ddarparwr y gwasanaeth argraffu er mwyn anfon yr ohebiaeth berthnasol.

4.52 Bu'r defnydd o lythyrau atgoffa gyda chartrefi oedd heb ymateb yn llwyddiannus yng Nghyfrifiad 2011 a Phrawf 2017.

# Gweithdrefnau cyfrif arbennig neu wedi'u haddasu

4.53 Ni fydd y strategaethau a ddatblygir i gyfrif cartrefi a sefydliadau cymunedol o reidrwydd yn briodol i bawb, a chydnabyddir y bydd yn rhaid mabwysiadu gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer rhai poblogaethau arbennig. Bydd y rhain yn cynnwys pobl heb breswylfa barhaol, fel y sawl sy'n teithio gyda ffeiriau. Gall gwaith dadansoddi pellach ac amodau cymdeithasol newidiol nodi poblogaethau newydd y bydd angen strategaethau cyfrif arbennig ar eu cyfer.

4.54 Ceir grwpiau eraill y gellir eu nodi, yn y boblogaeth, lle bydd angen defnyddio gweithdrefnau cyfrif wedi'u haddasu ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- y rheini na allant ddeall holiadur y cyfrifiad, fel y sawl nad ydynt yn siarad Saesneg (a'r rheini yng Nghymru nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg) a phobl ag anawsterau darllen
- y rheini sy'n debygol o'i chael hi'n anodd cwblhau neu ddychwelyd holiadur ar-lein/papur safonol, gan gynnwys pobl â nam ar y golwg neu ag anabledd corfforol
- y rhai sy'n gallu cwblhau'r cyfrifiad ar lein neu ar bapur ond sy'n amharod i wneud hynny

## Ymrwymiad i'r Gymraeg yng Nghymru

4.55 Awdurdod Ystadegau'r DU sy'n gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru. Mae SYG yn anelu at sicrhau bod modd i'r holiaduron gael eu cwblhau yn Gymraeg mor hawdd ag yw yn Saesneg. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holiaduron ar-lein a phapur, ynghyd ag unrhyw ohebiaeth allweddol arall, ar gael i'r cyhoedd. Bydd llinell gymorth Gymraeg ddynodedig ar gael, ynghyd â chyfleusterau cymorth ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.56 Mae ymrwymiad i recriwtio cyfran o siaradwyr Cymraeg ar gyfer y gweithlu maes (yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn uchel), a phenodir rheolwyr dwyieithog ar gyfer y cyfrifiad i oruchwylio'r gwaith cyfrif yng Nghymru.

4.57 Bydd SYG yn sicrhau bod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993[38], Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[39] a Rheoliadau[40] cysylltiedig yn cael eu bodloni drwy wneud trefniadau priodol ar gyfer gweithgareddau cyfrif, cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru.

4.58 Rhoddir manylion y trefniadau deddfwriaethol ar gyfer cynnal y cyfrifiad yng Nghymru ym Mhennod 7.

---

38 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents
39 https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents
40 http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12320

# Trefniadau i gefnogi gwaith casglu data

## Cyhoeddusrwydd

4.59 Byddai'n amhosibl cynnal cyfrifiad heb gydweithrediad y cyhoedd. Mae'n rhaid i bob cartref a phob preswylydd mewn sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr gwblhau cyfrifiad yn ôl y gyfraith. Mewn cydweithrediad agos â swyddfeydd y cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, bydd SYG yn cynnal ymgyrch gyfathrebu er mwyn annog deiliaid cartrefi i gwblhau eu holiadur. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gwybod pryd a sut i wneud hynny, a bydd yn egluro diben a gwerth y cyfrifiad, gan dawelu meddyliau ynghylch cyfrinachedd a diogelwch data. Bydd hyn yn cynnwys negeseuon am y gofyniad cyfreithiol i gwblhau'r cyfrifiad.

4.60 Nodau ymgyrch gyhoeddusrwydd y cyfrifiad ei hun yw gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r cyfrifiad a pham ei fod yn bwysig, ei gymell i gymryd rhan, a sicrhau y gellir cael gafael ar yr holl gymorth sydd ar gael, ac felly ddileu unrhyw rwystrau i'w gwblhau.

4.61 Mae SYG yn dylunio ei gweithgarwch yn seiliedig ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r gynulleidfa, a fydd yn ei helpu i benderfynu ar y negeseuon cywir, cyfryngau a thaith gwblhau i wahanol grwpiau. Bydd hyn yn helpu SYG i gynnal ymgyrch effeithiol ac effeithlon.

4.62 Bydd pob cartref yn derbyn gohebiaeth uniongyrchol gychwynnol, yn nodi bod angen iddo gwblhau holiadur y cyfrifiad ac yn darparu manylion ynghylch sut i gael gafael arno. Yn y rhan fwyaf o achosion gwneir hyn drwy ddefnyddio'r cod mynediad unigryw a roddir ar lein. Ategir hyn gan ddeunydd cyhoeddusrwydd wedi'i dargedu a rhagor o ohebiaeth atgoffa uniongyrchol, fel sydd ei hangen, wrth i ddyddiad y cyfrifiad agosáu. Bydd y ganolfan gyswllt, sy'n darparu llinell gymorth gyda dehonglwyr ieithoedd tramor, ar gael i ateb ymholiadau gan y cyhoedd wrth i'r cyfrifiad fynd rhagddo. Hefyd, bydd cynnwys cymorth ar gyfer y cyfrifiad ar gael ar lein yn ystod yr ymarfer a chyfnodau gweithredol y cyfrifiad.

4.63 Sail cydberthnasau da â'r cyhoedd fydd gwneud yn siŵr bod y staff maes yn cael eu briffio a'u hyfforddi i gynnig cymaint o gymorth â phosibl wrth ryngweithio â'r cyhoedd. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod y cyswllt â grwpiau cymunedol lleol yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen.

4.64 Bydd SYG yn parhau â'i rhaglen o roi gwybodaeth am y cyfrifiad i'r cyfryngau a defnyddwyr canlyniadau ystadegol drwy:

- wybodaeth reolaidd a phapurau ymgynghorol
- sioeau teithiol cenedlaethol
- cynadleddau a seminarau
- ei wasanaeth newyddion ar-lein rheolaidd ei hun, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau uniongyrchol

4.65 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gefnogi ymgyrch gyhoeddusrwydd y cyfrifiad drwy rannu deunyddiau yn rheolaidd, mynychu digwyddiadau ar y cyd yng Nghymru, a rhannu ei deunydd ei hun drwy wefannau, blogiau a chyfryngau cymdeithasol.

4.66 Bydd modd i'r holiadur ar gyfer Cymru gael ei gwblhau yn Gymraeg neu Saesneg (ar lein ac ar bapur). Bydd y deunyddiau sy'n cefnogi'r broses o gwblhau'r holiadur ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

4.67 Gan ei bod yn orfodol cwblhau'r cyfrifiad, bydd cyfieithiadau o ganllawiau'r cyfrifiad mewn ystod eang o ieithoedd tramor hefyd ar gael ar lein er mwyn helpu ymatebwyr nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, lle mae'n hanfodol er mwyn iddynt gwblhau'r cyfrifiad.

## Cymorth cyhoeddus

4.68 Er mwyn derbyn cynifer o ymatebion â phosibl, bydd y cyfrifiad yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau fel bod pob ymatebydd yn cael help a chymorth.

### Gwasanaeth cymorth digidol

4.69 Rhoddir cymorth wyneb yn wyneb i'r rhai sydd am gwblhau'r cyfrifiad ar lein. Mae SYG yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ar ddyfeisiau sy'n gallu cysylltu â'r we mewn lleoliad hygyrch, gan bara rhwng pump ac ugain munud fesul unigolyn. Defnyddir amrywiaeth o gyflenwyr dibynadwy sydd â'r staff, yr eiddo a'r dechnoleg i gynnig yr help cymorth digidol hwn sydd ei angen ar ymatebwyr i ddarparu'r cymorth hwn. Bydd pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaeth cymorth digidol yn cael hyfforddiant, arweiniad a deunyddiau gan SYG. Yn ogystal â defnyddio cyflenwyr, bydd cymorth digidol hefyd yn cael ei ddarparu drwy ddigwyddiadau cwblhau (gan gynnwys, o bosibl, er enghraifft, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus).

### Cymorth arall

4.70 Darperir cymorth ar lein i'r rhai sy'n dewis ei ddefnyddio, ynghyd â chanolfan gyswllt a fydd yn rhoi arweiniad a chymorth drwy wasanaethau dros y ffôn a gwasanaethau digidol fel sgwrsio ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol.

4.71 Caiff lefelau hygyrchedd eu gwella ymhellach drwy ddarparu holiadur y cyfrifiad a chanllawiau ar y cwestiynau mewn Braille ac Iaith Arwyddion Prydain. Lle bo'n hanfodol helpu pobl i gwblhau'r cyfrifiad gorfodol, bydd SYG yn darparu deunyddiau ategol mewn ieithoedd tramor priodol. Yn 2011, cafodd deunyddiau eu darparu mewn mwy na 50 o ieithoedd tramor. Mae SYG yn ystyried pa ddeunyddiau fydd yn hanfodol y tro hwn.

## Cyswllt ag awdurdodau lleol a chymunedau

4.72 Un o'r heriau mwyaf i'w goresgyn yng Nghyfrifiad 2021 fydd cyrraedd grwpiau o'r boblogaeth sydd wedi'u tangyfrif yn draddodiadol. Mae ymchwil i'r mathau o bobl a fethwyd yng Nghyfrifiad 2011, proffiliau demograffig newidiol ers 2011, ac effaith symud i gyfrifiad ar lein yn gyntaf yn helpu i lywio'r math o fentrau sydd eu hangen. Mae rhaglen Cyfrifiad 2021 yn adeiladu ar lwyddiant a phrofiad gwerthfawr Cyfrifiad 2011 er mwyn rhoi cryn bwyslais ar gydweithredu ag awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol unwaith yn rhagor.

### Cyswllt ag awdurdodau lleol

4.73 Y partneriaid gorau i weithio gyda SYG er mwyn sicrhau'r cwmpas mwyaf posibl yw awdurdodau lleol, y mae'r ffaith bod angen gwybodaeth leol ddibynadwy arnynt yn rhoi cymhelliant cryf iddynt helpu i nodi a chyrraedd poblogaethau lleol sy'n anodd eu cyrraedd. Drwy gynnwys awdurdodau lleol yn y gwaith o ddatblygu dyluniad y cyfrifiad, mewn ffordd gadarnhaol, a'u hannog i hyrwyddo buddiannau'r cyfrifiad yn eu hardaloedd, mae SYG yn anelu at wella cwmpas. Nod mentrau o'r fath yw galluogi SYG i dargedu adnoddau a gweithgareddau er mwyn gwella'r ymateb mewn ardaloedd lle gwyddys bod y nodweddion sy'n gysylltiedig â chwmpas gwael.

4.74 Mae SYG yn dymuno gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, gan adeiladu ar eu hadnoddau a'u gwybodaeth am eu hardaloedd lleol er mwyn gwella'r broses gyfrif, a bydd awdurdodau lleol yn eu tro yn cael budd o ganlyniadau gwell o'r cyfrifiad. Ymhlith y meysydd lle mae angen gweithio mewn partneriaeth mae:

- datblygu cofrestr cyfeiriadau, er mwyn sicrhau'r cwmpas mwyaf posibl
- darparu gwybodaeth gyfrif, er mwyn nodi a thargedu heriau lleol
- nodi cysylltiadau cymunedol

- helpu i recriwtio staff maes
- cymorth digidol ac ar-lein
- cefnogi cyswllt â'r cyfryngau a chyhoeddusrwydd lleol
- darparu cymorth ymarferol ar gyfer gwaith maes (er enghraifft ystafelloedd cyfarfod, trwyddedau parcio)
- darparu data lleol er mwyn helpu i sicrhau ansawdd
- cynyddu'r defnydd o ddata'r cyfrifiad a chefnogi'r defnydd o allbynnau'r cyfrifiad yn eu cymunedau

4.75 Mae'n bwysig bod SYG yn cael cefnogaeth awdurdodau lleol i'r strategaeth gyfrif ar gyfer y cyfrifiad, yn enwedig ar lefel y prif weithredwr, a bod SYG yn deall unrhyw heriau wrth gynhyrchu'r canlyniadau sydd eu hangen arnynt. Bydd SYG yn annog awdurdodau lleol i benodi rheolwyr cyswllt ffurfiol y cyfrifiad i weithredu fel hyrwyddwyr y cyfrifiad o fewn yr awdurdodau ac i weithio gyda rheolwyr maes SYG.

4.76 Hefyd cydweithir ag awdurdodau lleol drwy wahanol gyrff arweiniol fel y Gymdeithas Llywodraeth Leol, yn ogystal â chyswllt ag awdurdodau lleol unigol (a grwpiau ohonynt). Caiff awdurdodau lleol eu cynrychioli ar Grwpiau Cynghori Cyfrifiad SYG, sy'n cyfarfod yng Nghymru a Lloegr. Mae Grŵp Rheoli Gweithredol Awdurdodau Lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr o SYG ac awdurdodau lleol, yn darparu cyngor ac yn cyfrannu at ddatblygu gweithrediad y cyfrifiad. Er bod pob math o ardal yn cael ei gynrychioli, canolbwyntir ar ardaloedd sy'n debygol o fod yn fwy heriol i'w cyfrif (er enghraifft canol dinasoedd a threfi arfordirol mawr).

4.77 Mae SYG yn cydnabod y bydd gan gymunedau wahanol anghenion, ac mae wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr drwy ddigwyddiadau ffurfiol, cyfarfodydd a Grwpiau Cynghori'r Cyfrifiad.

### Cyswllt â'r gymuned

4.78 Bydd SYG yn adeiladu ar lwyddiant y gwaith cyswllt arloesol â'r gymuned a wnaed ar gyfer Cyfrifiad 2011. Amcan y gwaith hwn yw gwella cwmpas cymunedau lle gall SYG ei chael hi'n anodd cael ymateb. Yn gyffredinol, gwneir cyswllt ar ddwy lefel – cenedlaethol a lleol.

4.79 Mae rhaglen y cyfrifiad yn ymgysylltu â grwpiau cenedlaethol yn rheolaidd. Mae Grŵp Cynghori ar Amrywiaeth y Cyfrifiad yn darparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar gyswllt â chymunedau a sefydliadau lleol. Mae SYG wedi sefydlu, ac yn parhau i sefydlu, gysylltiadau dwyochrog â sefydliadau a grwpiau mantell sy'n cynrychioli lleiafrifoedd a grwpiau buddiant arbennig.

4.80 Wrth i'r cyfrifiad agosáu, bydd yr ymgysylltu yn cynyddu i gynnwys grwpiau lleol. Bydd y rhain yn ganghennau lleol o grwpiau cenedlaethol, yn ogystal â bod ar lefel llawr gwlad. Gwneir y gwaith cyswllt hwn gan staff maes lleol (rheolwr ymgysylltu ardal a staff cyswllt â'r gymuned) a gyflogir o haf 2020. Byddant yn cynnwys staff sydd wedi cael eu recriwtio'n arbennig i gynrychioli'r cymunedau a fydd angen y cymorth mwyaf. Blaenoriaethau ymgysylltu â'r gymuned leol fydd:

- annog pobl i gymryd rhan yn y cyfrifiad drwy hyrwyddo'r cyfrifiad a thanlinellu ei ddefnydd a'i werth
- helpu i ddarparu ffynhonnell bosibl o staff maes
- darparu cymorth ac arweiniad i gymunedau lleol ac aelodau unigol o'r cyhoedd (er enghraifft drwy gefnogi digwyddiadau cwblhau holiadur)
- rhoi gwybodaeth, arweiniad a chymorth i staff maes ar lefel ardal leol

# Ymdrin â'r ffurflenni papur

4.81 Caiff holiaduron papur eu derbynebu a'u dychwelyd yn uniongyrchol i'r cyfleuster cadw holiaduron lle caiff y wybodaeth a roddwyd gan ymatebwyr ei digideiddio cyn cael ei throsglwyddo i SYG i'w phrosesu ymhellach.

4.82 Pan fydd yr holl wybodaeth wedi dod i law SYG a chael ei derbyn ganddi, caiff holiaduron papur eu dinistrio yn unol â chanllawiau diogelwch y llywodraeth, gan fodloni'r gofyniad penodol o ran diogelu gwybodaeth y cyfrifiad a dilyn polisïau ailgylchu. Bydd yr holl systemau a chyfryngau storio yn cael eu dileu'n ddiogel yn unol â safonau diogelwch y llywodraeth. Rhoddir mwy o wybodaeth am y ffordd mae SYG yn ymdrin â diogelwch ym Mhennod 6.

# Gorfodi'r gofyniad cyfreithiol i gwblhau holiadur y cyfrifiad

4.83 Mae'r ffaith bod y cyfrifiad yn anelu at gwmpasu'r boblogaeth gyfan, yn ddieithriad, yn rhoi gwerth penodol iddo o gymharu ag arolygon sampl cymdeithasol gwirfoddol. Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd cael ymateb gan bob cartref, cred Awdurdod Ystadegau'r DU fod angen parhau i fabwysiadu polisi clir o ran erlyn y sawl nad ydynt yn ymateb sy'n gwrthod dychwelyd ffurflen y cyfrifiad, naill ai ar lein neu ar bapur.

4.84 Ym mhob achos, sut bynnag y caiff ffurflen y cyfrifiad ei chwblhau, ni fydd y rhwymedigaeth statudol i ddychwelyd ffurflen wedi'i chyflawni nes i holiadur wedi'i gwblhau ddod i law swyddfa'r cyfrifiad neu staff maes lleol. Bydd y bobl sy'n gorfod bodloni'r gofyniad statudol i ddychwelyd ffurflen

ar gyfer pob math o holiadur yn cael eu nodi yn yr is-ddeddfwriaeth. Caiff unrhyw un sy'n gwrthod cydymffurfio â'r gofyniad statudol ei annog a'i gynorthwyo i wneud hynny, ond os bydd yn parhau i wrthod, gall wynebu achos cyfreithiol. Gall hyn gynnwys cael ei erlyn, gan arwain o bosibl at ddirwy (£1,000 yw'r uchafswm ar hyn o bryd) a chofnod troseddol.

4.85 Bydd y system rheoli ymatebion yn galluogi SYG i fonitro pwy sy'n cwblhau holiadur a bydd yn darparu tystiolaeth gadarn o fethiant i ddychwelyd ffurflen. Bydd SYG yn gallu monitro pob ffurflen a gyflwynir ar lein a bydd ganddi dystiolaeth os bydd unrhyw anghytuno ynghylch p'un a gwblhawyd holiadur penodol ai peidio. Lle defnyddir holiaduron papur, gall deiliaid cartrefi honni, yn gwbl ddilys neu fel arall, fod holiadur wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd yn y post. Os na fydd unrhyw gofnod o wneud hyn, anfonir holiadur newydd yn ei le, ac ymwelir â'r cartref er mwyn helpu i gwblhau'r holiadur.

4.86 Bydd SYG yn parhau i ddefnyddio staff maes sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig er mwyn cynnal cyfweliadau ffurfiol dan rybudd fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)[41]. Gwnaed hyn yn llwyddiannus yng Nghyfrifiad 2011 lle cafwyd achosion lle'r oedd yn amlwg bod deiliad y cartref yn gwrthod cwblhau holiadur. Cynhaliwyd tua 12,000 o ymweliadau gan staff maes diffyg cydymffurfio a, lle gwnaed cyswllt, arweiniodd dros ddwy ran o dair at gwblhau holiadur. Lle parhaodd achosion at y cam erlyn, casglwyd tystiolaeth a oedd yn ddigon cadarn i fodloni'r llys.

4.87 Newid arall a gyflwynwyd yng Nghyfrifiad 2011 oedd y defnydd o Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn penderfynu ar erlyniadau a'u cynnal. Gwnaeth tîm diffyg cydymffurfio'r cyfrifiad weithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llundain, a swyddfeydd rhanbarthol, ynghylch proses y llys a lleoliad llysoedd dynodedig ledled Cymru a Lloegr lle byddai erlyniadau yn cael eu gwrando. Mae SYG yn bwriadu adeiladu ar y trefniadau llwyddiannus hyn yn 2021.

## Cwmpas ac ansawdd y data

4.88 Bydd pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y cyfrifiad os cânt eu darbwyllo y bydd o fudd iddynt. Mae ansawdd wrth wraidd y gwaith o gynllunio'r cyfrifiad, ac mae a wnelo llawer o'r camau arloesol arfaethedig a gafodd eu treialu ym mhrawf y cyfrifiad yn 2017 â gwella ansawdd prosesau casglu data ac felly'r data. Mae cyfrifiad, yn ôl ei natur, wedi'i gynllunio i gwmpasu'r boblogaeth gyfan, ond yn anochel mae anawsterau yn hyn o beth.

---

41 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/60/contents

Bydd dyluniad cyfrifiad da yn cydnabod hyn. Er enghraifft, gall y gofrestr cyfeiriadau - ni waeth pa mor gyfredol ydyw - fethu â chofnodi'r holl eiddo preswyl mewn ardal ar adeg y cyfrifiad, gall staff maes fethu â nodi pob cartref mewn eiddo amlddeiliadaeth, efallai na chaiff pob aelod o gartref a gofnodwyd ei gynnwys, a gall fod gwallau system neu brosesu hefyd.

4.89 Mae'r gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer y cyfrifiad yn 2021 wedi'u dylunio i leihau effaith unrhyw wallau posibl, er enghraifft:

- creu un gofrestr cyfeiriadau gyfredol sy'n cwmpasu cartrefi a sefydliadau cymunedol, ynghyd â system rheoli ymatebion sy'n gweithredu mewn amser real, er mwyn sicrhau bod codau mynediad unigryw neu holiaduron yn cael eu dosbarthu i bob cyfeiriad preswyl, bod ffurflenni yn cael eu dychwelyd neu eu casglu oddi wrth bob cyfeiriad preswyl, a bod y gwaith o fonitro cyfraddau dychwelyd yn digwydd mewn amser real
- casglu gwybodaeth gwaith maes electronig gyfredol er mwyn helpu i reoli'r gweithrediad o'r pencadlys, a chefnogi rheolwyr ardal a chydlynwyr i reoli gwaith eu timau
- defnyddio cyfesurynnau cyfeiriadau er mwyn helpu staff maes i ddod o hyd i gyfeiriadau ar gyfer ymweliadau dilynol
- defnyddio holiadur electronig er mwyn ei gwneud hi'n haws i ymatebwyr gwblhau'r holiadur a'r lefel uwch o ymatebion a geir drwy'r cyfrwng hwn er mwyn ei gwneud hi'n haws i SYG brosesu'r data
- dylai'r defnydd o holiadur electronig arwain at lefelau llawer is o ddiffyg ymateb i gwestiynau penodol ar y ffurflenni papur (fel y gwelwyd yng Nghyfrifiad 2011 a Phrawf 2017)
- canolbwyntio ar y dull mwyaf costeffeithiol o fynd ar drywydd achosion o ddiffyg ymateb er mwyn gwella'r cwmpas cyffredinol – drwy waith marchnata wedi'i dargedu, cyswllt â'r gymuned, llythyrau atgoffa a gwella'r broses o ddyrannu staff maes mewn ardaloedd neu mewn grwpiau lle mae'r ymateb yn is

4.90 Yn 2011, roedd tangwmpas amcangyfrifedig ymatebion y cyfrifiad (6% yng Nghymru a Lloegr, a oedd yn debyg i 2001) yn fach o gymharu ag arolygon cenedlaethol eraill y llywodraeth. Fodd bynnag, mae patrwm o ran diffyg ymateb cynyddol mewn arolygon yn gyffredinol a bydd yn heriol cyflawni canlyniad tebyg yn 2021.

4.91 Nid dim ond y gyfradd ymateb gyffredinol sy'n peri pryder. Rhan allweddol o ansawdd y data yw y dylent gwmpasu pob grŵp o'r boblogaeth a'r holl ardal ddaearyddol yn ddigonol. Un o welliannau ansawdd 2011 oedd lleihau'r amrywiad yn y gyfradd ymateb ar draws gwahanol rannau o'r wlad o gymharu â Chyfrifiad 2001, drwy ddefnyddio'r dull anos eu cyrraedd

er mwyn blaenoriaethu ardaloedd i wneud gwaith dilynol ynddynt. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn 2021 drwy'r defnydd o wybodaeth fwy cyfredol er mwyn rheoli'r gweithrediad a sicrhau bod y cymorth a roddir yn canolbwyntio ar grwpiau o'r boblogaeth ac ardaloedd daearyddol sydd angen mwy o gymorth.

## Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad

4.92 Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad fydd y brif ffynhonnell wybodaeth am raddau a dosbarthiad tangyfrif yn y cyfrifiad. Bydd sampl yr Arolwg tua 1.5% o'r codau post yng Nghymru a Lloegr. Efallai na fydd gan y sampl ffracsiynau samplu cyfartal, gyda ffracsiynau samplu uwch yn yr ardaloedd â'r ymateb isaf i'r cyfrifiad.

4.93 Bydd yn arolwg sampl ar wahân y bwriedir ei gynnal dros gyfnod o bedair wythnos gan ddechrau chwe wythnos ar ôl y cyfrifiad ei hun. Bydd ar ffurf cyfweliad byr, ac yn 2021 mae SYG yn bwriadu ei gasglu'n ddigidol. Bydd y gweithlu maes o tua 4,600 o gyfwelwyr ACC carreg y drws yn cynnal proses annibynnol o gyfrif cartrefi ac unigolion o fewn cartrefi yn ardaloedd sampl yr ACC er mwyn casglu nodweddion demograffig sylfaenol (fel oedran, rhyw, statws priodasol, grŵp ethnig a gweithgarwch economaidd).

4.94 Bydd y wybodaeth sy'n deillio o'r arolwg yn cael ei pharu (neu ei chysylltu) â data'r cyfrifiad ei hun, ac o bosibl â data gweinyddol. Bydd hyn yn helpu i gynhyrchu set gyson o amcangyfrifon seiliedig ar y cyfrifiad, a fydd yn ffurfio sail newydd i'r gyfres barhaus o ystadegau o'r boblogaeth a mudo ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd ar ôl 2021 (gweler Pennod 5 am fanylion ynghylch prosesu data'r cyfrifiad).

4.95 Bydd SYG yn ymgynghori â defnyddwyr ac yn eu hysbysu ynghylch y dulliau gweithredu methodolegol a fabwysiedir ar gyfer ACC, a bydd yn asesu ac yn adrodd ar ansawdd y data a gynhyrchir.

4.96 Bydd gan y gweithlu maes strwythur tebyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad, gyda staff yn cael eu cyflogi am hyd at dri mis o fis Mawrth 2021. Bydd y gwaith o gyfrifo niferoedd staff maes terfynol yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys:

- tybiaethau ynghylch y cyfraddau ymateb
- nifer yr ymweliadau i'w cynnal, llwyddiant cyswllt a'r amser fesul ymweliad
- nodi poblogaethau anos eu cyrraedd
- effaith llythyrau atgoffa/ar-lein
- hyd y cyfnod gweithredol
- lleoliad daearyddol (er enghraifft p'un a yw'r ardal yn un drefol neu wledig)

## Arolwg Ansawdd y Cyfrifiad

4.97 Bydd Arolwg Ansawdd y Cyfrifiad yn arolwg gwirfoddol bach ar wahân a gynhelir ar ôl i'r cyfrifiad amcangyfrif lefel y gwallau gan ymatebwyr fel dangosydd ansawdd. Ei nod yw mesur cywirdeb yr atebion a roddir i gwestiynau'r cyfrifiad drwy ofyn cwestiynau'r cyfrifiad i sampl o gartrefi. Drwy gymharu'r ymatebion a roddir yn yr AAC â'r rhai a roddir yn y cyfrifiad, cyfrifir cyfraddau cytuno, a fydd yn rhoi syniad o ba mor gywir y cafodd holiadur y cyfrifiad ei gwblhau gan y cyhoedd.

4.98 Bydd yr AAC yn cael ei gynnal yn annibynnol ar Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad (ACC). Mae'n wahanol i'r ACC am nad yw'n ceisio mesur sawl person nas cyfrifwyd gan y cyfrifiad ond yn hytrach ansawdd eu hymatebion.

4.99 Ynghyd â gwybodaeth ansawdd arall a gyhoeddir am Gyfrifiad 2021, bwriedir i ganlyniadau'r AAC helpu defnyddwyr i ddeall cryfderau a chyfyngiadau data'r cyfrifiad a sut i ddefnyddio'r data hynny mewn ffordd briodol.

## Mesurau ansawdd a gyhoeddir gyda chanlyniadau

4.100 Mae SYG yn bwriadu cynhyrchu a chyhoeddi mesurau ansawdd ochr yn ochr â chanlyniadau'r cyfrifiad er mwyn rhoi arweiniad i ddefnyddwyr ar ddibynadwyedd y canlyniadau. Bydd y rhain yn cynnwys cyfraddau ymateb, cyfraddau priodoli eitemau a chyfyngau hyder.

# Gweithio gyda phartneriaid allanol i gynnal y cyfrifiad

4.101 Bydd SYG yn gweithio gyda chyflenwyr allanol er mwyn cynnal rhai o'r gweithgareddau sydd eu hangen er mwyn cynnal y cyfrifiad. Nid yw hyn yn beth newydd, gan fod SYG wedi defnyddio gwasanaethau staff nad ydynt yn barhaol i gynnal rhannau o'r cyfrifiad mewn cyfrifiadau blaenorol.

4.102 Y prif wahaniaeth rhwng yr hyn a wnaed ar gyfer Cyfrifiad 2011 a'r hyn a gynigir ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw y bydd mwy o'r gweithgareddau casglu a phrosesu digidol yn cael eu cynnal gan ddefnyddio gallu mewnol SYG. Mae hyn yn gyson ag amcanion Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â datblygu a gwella gallu SYG yn y dyfodol (gweler Pennod 9). Mae hefyd yn unol â pholisi'r llywodraeth i adrannau sicrhau nad yw contractau sy'n gysylltiedig â phrosiectau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cymhleth yn werth mwy na £100 miliwn.

4.103 Yn unol ag egwyddorion y llywodraeth, gwahaniaeth arall rhwng yr hyn a wnaed ar gyfer Cyfrifiad 2011 a chynlluniau Cyfrifiad 2021 yw'r defnydd o gadwyn gyflenwi ar wahân er mwyn cyflawni'r elfennau sydd ar gontract allanol. Yn 2011, cafodd dau brif gyflenwr[42] eu penodi i ddarparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar gontract allanol. Ar gyfer Cyfrifiad 2021, bydd SYG yn dyfarnu sawl contract, a bydd pob un yn werth llai yn unigol. Bydd hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig chwarae rhan yn y gwaith o gynnal y cyfrifiad.

4.104 Bydd pob cyflenwr yn cael ei benodi gan SYG mewn da bryd er mwyn ei alluogi i gynnal Ymarfer 2019 (a Chyfrifiad 2021 wedyn), gan ei alluogi i ddysgu o Ymarfer 2019 a pharatoi'n well ar gyfer cynnal y gweithrediad byw yn 2021.

4.105 Y prif elfennau a gyflawnir gan bartneriaid allanol yw:

- recriwtio, talu a hyfforddi staff maes SYG
- rheoli'r holiaduron papur (argraffu/anfon drwy'r post/cofnodi/codio)
- argraffu ac anfon drwy'r post (llythyrau cyswllt/atgoffa a deunyddiau atodol)
- dychwelyd holiaduron papur sydd wedi'u cwblhau
- darparu canolfan gyswllt sy'n wynebu'r cyhoedd
- cyflenwadau, logisteg ac ailgyflenwadau staff maes
- dyfeisiau gweithredol maes
- cymorth digidol
- marchnata a chyfathrebu
- prynu'r cyfryngau
- gwasanaethau cyfieithu ar gyfer y Gymraeg ac ieithoedd eraill

42 Un ar gyfer 'Recriwtio Talu a Hyfforddi Staff Maes SYG', a'r llall ar gyfer 'Rheoli'r Broses o Gasglu Data'

# 5

# 5 Prosesu, dadansoddi a chynhyrchu cynnyrch

## Cyflwyniad

5.1 Mae'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth amhrisiadwy a chywir am y boblogaeth ym mhob cymuned, gan gynnwys dealltwriaeth o'r cartrefi lle maent yn byw, a'u nodweddion. Mae SYG yn ymrwymedig i sicrhau ansawdd canlyniadau, a bod modd cael gafael ar y canlyniadau'n hawdd, eu bod ar gael mewn amrywiaeth o gyfryngau, a'u bod yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Mae SYG yn bwriadu cynhyrchu a chyhoeddi canlyniadau o Gyfrifiad 2021 yn gyflymach nag a wnaed yn y gorffennol drwy wneud defnydd llawn ac effeithiol o ddatblygiadau technolegol. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau sy'n gysylltiedig â chwblhau holiaduron y cyfrifiad ar lein. Bydd y datblygiadau hyn yn cael eu hategu gan drefniadau rhyddhau newydd a fydd yn cynnwys system ledaenu ar y we i ddefnyddwyr.

5.2 Gwelir buddiannau'r cyfrifiad pan fo'r llywodraeth, y sector masnachol, elusennau, cymunedau ac eraill yn defnyddio gwybodaeth y cyfrifiad i wneud gwell penderfyniadau nag y gallent hebddi. Nodir y buddiannau ym Mhennod 9.

5.3 Mae'r canlyniadau yn bwysig i ystod eang o wneuthurwyr penderfyniadau, er enghraifft mewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, er mwyn eu helpu i adeiladu gwell gwasanaethau, cysylltiadau trafnidiaeth, ysgolion, ysbytai, gofal cymdeithasol i oedolion a thai. Ar yr un pryd, bydd y canlyniadau yn galluogi'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i fynd i'r afael ag annhegwch ac anghydraddoldeb mewn cymdeithas, gan roi sylw arbennig i'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

5.4 Nodir rhai o ddefnyddiau canlyniadau Cyfrifiad 2011 isod.

Adroddiad 'Hidden from View' **The Children's Society** er mwyn datgelu'r effaith ar ofalwyr ifanc. Mae'r adroddiad yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar blant â chyfrifoldebau gofalu a'u heffaith ar eu bywydau o iechyd i gyflawniadau addysgol.

Mae **Gwasanaeth Tân Llundain** yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ei helpu i ganfod a helpu'r rhannau o'r gymuned sy'n wynebu'r risg fwyaf o dân. Am ei fod yn gwybod, er enghraifft, fod ardaloedd â mwy o hen bobl yn wynebu mwy o risg o anaf neu farwolaeth oherwydd tân, gall ddefnyddio data'r cyfrifiad i nodi'r ardaloedd hyn. Mae'n cyfuno tystiolaeth ystadegol

y cyfrifiad â gwybodaeth fanwl am gymuned ei ddiffoddwyr tân er mwyn lleihau nifer y tanau yn Llundain bob blwyddyn. Heb ddata'r cyfrifiad, ni fyddai'n gallu modelu ei raglen mewn ffordd mor effeithiol.

Mae'r **Heddlu Metropolitanaidd** yn defnyddio'r data er mwyn penderfynu ble i ganolbwyntio ar atal troseddau drwy fapio ardaloedd lle gellir cyflawni nifer fawr o droseddau. Er enghraifft, mae ystadegau ar oedran a thai yn dangos ble mae pocedi o bobl dros 65 oed yn byw. Cafwyd sawl achos lle'r oedd byrgleriaid yn twyllo'r henoed i'w gadael i mewn gan honni eu bod yn gweithio i gwmnïau dŵr neu drydan. Gwnaeth ymdrechion penodol i atal troseddau leihau nifer y digwyddiadau hyn.

Gwnaeth llawer o'r 22 o **Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru** gryn ddefnydd o ddata'r cyfrifiad ar gyfer eu hardaloedd wrth ddatblygu'r asesiadau llesiant lleol oedd yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae **grwpiau cymunedol, grwpiau buddiant arbennig** ac **elusennau** yn defnyddio'r data er mwyn cryfhau ceisiadau am gyllid. Mae'r ystadegau sy'n cael eu cynhyrchu gan y cyfrifiad yn darparu data credadwy, ffeithiol, cydnabyddedig i'w defnyddio at ddibenion ceisiadau grant, ymhlith eraill. Pan fo angen cyllid allanol, gallant hefyd ddarparu'r hyder i alluogi partneriaid ac asiantaethau eraill i gefnogi ceisiadau am gyllid.

5.5 Cafodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 eu defnyddio gan y sector masnachol hefyd. Rhoddir enghreifftiau isod:

- mae'r diwydiant manwerthu yn defnyddio data ardal fach y cyfrifiad yn helaeth er mwyn sicrhau'r elw mwyaf
- mae'r prif gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio data'r cyfrifiad wrth gynllunio buddsoddiadau newydd a monitro gollyngiadau
- mae'r sectorau yswiriant bywyd, bancio a rheoli ac ymgynghori yn defnyddio data'r cyfrifiad yn helaeth wrth gynllunio eu gweithgareddau

5.6 Daeth yr asesiad o fuddiannau Cyfrifiad 2011 i'r casgliad bod buddiannau mesuradwy Cyfrifiad 2011 oddeutu £500 miliwn y flwyddyn. Ond mae rhai buddiannau sy'n anodd eu mesur. Yn eu plith mae budd gwybodaeth am ethnigrwydd neu grefydd i gymdeithas, sy'n helpu'r llywodraeth i gyflwyno polisïau i gefnogi cydlyniant cymdeithasol. Maent hefyd yn cynnwys defnydd llywodraeth ganolog o ffigurau poblogaeth i nodweddu ystadegau niferus a fynegir fel cyfraddau, er enghraifft, y gyfradd ddiweithdra, y gyfradd marwolaethau neu'r gyfradd ar gyfer nifer y merched yn eu harddegau sy'n beichiogi. Disgwylir i fuddiannau Cyfrifiad 2021 fod oddeutu pum gwaith cost Achos Busnes Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad (rhoddir mwy o fanylion ym Mhennod 9).

5.7 Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw un o’r buddiannau hyn yn cael eu gwireddu os na fyddai’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau yn sicr o ansawdd a chywirdeb y data hyn wrth wneud penderfyniadau. Felly, mae gwaith dylunio ystadegol, sicrhau ansawdd a dilysu gofalus wrth wraidd pob cam ar y broses o gasglu, prosesu a dadansoddi data.

# Prosesu a dadansoddi

5.8 Ar ôl casglu gwybodaeth drwy ffurflenni ar-lein a holiaduron papur, bydd y wybodaeth a roddwyd gan ymatebwyr yn cael ei phrosesu ac yn destun proses sicrhau ansawdd. Bydd hyn yn galluogi SYG i ddwyn ynghyd set o gofnodion a all gael ei defnyddio i gynhyrchu allbynnau’r cyfrifiad.

## Sicrhau ansawdd

5.9 Fel rhan o’r gwaith prosesu, bydd y gwaith gwirio a wneir yn sicrhau’r canlynol:

- bod newidiadau a wneir o fewn pob proses yn gadarn ac nad ydynt yn cyflwyno gwall systematig
- bod yr amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol (yn arbennig, awdurdodau lleol) yn gredadwy o gymharu â data o ffynonellau gweinyddol a chymharwyr demograffig ac â gwaith dadansoddi demograffig. Gall cymariaethau o’r fath ofyn am gynnal adolygiadau ychwanegol

Bydd SYG yn cyhoeddi gwybodaeth am ansawdd canlyniadau’r data, i gyd-fynd â’r broses o ryddhau’r prif allbynnau ystadegol a’i hategu.

5.10 Mae SYG yn cydnabod pwysigrwydd adeiladu ar brofiad Cyfrifiad 2011 a’r gwersi a ddysgwyd ohono er mwyn sicrhau bod ansawdd y cyfrifiad yn cael ei gynnal a’i wella, er bod cyflwyno cynnwys newydd yn peri heriau newydd. O ganlyniad, bydd y mesurau mae SYG yn eu rhoi ar waith yn cynnwys:

- pennu nodau a safonau dylunio ar draws prosesau allweddol er mwyn ymgorffori ansawdd yn y dyluniad
- ymgysylltu rheolaidd ac agored â defnyddwyr er mwyn helpu i wella dulliau a phrosesau, gan feithrin hyder defnyddwyr mewn canlyniadau
- adeiladu ar y dulliau ystadegol a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2011 ac archwilio dulliau newydd a allai wella cywirdeb ystadegol data’r cyfrifiad

- cynnal lefel uchel o dryloywder a bod yn agored o ran dulliau a phrosesau sicrhau ansawdd, drwy gynnwys arbenigwyr o SYG a'r tu allan i raglen y cyfrifiad er mwyn darparu sicrwydd y bydd dulliau a phrosesau yn esgor ar ganlyniadau cadarn
- adeiladu ar y defnydd o'r paneli sicrhau ansawdd a gyflwynwyd fel rhan o Gyfrifiad 2001 er mwyn herio, craffu ac ardystio amcangyfrifon y cyfrifiad
- nodi dulliau newydd a allai wella'r broses o sicrhau ansawdd canlyniadau'r cyfrifiad fel technegau gwyddor data ac adnoddau delweddu data
- ystyried ffyrdd posibl o ddefnyddio gwybodaeth flaenorol y cyfrifiad er mwyn edrych ar newidiadau dros amser sy'n tanlinellu allanolynnau arwyddocaol ac anghredadwy, yn enwedig ar gyfer ardaloedd bach
- y defnydd priodol o ddata gweinyddol er mwyn gwella ansawdd y data a chynyddu gwerth allbynnau SYG

## Camau prosesu

5.11 Mae gwaith prosesu a dadansoddi yn cynnwys nifer o gamau, a grynhoir isod.

5.12 **Llwyth data** – Bydd ymatebion ar-lein yn cael eu cyfuno â data sy'n cael eu sganio a'u cofnodi o'r holiaduron papur a gwybodaeth arall sydd ei hangen at ddibenion prosesu. Yn ystod y gweithrediad maes bydd y data hyn yn cael eu defnyddio i dracio'r cartrefi sydd wedi cwblhau'r holiadur.

5.13 **Golygu a dilysu** – Mae'r prosesau hyn wedi eu dylunio i ddelio â gwallau systematig diofal neu anghysondebau yn yr atebion a roddir gan ymatebwyr, er enghraifft datrys sawl ymateb gan yr un cartref. Mae'r broses hon yn tynnu sylw at unrhyw ymatebion annilys, anghyson neu sydd ar goll (er enghraifft pan nad yw ymatebydd yn ateb cwestiwn ar ei ffurflen, neu'n nodi ei fod yn bedair oed ac yn briod).

5.14 **Priodoli eitemau** - Mae'r cam hwn yn datrys yr eitemau a danlinellwyd ar y cam blaenorol, drwy'r broses briodoli, sy'n gwneud addasiadau priodol i ddata'r cyfrifiad gan arwain at gofnodion cyflawn a chyson ar gyfer y cyfrifiad. Mae wedi'i derbyn ers Cyfrifiad 1981 ei bod yn well i hyn gael ei wneud gan SYG yn hytrach na gadael categorïau "heb ateb" neu "heb nodi" yn yr allbynnau. Mae gadael y categorïau hyn yn yr allbynnau yn arwain at amrywiaeth o dybiaethau gan y defnyddwyr terfynol ynghylch sut i ddadansoddi'r canlyniadau.

Bydd dulliau priodoli SYG yn gyson â safonau ystadegol a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer cymwysiadau priodoli mawr fel cyfrifiad.

Fel rhan o ymchwil SYG ynghylch gwneud gwell defnydd o ddata gweinyddol, mae'n archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio gwybodaeth o'r fath i gefnogi prosesau priodoli.

5.15 **Asesu cwmpas ac addasu** – Mae llwyddiant y cyfrifiad yn dibynnu'n helaeth ar ei gywirdeb a pha mor dda mae'n adlewyrchu'r boblogaeth a'i nodweddion. Ni fydd y cyfrifiad byth yn gallu cyfrif pob cartref ac unigolyn. Cynhelir proses asesu cwmpas ac addasu angenrheidiol er mwyn darparu amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol cywir o'r boblogaeth.

5.16 Defnyddir arolwg ôl-gyfrif penodol, sef Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad (a ddisgrifir ym Mhennod 4), er mwyn mesur gor- neu dangyfrif drwy gynnal proses gyfrif ar wahân o sampl o'r boblogaeth. Bydd y broses hon yn helpu SYG i addasu ar gyfer nifer y bobl a chartrefi nas cyfrifir yn y cyfrifiad, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed ar gyfer Cyfrifiadau 2001 a 2011. Bydd y data ACC yn cael eu paru, ar lefel unigol, â data cyfatebol y cyfrifiad, gan alluogi SYG i gynhyrchu amcangyfrif o nifer y bobl nas cynhwyswyd yn y cyfrifiad a'u nodweddion, a gwneud addasiadau priodol. Hefyd, bydd paru'r cyfrifiad â'i hun yn fodd i amcangyfrif unrhyw orgyfrif neu ddyblygu.

5.17 Mae SYG yn ymchwilio i'r ffordd y gall data gweinyddol gael eu defnyddio er mwyn gwella'r broses addasu, gan helpu i nodi cyfeiriadau dilys sydd heb ymateb er mwyn priodoli cartrefi a briodolwyd yn llawn mewn addasiad.

5.18 **Rheoli datgelu ystadegol** – Bydd dulliau rheoli datgelu eraill yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y gwaith prosesu ac yn syth cyn y cam lledaenu. Bydd y rhain yn sicrhau na chaiff unrhyw unigolyn na nodweddion grwpiau o unigolion eu nodi'n ddiofal wrth gyhoeddi'r canlyniadau. Gweler Pennod 6 am fanylion pellach.

5.19 **Archifo** – Fel y disgrifir ym Mhennod 4, bydd holiaduron papur yn cael eu dinistrio yn unol â chanllawiau diogelwch y llywodraeth. Bydd yr holl systemau a chyfryngau storio yn cael eu dileu'n ddiogel yn unol â safonau diogelwch y llywodraeth. Mae SYG yn bwriadu cadw set ddata o gopïau o ymatebion, o'r broses sganio a'r gwasanaeth ar-lein, ar gyfer yr Archifau Cenedlaethol. Bydd y data hyn yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn modd rheoledig o dan y polisi lle cedwir ffurflenni cyfrifiad Cymru a Lloegr ar gau am gan mlynedd. (Gweler Pennod 6 am ragor o fanylion am weithdrefnau diogelu SYG).

# Dadansoddi a rhannu'r canlyniadau

## Rhannu'r canlyniadau

5.20 Gwelir prif fuddiannau'r cyfrifiad lle bydd defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ystadegau o ansawdd uchel, a ryddheir am ddim ar y cam defnyddio, er mwyn llywio gwasanaethau fel gwneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau, cynllunio gwasanaethau a chyflenwi gwasanaethau. Er mwyn sicrhau bod y buddiannau hyn yn cael eu profi i'r eithaf, bydd SYG yn gweithio gyda defnyddwyr er mwyn datblygu cynhyrchion priodol a'u cyflwyno'n effeithiol. Bydd yr ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf a bennir yng Nghod Ymarfer Ystadegau Awdurdod Ystadegau'r DU[43] a bydd SYG yn rhoi pwyslais ar ddiogelu cyfrinachedd.

5.21 Bydd y prif ganlyniadau cenedlaethol a lleol yn cael eu rhyddhau, i amserlen a gyhoeddir ymlaen llaw, cyn gynted â phosibl. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu hategu gan amrywiaeth o allbynnau eraill a fydd ar gael ar lein, dros amser, wrth iddynt gael eu cwblhau. Mae SYG yn anelu at ryddhau'r holl ganfyddiadau cychwynnol ymhen 12 mis, a'r holl ddata ymhen 24 mis. Bydd rhaglen waith ddadansoddol sy'n cynnwys adroddiadau seiliedig ar bwnc a delweddau yn ategu rhyddhad y data.

5.22 Yn ogystal â chrynodebau ar lefel genedlaethol, ranbarthol ac awdurdod lleol, caiff adroddiadau ar y prif ganfyddiadau a phynciau penodol eu llunio a'u cyhoeddi.

5.23 Un cam arloesol mawr fydd cyhoeddi system ledaenu ryngweithiol ar-lein lle y gall defnyddwyr bennu pa ddata sydd eu hangen arnynt. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i gynhyrchu croes-dablau (tablau â sawl newidyn) lle caiff proses rheoli datgelu (sy'n diogelu cyfrinachedd) ei chymhwyso'n ddynamig fel rhan o'r cais. Bydd hyn yn golygu bod canlyniadau'r cyfrifiad yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr a gallant gael eu cyflwyno'n gyflymach ac yn fwy hyblyg. Bydd hefyd yn rhyddhau adnoddau o fewn SYG fel y gall gyflawni ystod ehangach o waith dadansoddol.

5.24 Lle na fydd allbynnau o'r fath yn ddigon manwl at ddibenion ymchwil ystadegol penodol, bydd modd cael gafael ar ddata manylach o dan amodau labordy a reolir yn llym. Bydd angen i bawb sy'n cael mynediad o'r fath fodloni gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru

---

43 https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/

2007[44] a Phennod 5 o ran 5 o Ddeddf Economi Ddigidol 2017, a chael eu hachredu yn unol â'r telerau ac amodau a nodir yn y Cod Ymarfer Ymchwil a meini prawf achredu[45], a Chynllun Ymchwilwyr Cymeradwy SYG[46].

5.25 Bydd microdata, fel samplau o gofnodion dienw pobl a chartrefi, ar gael i ymchwilwyr cymeradwy fel eu bod yn gallu cynnal dadansoddiadau na fyddent yn bosibl fel arall gan ddefnyddio data cyfunol. Caniateir mynediad yn amodol ar yr angen pennaf i ddiogelu cyfrinachedd. Roedd darparu samplau yn gam arloesol mawr, a llwyddiannus, yng Nghyfrifiad 1991 a chafodd ei wneud yn 2001 a 2011.

5.26 Mae SYG yn cynnig ehangu Astudiaeth Hydredol SYG[47] drwy ychwanegu data o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr at y cofnodion hynny a gynhwysir eisoes o Gyfrifiadau 1971 i 2011. Mae'r Astudiaeth hon yn ddarostyngedig i'r un amodau cyfrinachedd cadarn â'r cyfrifiad ei hun. Caiff y data eu cadw'n ddiogel gan SYG a rheolir mynediad iddynt yn llym yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

5.27 Bydd metadata, ar ffurf diffiniadau, dosbarthiadau a dangosyddion ansawdd, yn cael eu cynhyrchu i'w defnyddio gydag allbynnau ystadegol. Bydd y rhain yn cynnwys, yn arbennig, gyfyngau hyder a mesurau ansawdd eraill a gwybodaeth o arolygon cwmpas ac ansawdd ôl-gyfrifiad megis cyfraddau cwmpas lleol, diffyg ymateb eitem, a chyfraddau priodoli.

5.28 Bydd canlyniadau ar gyfer Prydain Fawr a'r DU ar gael lle mae'r data a gesglir yn gyson ar draws swyddfeydd y cyfrifiad y DU. Gan gydnabod pwysigrwydd darparu allbynnau cyson ar draws y DU, mae'r Ystadegydd Gwladol a Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi llofnodi cytundeb ar gynnal y cyfrifiad yn 2021. Mae hyn yn cynnwys, yn arbennig, gynhyrchu ystadegau cyson lle rhoddir sylw arbennig i gwestiynau cyffredin, seiliau poblogaeth, diffiniadau, methodolegau rheoli datgelu a fformatau cynnyrch[48].

5.29 Fel gyda Chyfrifiad 2011, bydd canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd, a'u cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cyhoeddi.

---

44 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents

45 https://www.gov.uk/government/publications/digital-economy-act-2017-part-5-codes-of-practice/research-code-of-practice-and-accreditation-criteria

46 https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/statistics/requestingstatistics/approvedresearcherscheme

47 https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/paidservices/longitudinalstudyls

48 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy

## Dadansoddi data

5.30 Mae SYG yn ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn deall eu gofynion a thrafod cynlluniau ar gyfer darparu canlyniadau. Bydd defnyddwyr yn gallu defnyddio'r system ledaenu ryngweithiol ar-lein newydd er mwyn pennu pa ddata sydd eu hangen arnynt a llunio eu tablau eu hunain. Bydd hyn yn galluogi SYG i gynnig arlwy dadansoddol cynyddol er mwyn helpu cymunedau i ddeall eu hanghenion. Ynghyd â hyn, bydd SYG yn llunio crynodebau ar lefel genedlaethol, ranbarthol ac awdurdod lleol, ynghyd ag adroddiadau a dadansoddiadau mewn perthynas â chanfyddiadau allweddol a phynciau penodol.

5.31 Bydd SYG yn gweithio gyda Gwasanaeth Ystadegol ehangach y Llywodraeth er mwyn datblygu rhaglen ddadansoddol barhaus, gan adeiladu ar ei gallu i integreiddio data'r cyfrifiad â ffynonellau data eraill yn barhaus. Bydd hyn yn gwella gallu SYG i gynhyrchu allbynnau ardal fach amlamryweb a thystiolaeth arall sydd eu hangen ar wneuthurwyr penderfyniadau er mwyn deall cymdeithas y DU sy'n newid yn gyflym, a nodi meysydd lle ceir annhegwch ac anghydraddoldeb.

# Defnyddio data gweinyddol er mwyn gwella ac ategu allbynnau

5.32 Er mwyn ategu'r broses o ryddhau data'r cyfrifiad, mae SYG yn bwriadu creu allbynnau lle caiff data'r cyfrifiad eu gwella drwy eu hintegreiddio â ffynonellau data eraill. Mae SYG yn gweithio gyda data ar drethi a budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM ) er mwyn datblygu data math cyfrifiad ar incwm a all gael eu hintegreiddio â'r data a gesglir yng Nghyfrifiad 2021. Mae SYG eisoes wedi llunio rhai allbynnau ymchwil er mwyn dangos potensial hyn[49].

5.33 Mae SYG hefyd yn datblygu ffyrdd o integreiddio data o Gyfrifiad 2021 â data iechyd a gofal cymdeithasol, arolygon y llywodraeth a ffynonellau gweinyddol fel data ar fudd-daliadau, er mwyn cynhyrchu ymchwil newydd a fydd yn disgrifio iechyd y boblogaeth mewn ffyrdd arloesol a chyda mwy o fanylder a manwl gywirdeb. Bydd SYG yn defnyddio data cysylltiedig, gan gynnwys dadansoddiad hydredol, er mwyn ateb cwestiynau pwysig am benderfynyddion iechyd a phrofiadau iechyd a llesiant gydol oes. Ymhlith y meysydd y canolbwyntir arnynt fydd iechyd meddwl, anabledd, symudedd cymdeithasol, a phontio rhwng cyflyrau iechyd ac ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

---

49 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedatacensusproject/administrativedatacensusresearchoutputs

5.34 Fel y nodir uchod, bydd SYG hefyd yn parhau i weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn archwilio ymarferoldeb ategu cwestiynau'r cyfrifiad â data gweinyddol ar gyfanswm nifer yr ystafelloedd, lle byw a math o eiddo.

# Cynllunio daearyddiaeth cynnyrch

5.35 Bydd SYG yn anelu at fodloni gofynion defnyddwyr o ran darparu canlyniadau ystadegol, ar lefelau amrywiol o fanylder, ar gyfer nifer o ardaloedd daearyddol, yn amodol ar y prif ofyniad i ddiogelu cyfrinachedd ystadegol. Bydd y fath ddaearyddiaeth yn cael ei chreu o gonglfeini fel mewn cyfrifiadau blaenorol – Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle.

5.36 Ardaloedd Cynnyrch yw'r ardaloedd lleiaf y llunnir ystadegau preswyl y cyfrifiad ar eu cyfer ac fe'u lluniwyd gyntaf ar gyfer Cyfrifiad 2001. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yn ardaloedd mwy o faint sy'n seiliedig ar grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch ac maent wedi cael eu defnyddio'n helaeth i gyhoeddi amrywiaeth o ystadegau o Gyfrifiadau 2001 a 2011. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yn cynnwys haen is a haen ganol er mwyn helpu i ddadansoddi data ar gyfer ardaloedd llai a fyddai'n ddatgelol ar lefel Ardal Gynnyrch. Parthau Gweithle yw'r ardaloedd lleiaf y llunnir ystadegau marchnad lafur o'r cyfrifiad ar eu cyfer ac fe'u lluniwyd gyntaf ar gyfer Cyfrifiad 2011. Mae ymgysylltu â defnyddwyr ynghylch gwerth daearyddiaethau Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle yn parhau i ddangos cryn dipyn o gefnogaeth i egwyddorion sefydlogrwydd, cymaradwyedd dros amser a parhad cynnyrch o gyfrifiadau blaenorol.

5.37 Gan fod parhad a sefydlogrwydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth o ran rhyddhau cynnyrch daearyddol y cyfrifiad, bydd hierarchaeth Ardaloedd Cynnyrch (Ardaloedd Cynnyrch, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol a Pharthau Gweithle) y cyflwynir cynnyrch y cyfrifiad ar eu cyfer yn aros yr un peth i raddau helaeth fel bod modd cymharu â chanlyniadau Cyfrifiadau 2001 a 2011. Pan fo ardaloedd lle mae'r boblogaeth leol wedi newid yn sylweddol neu lle cafwyd cryn dipyn o ddatblygiadau tai, gall fod angen creu ffiniau diwygiedig – yn bennaf drwy rannu neu gyfuno Ardaloedd Cynnyrch presennol – er mwyn sicrhau bod meini prawf dylunio allweddol yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, nid yw SYG yn rhagweld newid mwy na 5% o'r ffiniau Ardaloedd Cynnyrch cyfredol er mwyn bodloni'r gofynion hyn. Lle mae newidiadau mawr i boblogaethau lleol gall fod angen tebyg i rannu neu gyfuno nifer fach o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach. Heblaw am newidiadau a achosir yn sgil ailstrwythuro ffiniau awdurdodau lleol, bydd yr holl ddiwygiadau yn cael eu trefnu fel bod modd i ddefnyddwyr gymharu data rhwng daearyddiaethau Cyfrifiadau 2001, 2011 a 2021. Bydd Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle diwygiedig yn perthyn i hierarchaeth sefydlog o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a Haen Ganol.

5.38 Yn unol â rhannau eraill o broses y cyfrifiad, bydd SYG yn ystyried y defnydd o ffynonellau data gweinyddol er mwyn cynnal daearyddiaeth ystadegol. Os gellir defnyddio data gweinyddol er mwyn ategu daearyddiaethau ystadegol, byddant yn helpu i wella effeithlonrwydd cynnyrch y cyfrifiad.

5.39 Bydd daearyddiaethau gweinyddol - rhanbarthau, siroedd, awdurdodau lleol, wardiau a chymunedau/plwyfi sifil yng Nghymru - a'r ardaloedd a adeiledir ohonynt, fel etholaethau seneddol, yn ymwneud â ffiniau sy'n bodoli ar adeg y cyfrifiad. Yn unol â Chyfrifiad 2011, bydd holl gynnyrch daearyddiaethau gweinyddol yn cael ei ryddhau ar sail ffit orau fel bod modd dyrannu data i ffiniau sy'n newid yn y cyfnod rhwng cyfrifiadau. Yr unig eithriad i hyn fydd parciau cenedlaethol, a fydd yn cael eu llunio ar sail ffit union gan fod eu siâp afreolaidd a dosbarthiad anghyfartal eu poblogaeth yn ei gwneud hi'n anos cyfuno data o Ardaloedd Cynnyrch.

5.40 Mewn rhai achosion, mae'r defnydd o ffit orau o Ardaloedd Cynnyrch wedi amharu ar y gallu i gynhyrchu ystadegau ystyrlon o'r cyfrifiad ar gyfer daearyddiaethau bach (fel plwyfi) neu ardaloedd gwledig. Ymchwilir i fethodolegau amgen fel gridiau er mwyn cynhyrchu ystadegau ar gyfer yr ardaloedd hyn. Wrth ymchwilio i'r rhain bydd SYG yn parhau i ystyried y gofynion i ddiogelu cyfrinachedd, yn enwedig drwy ddatgelu drwy wahaniaethu.

5.41 Lle bo modd, bydd daearyddiaeth y cyfrifiad yn cael ei chysoni rhwng yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru a Lloegr fel bod modd rhyddhau a dadansoddi allbynnau ar lefel y DU. Ym mhob achos ystyrir yr angen i fod yn gyson â'r data sydd wedi'u rhyddhau o gyfrifiadau blaenorol.

# 6

# 6 Cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch digidol

## Egwyddorion cyfrinachedd

6.1 Mae rhwymedigaeth ar y llywodraeth i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a ddarperir gan y cyhoedd at ddibenion ystadegol yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Mae'r gofyniad statudol i ddarparu gwybodaeth bersonol yn y cyfrifiad wedi'i ragnodi gan Ddeddf y Cyfrifiad 1920 ac yn y Gorchymyn a'r Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Yn gyfnewid am hynny, mae'r Ddeddf – ochr yn ochr â darpariaethau cyfrinachedd Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 – hefyd yn gosod gofynion llym ar Awdurdod Ystadegau'r DU ac, yn sgil hynny, SYG i ddiogelu cyfrinachedd y wybodaeth a gesglir.

6.2 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cydnabod bod angen i'r cyhoedd fod yn hyderus y caiff ei wybodaeth bersonol ei chadw'n ddiogel a'i defnyddio at ddibenion ystadegol yn unig. Fel mewn cyfrifiadau blaenorol, bydd yr holl wybodaeth a roddir yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol gan Awdurdod Ystadegau'r DU, a bydd hyn yn cael ei wneud yn glir i'r ymatebwyr. Mae enw da yn bodoli am gadw gwybodaeth y cyfrifiad yn gyfrinachol ac mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn bwriadu ei gadw.

6.3 Bydd y wybodaeth a gesglir yng Nghyfrifiad 2021 ond yn cael ei defnyddio i gynhyrchu ystadegau ac ymchwil ystadegol. Ym mhob achos, rhaid i unrhyw fynediad at ddata'r cyfrifiad, neu unrhyw ddefnydd ohonynt, gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 a deddfwriaeth diogelu data (megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data[50] a Deddf Diogelu Data 2018[51]), yn ogystal â'r safonau a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau[52].

6.4 Mae pob cwestiwn y cynigir ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r hawliau mae'n eu darparu, gan gynnwys y rheini yn Erthygl 8 sy'n ymwneud â pharchu bywyd preifat a theuluol. Bydd yr Awdurdod yn cwblhau asesiad llawn o effaith cynigion y cyfrifiad ar ddiogelu data a hawliau dynol wrth i'r manylion gael eu datblygu, gan adeiladu ar yr asesiad o'r effaith ar breifatrwydd a gyhoeddir ar y cam ymchwil cychwynnol[53].

---

50 https://eur-lex.europa.eu/eli/reg/2016/679/oj

51 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted

52 https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/

53 'The Census and Future Provision of Population Statistics in England and Wales: Privacy Impact Assessment for the Initial Research Stage', Mawrth 2015. Mae "asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd" wedi cael eu hailenwi'n "asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data" yn sgil cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

6.5 Bydd Awdurdod Ystadegau'r DU yn sicrhau bod safonau ar draws y llywodraeth sy'n ymwneud â rheoli risg gwybodaeth a diogelu data yn cael eu cyrraedd. Bydd data'r cyfrifiad yn cael eu trin yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Dim ond y sawl sydd o dan reolaeth Awdurdod Ystadegau'r DU, gan gynnwys yr asiantau hynny sy'n gweithredu ar ei ran, neu'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer, at ddiben y cyfrifiad, ac ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo o dan ddarpariaethau Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 neu Ddeddf Economi Ddigidol 2017, a gaiff fynediad at wybodaeth bersonol y cyfrifiad
- Yn y rhan fwyaf o achosion bydd un holiadur yn cynnwys pob aelod o'r cartref ond bydd modd i bobl, os dymunir gwneud hynny, roi gwybodaeth bersonol ar ffurflen ar wahân mewn ffordd nad yw'n ei datgelu i aelodau eraill o'r cartref na'r sefydliad
- Bydd pawb sy'n gweithio ar y cyfrifiad fel cyflogeion SYG neu gontractwyr neu is-gontractwyr i ddarparu gwasanaethau i gefnogi Cyfrifiad 2021:
    - yn destun gwiriadau diogelwch a bydd angen iddynt lofnodi ymgymeriad i ddangos eu bod yn deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cyfrinachedd data
    - yn cael cyfarwyddiadau llym a byddant yn agored i gael eu herlyn am unrhyw achos o dorri'r gyfraith, a all arwain at ddirwy a/neu garchar
- Bydd diogelwch yn rhan annatod o'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gasglu a phrosesu data o Gyfrifiad 2021
    - Bydd yr holl wasanaethau a systemau yn cydymffurfio â Fframwaith Polisi Diogelwch y Llywodraeth[54] gan gynnwys y safonau trosglwyddo data a thechnegol perthnasol
- Bydd unrhyw system ar-lein ar gyfer casglu data yn cael ei phrofi a rheolir risg yn unol â safonau'r llywodraeth
- Gwneir trefniadau ar wahân i ddosbarthu a dychwelyd holiaduron papur yn ddiogel
- Bydd cynlluniau diogelwch yn cael eu hasesu'n gadarn
    - Mae SYG yn gweithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol er mwyn datblygu cynigion adolygu annibynnol a fydd yn sicrhau bod prosesau a systemau ar gyfer casglu neu drin data'r cyfrifiad yn ddiogel, a bod mesurau priodol ar waith i atal mynediad heb awdurdod
- Bydd camau diogelwch y cyfrifiad yn dilyn a, lle bo modd, yn rhagori ar y safonau seiberddiogelwch gofynnol a ddisgwylir gan y llywodraeth[55]

54 https://www.gov.uk/government/publications/security-policy-framework
55 https://www.gov.uk/government/publications/the-minimum-cyber-security-standard

- Bydd diogelwch ffisegol gwybodaeth bersonol y cyfrifiad a gedwir gan SYG, staff maes neu asiantau awdurdodedig yn cael ei orfodi'n llym. Bydd gan bob safle sy'n prosesu data'r cyfrifiad drefniadau diogelwch priodol ar waith gan gynnwys rheolaethau perimedr a mynediad
- Bydd y gwaith o baratoi a lledaenu cynnyrch ystadegol y cyfrifiad yn destun addasu'r data er mwyn diogelu a chadw cyfrinachedd

# Cyfrinachedd ystadegol

6.6 Mae gallu'r cyfrifiad i gynhyrchu ystadegau ynghylch ardaloedd bach a grwpiau bach o bobl, fel bod polisïau a chynlluniau cyhoeddus yn gallu cyfrif am anghenion cymunedau lleol, yn un o gryfderau mawr y cyfrifiad. Fodd bynnag, mae hefyd yn peri'r risg o ddatgelu pwy yw rhywun mewn camgymeriad os caiff canlyniadau eu cyhoeddi sy'n dangos gwerthoedd bach mewn cyfrifiadau poblogaeth penodol mewn ardaloedd bach. O ganlyniad, rhaid cymryd gofal arbennig er mwyn diwallu'r angen i ddiogelu cyfrinachedd ystadegol a lleihau'r niwed i ddefnydd y data.

6.7 Nid yw hon yn risg newydd, a chymerir camau rhagofalus mawr fel bod unrhyw ddata sydd ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw ffurf yn cydymffurfio â darpariaethau cyfrinachedd Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Cymerir camau i atal rhyddhau gwybodaeth ystadegol sy'n nodi nodweddion unigolyn, cartref neu grŵp o bobl. Caiff camau diogelwch eu datblygu mewn cydweithrediad agos â Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n gyfrifol am y cyfrifiad yn yr awdurdodaethau hyn (gweler Pennod 7).

6.8 Yng nghyd-destun y cyfrifiad, lle mae modd i filoedd o groes-dablau gael eu cynhyrchu o ddata sylfaenol, y ffordd orau o ddiogelu cyfrinachedd ystadegol yw drwy gyflwyno ansicrwydd ynghylch gwerth gwirioneddol celloedd bach. Ymhlith yr opsiynau posibl mae cyfuno dull rhag-dablaidd fel cyfnewid cofnodion â dull ôl-dablaidd er enghraifft aflonyddu cell (ychwanegu sŵn ar hap at gyfrifiadau celloedd). Bydd unrhyw weithdrefnau a gaiff eu mabwysiadu yn galluogi defnyddwyr i gynhyrchu cynnyrch mewn ffordd fwy hyblyg ac amserol na chyfrifiadau blaenorol. Mae tair swyddfa cyfrifiad y DU wedi cytuno y gellir cynnwys cyfrifiadau bach yn nata'r cyfrifiad a rennir â'r cyhoedd:

- os oes ansicrwydd wedi cael ei greu'n systematig ynghylch p'un a yw'r gell fach yn werth gwir ai peidio
- os nad yw creu ansicrwydd yn niweidio ansawdd y wybodaeth yn sylweddol

6.9 Bydd yr Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol yn cytuno ar y dull gweithredu a'r paramedrau terfynol mewn ymgynghoriad â defnyddwyr ac arbenigwyr eraill gan gynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth. Gan ddibynnu ar angen, bydd y gweithdrefnau'n cynnwys:

- addasu peth o'r data cyn i'r ystadegau gael eu rhyddhau, gan ddefnyddio dulliau fel cyfnewid cofnodion, rhyw fath o aflonyddu cell neu atal cell
- cyfyngu ar gynnyrch drwy symleiddio neu grwpio data; er enghraifft, darparu gwybodaeth ar gyfer grwpiau oedran cyfunol
- cyfuno gwybodaeth er mwyn sicrhau bod data ond ar gael mewn modd nad yw'n ddatgelol, er enghraifft drwy grwpio categorïau o ddata neu ond darparu gwybodaeth ar gyfer ardaloedd daearyddol mwy o faint

6.10 Cyhoeddwyd cytundeb ar y cyd gan yr Ystadegydd Gwladol a Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cwmpasu'r gweithdrefnau ystadegol i'w cymhwyso at ddata'r cyfrifiad gan gynnwys dulliau rheoli datgelu[56]. Bydd y gweithdrefnau a ddefnyddir yn cael eu profi a'u gwerthuso, a chytunir arnynt, cyn y cyfrifiad, ac fe'u cydgysylltir ledled y DU.

6.11 Bydd data'r cyfrifiad yn cael eu defnyddio ar y cyd â data o ffynonellau eraill er mwyn gwella ansawdd y ffynonellau data hynny a chynhyrchu ystadegau a gwaith dadansoddi newydd ac felly feithrin dealltwriaeth o gymdeithas. Ym mhob achos cymerir gofal i sicrhau bod y gwaith o brosesu'r data yn unol ag egwyddorion cyfreithiol a moesegol. Er enghraifft, bydd prosesu'r data er mwyn ymestyn cwmpas Astudiaeth Hydredol SYG i gynnwys data Cyfrifiad 2021 yn cydymffurfio â'r egwyddorion prosesu teg a nodir mewn deddfwriaeth diogelu data. Bydd unrhyw achos lle mae SYG yn prosesu data'r cyfrifiad mewn cysylltiad â data gweinyddol yn y dyfodol ac arolygon SYG hefyd yn cydymffurfio â'r egwyddorion hynny.

## Rheoli defnydd pellach o ddata'r cyfrifiad

6.12 Mae Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 yn cynnwys camau diogelu cadarn iawn o ran gwybodaeth bersonol ac mae ond yn caniatáu ei datgelu mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn. Mae datgelu gwybodaeth bersonol a gedwir gan yr Awdurdod, gan gynnwys cofnodion y cyfrifiad, yn drosedd a gellid cael hyd at ddwy flynedd o garchar.

[56] 'The Conduct of the 2021 Censuses in the UK. A statement of agreement between the National Statistician and the Registrars General for Scotland and Northern Ireland', Hydref 2015: https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy/theconductofthe2021censusesintheuk.pdf

6.13 Mae swyddogaethau Awdurdod Ystadegau'r DU fel y'u nodir yn y Ddeddf yn ymwneud yn benodol â chynhyrchu a chyhoeddi ystadegau swyddogol. Felly, mae unrhyw ddefnydd o ddata gan yr Awdurdod wedi'i gyfyngu'n gaeth at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig. Ni fydd yr Awdurdod byth yn defnyddio'r data a ddarperir i dargedu unigolion. Mae'r un cyfyngiadau yn ymestyn i unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod er mwyn cefnogi ei swyddogaethau.

6.14 Bydd yr Awdurdod yn caniatáu mynediad a reolir at ddata'r cyfrifiad, ond gan eu cadw'n ddiogel bob amser. Bydd hyn yn galluogi ymchwilwyr cymeradwy i wireddu buddiannau cyhoeddus posibl y data hyn, wrth hefyd roi sicrwydd i'r ymatebwyr na fydd eu manylion byth yn dod yn gyhoeddus. Caniateir mynediad i ymchwilwyr cymeradwy gan ddefnyddio fframwaith y "Pum Peth Diogel" neu'r "Five Safes" yn Saesneg: pobl ddiogel, prosiectau diogel, lleoliadau diogel, cynnyrch diogel, data diogel (safe people, safe projects, safe settings, safe outputs, safe data). Mae'r Cynllun Ymchwilwyr Cymeradwy yn gofyn i ymchwilwyr gael eu hachredu gan Awdurdod Ystadegau'r DU, ac i'w cynigion ymchwil penodol fod yn destun craffu, er mwyn sicrhau bod budd cyhoeddus clir. Mae'r meini prawf achredu yn gofyn i bob ymchwilydd fod yn addas ac yn briodol. Cyhoeddir y meini prawf achredu manwl ar wefan SYG.

6.15 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sydd wedi'u hachredu lofnodi datganiad sy'n dangos eu bod yn deall y rhwymedigaethau sydd arnynt o ran cyfrinachedd ac mae'n cyhoeddi cofnod o bob ymchwilydd o'r fath a'r data y cânt fynediad atynt. Dim ond mewn amgylchedd diogel y bydd modd cael mynediad at wybodaeth y cyfrifiad.

6.16 Mae'r Ddeddf Gwasanaeth i Ystadegau a Chofrestriadau 2007 fel diwigwyd gan y Deddf Economi Ddigidol 2017 yn galluogi'r Awdurdod ymhellach i ddatgelu gwybodaeth bersonol i awdurdod datganoledig os yw bwrdd yr Awdurdod yn fodlon bod angen y wybodaeth o ran swyddogaethau ystadegol yr awdurdod datganoledig ac na chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Dim ond at ddibenion ystadegol y gellir rhyddhau data yn yr amgylchiadau hyn a rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

## Atal defnyddio data at ddibenion nad ydynt yn ystadegol

6.17 Mae parchu gwybodaeth bersonol gyfrinachol yn rhan o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac mae'n rhan annatod o Awdurdod Ystadegau'r DU a SYG. Polisi penodol Awdurdod Ystadegau'r DU yw na fydd byth yn rhoi gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben nad yw'n ystadegol.

6.18 Os bydd unrhyw unigolyn neu awdurdod cyhoeddus am gael mynediad at ddata ymatebydd, ar sail unrhyw bŵer cyfreithiol, bydd Awdurdod Ystadegau'r DU bob amser yn gwrthod hynny. Bydd yr Awdurdod yn ymladd yr achos i'r graddau mwyaf posibl o dan y gyfraith, gan ddefnyddio pob cam apelio yn y llysoedd os bydd angen, er mwyn sicrhau cyfrinachedd ystadegol.

6.19 Dyma fel mae'r Awdurdod wedi gweithredu erioed, ac yn unol â'r polisi hwn nid yw'r Awdurdod byth wedi datgelu manylion unrhyw un o ffurflenni'r cyfrifiad at unrhyw ddiben nad yw'n ystadegol.

## Staff maes

6.20 Mae pob aelod o staff, p'un a yw wedi'i gyflogi'n uniongyrchol gan Awdurdod Ystadegau'r DU, neu'n darparu gwasanaethau ar ei ran, at ddibenion y cyfrifiad, yn rhwym wrth ddarpariaethau cyfrinachedd Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007. Rhoddir sylw arbennig i sicrhau bod pob aelod o staff dros dro a gaiff ei recriwtio i gefnogi Ymarfer 2019 a'r gweithrediad byw yn 2021 yn cael gwiriadau diogelwch. Bydd y staff hyn yn gyflogeion SYG drwy gydol eu cyfnod yn y swydd.

6.21 Rhaid i staff dros dro a staff parhaol y cyfrifiad allu delio'n effeithiol â'r cyhoedd a deall pwysigrwydd diogelu cyfrinachedd unrhyw wybodaeth a all gael ei rhoi iddynt. Darperir hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar y cyfrifiad yn 2021 yn deall eu cyfrifoldebau statudol a'r cosbau sy'n gysylltiedig â datgelu gwybodaeth bersonol. Yn unol â'r egwyddorion cyfrinachedd, bydd angen iddynt lofnodi ymgymeriad sy'n dangos eu bod yn deall, ac y byddant yn cynnal, y gofynion hyn ac na fyddant yn datgelu nac yn rhannu unrhyw wybodaeth a ddaw i law fel rhan o'u gwaith.

## Diogelwch gwasanaethau ar gontract allanol

6.22 Mae'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau ar gontract allanol (er enghraifft recriwtio a hyfforddi staff a gwasanaethau argraffu a phostio) yn cynnwys y fanyleb gofynion, gwerthuso a dyfarnu contractau. Mae'r holl drefniadau hyn yn cael eu gweithredu yn unol â safonau caffael y llywodraeth, a gyhoeddir gan Wasanaethau Masnachol y Goron neu mewn fframweithiau llywodraeth penodol. Mae'r gofynion cyfrinachedd wedi'u nodi yn nhelerau ac amodau contractau unigol.

## Diogelwch digidol ac adolygu cyfrinachedd

6.23 Mae gan SYG bolisïau ar waith i ddiogelu cyfrinachedd a diogelwch data hyd at ac yn cynnwys y categori “SWYDDOGOL-SENSITIF”. Bydd yr holl systemau a gwasanaethau sy’n cael eu datblygu a’u defnyddio er mwyn cefnogi’r cyfrifiad yn cydymffurfio â safonau diogelwch y llywodraeth.

6.24 Bydd mesurau manwl sydd wedi’u dylunio’n benodol ar gyfer gweithredu’r cyfrifiad, gan gynnwys Ymarfer 2019 a’r cyfrifiad ei hun, yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y broses o gasglu, prosesu a throsglwyddo data, boed ar lein neu ar bapur, yn ddiogel. Ym mhob achos, ystyrir yn llawn ofynion statudol, gan gynnwys y rhai mewn deddfwriaeth diogelu data.

6.25 Yn unol ag arfer blaenorol y cyfrifiad, bydd y trefniadau diogelwch a chyfrinachedd sy’n cael eu rhoi ar waith yn cael eu hadolygu’n annibynnol. Bydd SYG yn cyhoeddi canlyniad adolygiadau o’r fath cyn y cyfrifiad ac yn cyhoeddi unrhyw adroddiadau cysylltiedig ar wefan SYG.

## Polisi llywodraeth y DU ar alluogi’r cyhoedd i weld cofnodion cyfrifiad personol

6.26 Ystyriwyd yn ofalus geisiadau gan achyddion am fynediad cynharach at gofnodion cyfrifiad personol er mwyn hwyluso ymchwil hel achau ac ati. Er y cydnabyddir gwerth cofnodion hanesyddol y cyfrifiad, mae’r llywodraeth o’r farn bod yn rhaid i’r sicrwydd cadarn o ran cyfrinachedd a roddwyd i ymatebwyr mewn cyfrifiadau blaenorol barhau. Yn unol â hynny, mae’r llywodraeth yn bwriadu parhau â’i pholisi o gadw ffurflenni cyfrifiad Cymru a Lloegr ar gau am gan mlynedd.

6.27 O ganlyniad, erys polisi’r llywodraeth na ddylai cofnodion o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr fod ar gael i’r cyhoedd na bod ar gael ar lein drwy’r Archifau Gwladol tan fis Ionawr 2122.

# 7

# 7 Y broses ddeddfwriaethol

## Cyflwyniad

7.1 Mae Deddf y Cyfrifiad 1920 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfrifiad (Diwygio) 2000 a Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007) yn darparu ar gyfer cynnal cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae pob cyfrifiad yn gofyn am ddeddfwriaeth bellach er mwyn cwmpasu'r wybodaeth i'w chasglu a'r dulliau o wneud hynny.

## Deddfwriaeth sylfaenol y cyfrifiad

7.2 Deddf y Cyfrifiad 1920 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n darparu ar gyfer cynnal cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

7.3 Mae Atodlen Deddf y Cyfrifiad 1920 yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen, sef:

(1) Enwau, rhyw, oedran

(2) Galwedigaeth, proffesiwn, masnach neu gyflogaeth

(3) Cenedligrwydd, man geni, hil, iaith

(4) Cyfeiriad a math o annedd

(5) Statws priodasol neu bartneriaeth sifil, perthynas â'r penteulu, plentyn a aned mewn priodas

(5a) Crefydd[57]

(6) Unrhyw faterion eraill y mae'n ddymunol cael gwybodaeth ystadegol amdanynt gyda'r nod o bennu cyflwr cymdeithasol neu sifil y boblogaeth

## Is-ddeddfwriaeth y cyfrifiad

### Gorchymyn y Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr

7.4 Bydd y llywodraeth yn paratoi Gorchymyn drafft yn y Cyngor o ran y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr i'w gyflwyno gerbron y Senedd yn hydref 2019. Yn unol ag adran 1 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920, bydd yn rhagnodi:

- y dyddiad y cynhelir y cyfrifiad
- y bobl y cwblheir ffurflenni'r cyfrifiad ganddynt, ac y gwneir ffurflenni'r cyfrifiad mewn perthynas â nhw
- y manylion i'w rhoi yn y ffurflenni

[57] Yn unol â s.8(1A) o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 nid oes unrhyw gosb am beidio â rhoi gwybodaeth am grefydd, sy'n golygu bod unrhyw gwestiwn felly yn wirfoddol.

7.5 Rhaid i'r Gorchymyn drafft gael ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ Seneddol. Er bod modd i'r rhan fwyaf o'r darpariaethau gael eu cymeradwyo gan y weithdrefn datrysiad negyddol, rhaid i unrhyw fanylion yn y cyfrifiad o dan ddarpariaethau ym mharagraff (6) o'r Atodlen (gweler uchod) gael eu cymeradwyo gan ddatrysiad cadarnhaol.

## Rheoliadau ar wahân ar gyfer y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr

7.6 Ar ôl i Orchymyn y Cyfrifiad gael ei gymeradwyo, bydd Gweinidog Swyddfa'r Cabinet yn disgwyl i gyflwyno Rheoliadau'r Cyfrifiad ar gyfer Lloegr gerbron y Senedd ddechrau 2020. Mae Rheoliadau'r Cyfrifiad yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal y cyfrifiad yn Lloegr.

7.7 Ar yr un pryd, ac yn sgil trosglwyddo rhai o swyddogaethau'r cyfrifiad i Weinidogion Cymru, caiff rheoliadau ar wahân ar gyfer Cymru eu gwneud yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler isod).

7.8 Bydd y Rheoliadau yn cwmpasu gweithgareddau gweithredol a gweithdrefnau maes gan gynnwys:

- penodi staff y cyfrifiad
- rhannu'r wlad yn ardaloedd cyfrif a gwirio cyfeiriadau
- y trefniadau ar gyfer cwblhau a dychwelyd holiaduron y cyfrifiad ar lein, drwy'r post neu mewn ffordd arall
- dyletswyddau staff y cyfrifiad ac, yn benodol, fanylion unrhyw wybodaeth i'w chasglu ganddynt
- gwybodaeth am drefniadau arbennig i gyfrif poblogaethau penodol (er enghraifft, pobl sy'n cysgu ar y stryd)
- gweithdrefnau gwaith dilynol a diffyg cydymffurfio
- rheoli deunyddiau a dogfennaeth maes
- gweithdrefnau diogelwch a chyfrinachedd

Bydd y Rheoliadau yn destun y weithdrefn datrysiad negyddol.

## Trefniadau ar gyfer y cyfrifiad yng Nghymru

7.9 Yn dilyn trafodaeth rhwng llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, cytunwyd y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan fwy uniongyrchol yn y gwaith o gytuno ar gwmpas, cynnwys a dull o gynnal cyfrifiadau yng Nghymru. O ganlyniad, gwnaed trefniadau i ddatganoli pwerau deddfwriaethol cyn Cyfrifiad 2011.

7.10 Gwnaeth Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006 ddarpariaeth ar gyfer:

- trosglwyddo'r pŵer i wneud Rheoliadau'r Cyfrifiad ar gyfer Cymru i'r Cynulliad
- ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch cynnwys Gorchymyn y Cyfrifiad

7.11 Mae SYG wedi gweithio gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru, aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a grwpiau a defnyddwyr Cymreig wrth gynllunio ar gyfer Cyfrifiad 2021. Mae cyfarfodydd rheolaidd â Grŵp Cynghori Cymru ar y Cyfrifiad wedi cael eu hategu gan drafodaethau â Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru[58].

## Datganoli'r cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

7.12 O dan delerau Deddf y Cyfrifiad 1920, Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban sydd â'r awdurdod i gynnal y cyfrifiad yn yr Alban. Ers datganoli mae Senedd yr Alban wedi bod yn gyfrifol am gymeradwyo is-ddeddfwriaeth ar wahân ac ariannu'r cyfrifiad yn yr Alban.

7.13 Mae gan Gofrestrydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon gyfrifoldebau tebyg, o dan ddarpariaethau Deddf y Cyfrifiad (Gogledd Iwerddon) 1969, o ran gwneud trefniadau i gynnal y cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon. Cynulliad Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am gymeradwyo is-ddeddfwriaeth ac ariannu'r cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon.

[58] https://gov.wales/statistics-and-research/about/user-engagement/statistical-groups-committees/welsh-statistical-liaison-committee/?lang=en

7.14 Sicrheir cysondeb ledled y DU drwy sicrhau bod tair swyddfa'r cyfrifiad yn cydweithio'n agos. Mae datganiad o gytundeb wedi'i lunio rhwng yr Ystadegydd Gwladol a Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n rheoli'r trefniadau ar gyfer cyfrifiadau 2021 yn y DU [59]. Mae'r datganiad hwn yn sicrhau bod y cyfrifiadau annibynnol a gynhelir ym mhob gwlad o'r DU yn darparu ystadegau cyson a chydlynol a all fodloni gofynion defnyddwyr.

59 'The Conduct of the 2021 Censuses in the UK: A statement of agreement between the National Statistician and the Registrars General for Scotland and Northern Ireland', Hydref 2015:
https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy/theconductofthe2021censusesintheuk.pdf

# 8

# 8 Dyfodol y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr

## Cyflwyniad

8.1 Mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau (llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, busnesau, elusennau, grwpiau cymunedol, dinasyddion) gael gwell data lleol fwyfwy ar faint a nodweddion y boblogaeth er mwyn gallu datblygu gwell gwasanaethau, gan gynnwys cysylltiadau trafnidiaeth, ysgolion, ysbytai a thai. Mae angen iddynt ddeall dynameg newidiol y boblogaeth yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn iddynt allu gwneud y penderfyniadau gorau posibl gan ddefnyddio'r dystiolaeth honno. Ar yr un pryd, mae angen mynd i'r afael ag annhegwch ac anghydraddoldeb mewn cymdeithas, gan roi sylw arbennig i'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

8.2 Yn 2021, bydd SYG yn parhau i wneud hyn drwy'r cyfrifiad a seilwaith cysylltiedig. Fodd bynnag, gan fod pethau'n newid yn gyflymach bellach, mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau gael y wybodaeth hon yn llawer amlach nag unwaith bob 10 mlynedd. Yn arbennig, mae angen y data arnynt er mwyn gallu deall natur newidiol y boblogaeth a mudo i ac o'r DU yn fwy rheolaidd ac yn fwy lleol.

8.3 Dyma pam mae gan SYG raglen waith uchelgeisiol i roi data gweinyddol wrth wraidd y system. Yn 2020, mae SYG yn bwriadu y bydd y system ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth a mudo yn bennaf seiliedig ar ddata sydd eisoes yn bodoli ar draws y llywodraeth, gan ddefnyddio'r pwerau rhannu data newydd a gyflwynwyd drwy Ddeddf Economi Ddigidol 2017[60]. Gelwir hwn yn Gyfrifiad Data Gweinyddol.

8.4 Nid yw'r rhaglen hon yn gymwys i ddata o'r boblogaeth yn unig. Mae SYG wedi bod yn ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio data o'r fath er mwyn cael darlun cyfredol o'r canlynol, er enghraifft:

- patrymau cymudo er mwyn llywio polisi trafnidiaeth yn well
- cymwysterau addysgol a data cyflogaeth er mwyn llywio polisi sgiliau
- amcangyfrifon o incwm er mwyn llywio polisi cydraddoldeb a symudedd cymdeithasol

60 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/30/contents/enacted

8.5 Bydd SYG yn ymgynghori â defnyddwyr ynghylch sut y gall y data gweinyddol hyn ddod i flaen y system ystadegol a sicrhau ei bod yn barod i wneud argymhellion i'r llywodraeth yn 2023 ar ddyfodol y cyfrifiad.

## System newydd ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth a mudo

8.6 Yn fforwm Polisi Cyhoeddus a Phoblogaeth SYG[61] ym mis Medi 2017, eglurodd SYG fod cyd-destun ei gwaith yn newid. Mae defnyddwyr yn dweud wrth SYG fod angen iddynt gael mwy o wybodaeth am effaith mudwyr tra'u bod yn y DU. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y sectorau maent yn gweithio ynddynt, y cymunedau maent yn byw ynddynt a'r effeithiau ar wasanaethau cyhoeddus fel y GIG ac ysgolion. At hynny, mae cyd-destun polisi newidiol, yn bennaf am fod y DU yn gadael yr UE. Felly, mae angen i SYG allu hysbysu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y tymor agos, a hefyd ddatblygu'r ffynonellau data er mwyn sicrhau bod polisïau a chamau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn.

8.7 Felly, ar y cyd â Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, mae SYG yn bwriadu trawsnewid y wybodaeth mae'n ei chynhyrchu ar fudo dros y ddwy flynedd nesaf. Mae SYG yn bwriadu gwneud hyn mewn ffordd a fydd yn diwallu anghenion newidiol defnyddwyr, a dechrau rhoi data gweinyddol wrth wraidd tystiolaeth ar fudo yn 2019. Mae pwysigrwydd gwella'r ystadegau a gwerth rhaglen waith y Gwasanaeth wedi'i gydnabod gan adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref ac ymateb y llywodraeth[62].

8.8 Mae hyn yn elfen allweddol o newid i system weinyddol newydd, wedi'i harwain gan ddata, ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth a mudo ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2020. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ymchwil i Gyfrifiad Data Gweinyddol (gweler isod) ac yn ei hehangu, er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o boblogaeth a mudo gan ddefnyddio'r holl ffynonellau sydd ar gael.

---

61 https://blog.ons.gov.uk/2017/09/22/ons-forum-new-era-for-migration-statistics/
62 https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmhaff/961/96102.htm

# Datblygu cynigion ar gyfer y cyfrifiad ar ôl 2021

8.9 Yn unol ag argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol yn 2014[63], ac er mwyn bodloni gofynion y sawl sy'n gwneud penderfyniadau am wybodaeth fwy aml a mwy manwl am ein cymdeithas sy'n newid yn barhaus, mae SYG yn datblygu gwaith i drawsnewid y system ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth. Fel y disgrifir yn gynharach, mae SYG yn datblygu ei defnydd o ddata gweinyddol fel y bydd ystadegau ar y boblogaeth a thai yn cael eu darparu drwy integreiddio data gweinyddol a ategir gan arolygon (ac mewn rhai achosion ddata masnachol) er mwyn llenwi bylchau na all y data gweinyddol eu llenwi a phennu nodweddion data gweinyddol.

8.10 Yn gyntaf, bydd SYG yn adeiladu ar y gwaith a amlinellir uchod, gan geisio llunio gwybodaeth ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd daearyddol am:

- strwythur ein poblogaeth (nifer y cartrefi a'u cyfansoddiad)
- maint a nodweddion y stoc dai

8.11 Yn ail, mae SYG hefyd yn archwilio sut, drwy integreiddio data gweinyddol, arolwg a masnachol, y gall lunio gwybodaeth am nodweddion y boblogaeth yn fwy aml ac yn fwy amserol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am iechyd, y farchnad lafur, patrymau cymudo a chymwysterau addysgol er enghraifft. Mae data integredig yn cynnig y cyfle i feithrin dealltwriaeth newydd sy'n fwy ymatebol, amserol a manwl o'n heconomi a'n cymdeithas. Gallai hyn gynnwys dosbarthu incwm cartrefi mewn ardaloedd bach fesul iechyd ac ethnigrwydd, tlodi tanwydd, iechyd meddwl, trosedd, anghydraddoldebau, heneiddio, a fforddiadwyedd a darpariaeth tai. Er enghraifft, gallai SYG edrych ar gwestiynau fel:

- Beth yw effaith cael plant a gofalu amdanynt ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau?
- Pa mor fawr yw'r cysylltiad rhwng dyled bersonol ac iechyd meddwl, ac a yw gwahanol ymyriadau yn gweithio i wahanol bobl?
- Beth yw defnydd ynni teuluoedd tebyg mewn cartrefi o ansawdd gwahanol?
- Beth yw canlyniadau marchnad lafur (cyflogaeth ac enillion) gwahanol grwpiau ethnig â gwahanol sgiliau mewn gwahanol rannau o'r wlad?

---

63 'The census and future provision of population statistics in England and Wales: Recommendation from the National Statistician and Chief Executive of the UK Statistics Authority', SYG, Mawrth 2014: https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy/theconductofthe2021censusesintheuk.pdf

8.12 Yn drydydd, mae SYG yn ailgydbwyso ei harolygon busnes a'i harolygon cymdeithasol fel y gellir cefnogi'r dull gweithredu gweinyddol, data yn gyntaf er mwyn:

- llenwi bylchau na all data gweinyddol eu llenwi. Er enghraifft, nid oes peth data ar gael o ffynonellau gweinyddol (er enghraifft oriau gofal di-dâl)
- helpu i asesu gwahaniaethau diffiniadol mewn data gweinyddol, ac fel bo angen addasu ar eu cyfer, lle nad ydynt yn bodloni gofynion yn uniongyrchol, yn enwedig ar gyfer mesurau allweddol ar faint y boblogaeth, mudo a nifer y cartrefi
- lleihau dibyniaeth SYG ar arolygon poblogaeth a busnes mawr, gan sicrhau bod y gweithrediadau arolwg sy'n weddill yn fwy effeithlon drwy symud o brosesau casglu seiliedig ar gyfweliad papur a phersonol i rai ar-lein

8.13 Bydd modd lleihau'r baich ar y cyhoedd drwy gasglu'r data unwaith yn unig ac ailddefnyddio'r data hynny.

## Datblygu dull newydd o weithredu a threfniadau gwneud penderfyniadau

8.14 Mae ystadegau ansawdd uchel o'r boblogaeth yn bwysig am eu bod yn ategu ystod eang o wybodaeth a phenderfyniadau eraill. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, wybodaeth am gyfraddau diweithdra a'r galw ar y gwasanaeth iechyd gan boblogaeth sy'n heneiddio, a phenderfyniadau fel nifer y llefydd ysgol sydd ei hangen, a ble i leoli busnesau newydd. O ganlyniad, byddai wedi bod yn risg fawr symud i system newydd yn syth heb ddatblygu a phrofi'r dull newydd yn ofalus. Mae SYG yn cyhoeddi Cynnyrch Ymchwil Data Gweinyddol yn rheolaidd er mwyn helpu gyda hyn.

8.15 Unwaith y bydd SYG wedi cael y data gweinyddol, eu hastudio a'u hystyried, caiff y data eu defnyddio i greu cynnyrch ymchwil sy'n dangos y math o gynnyrch ac ansawdd y cynnyrch sy'n bosibl gan ddefnyddio'r data hynny. Cafodd y set gyntaf o Gynnyrch Ymchwil ynghylch maint y boblogaeth ei chyhoeddi ym mis Hydref 2015[64]. Dilynwyd hyn yn 2016 gan wybodaeth am faint y boblogaeth. Roedd y cynnyrch newydd yn cwmpasu nifer y cartrefi

64 Mae gwybodaeth am y cynnyrch hwn ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedatacensusproject/administrativedatacensusresearchoutputs

a dosbarthiadau incwm gros unigol ar lefel awdurdod lleol gan ddefnyddio data Talu Wrth Ennill (TWE) a data budd-daliadau. Cafodd diweddariadau pellach eu cyhoeddi yn 2017 ac ar ddechrau 2018 gan gynnwys:

- amcangyfrifon o'r boblogaeth (ar gyfer amrywiaeth o ddaearyddiaethau)
- amcangyfrifon mudo mewnol
- nifer y cartrefi a'u maint
- cyfansoddiad cartrefi
- ethnigrwydd (gan ddefnyddio data arolwg a data gweinyddol cyfunol)
- dosbarthiadau incwm i lawr i lefel ardaloedd bach
- incwm mamau newydd
- llifau cymudo gan ddefnyddio data ffonau symudol dienw
- statws y farchnad lafur (gan gynnwys mwy o fanylion am fyfyrwyr israddedig)

8.16 Mae'r dull hwn o weithredu yn galluogi defnyddwyr data i ystyried p'un a yw'r wybodaeth yn diwallu eu hanghenion, a rhoi adborth. Bob blwyddyn, mae SYG yn anelu at wella cywirdeb, ehangder a manylder y cynnyrch hwn, gan adeiladu at y system weinyddol newydd a arweinir gan ddata ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth a mudo erbyn 2020. Cyhoeddir yr ymchwil diweddaraf ar hyn yn ddiweddarach yn 2018.

8.17 Hefyd, bob blwyddyn mae SYG yn cyhoeddi asesiad o hynt y Cyfrifiad Data Gweinyddol[65]. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar bum maen prawf lefel uchel, sef:

- mynediad cyflym at ffynonellau data newydd a rhai sy'n bodoli eisoes
- y gallu i gysylltu data mewn ffordd effeithlon a chywir
- dulliau o gynhyrchu cynnyrch ystadegol sy'n diwallu prif anghenion gwybodaeth defnyddwyr
- derbynioldeb i bartïon â diddordeb
- gwerth am arian

8.18 Yn 2023, bydd SYG yn cyflwyno argymhellion i'r llywodraeth ynghylch dyfodol trefniadau'r cyfrifiad, yn sgil y cynnydd a wnaed. Bydd ymgynghori â defnyddwyr terfynol a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, ynghyd â

65 https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedatacensusproject/administrativedatacensusannualassessments

chael eu barn, yn llywio'r argymhellion hyn o ran i ba raddau y bydd y system newydd yn diwallu anghenion. Bydd y methodolegau sy'n sail i'r dull newydd o weithredu hefyd yn destun proses sicrhau ansawdd gan banel sicrwydd allanol arbenigol[66].

8.19 Mae'r gwaith hwn yn bodloni gofyniad y llywodraeth, fel y nodir yn ei hymateb i argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol: "Our ambition is that censuses after 2021 will be conducted using other sources of data... In the period up to 2021, the UK Statistics Authority's plans should include ensuring that adequate research into the use of administrative data and surveys is carried out to enable a decision about the future methodology for capturing population and census data."

## Defnyddio data gweinyddol yn y cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

8.20 Fel rhan o'r cydberthnasau gwaith agos rhwng SYG, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA)[67], mae'r tair swyddfa yn cydweithio ar y defnydd o ddata gweinyddol mewn ystadegau swyddogol o'r boblogaeth ac i sicrhau ansawdd Cyfrifiad 2021. Mae'r Alban hefyd yn ystyried opsiynau'r dyfodol ar gyfer gwella ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau'r cyfrifiad gan ddefnyddio data gweinyddol.

66 https://www.statisticsauthority.gov.uk/about-the-authority/committees/methodological-assurance-review-panel-census/

67 https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy/theconductofthe2021censusesintheuk.pdf

# 9

# 9 Costau a buddiannau

## Cyflwyniad

9.1 Mae'r achos busnes ariannol yn cwmpasu Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data, a chostau trawsnewid digidol (costau seilwaith).

9.2 Mae Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data yn cyflawni ei thri nod craidd:

- cyfrifiad sydd ar lein yn bennaf ar gyfer pob cartref a sefydliad cymunedol, gan roi sylw arbennig i gynorthwyo'r rhai na allant gwblhau'r cyfrifiad ar lein
- tystiolaeth i allu gwneud penderfyniad ynghylch darparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol ar ôl 2021
- moderneiddio gweithgareddau casglu data SYG er mwyn darparu ystadegau gwell ac ehangach o'r boblogaeth, a fydd yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o ddata gweinyddol a data arolwg a gesglir ar lein yn hytrach na'u casglu drwy gyfweliadau a ffurflenni papur

9.3 Mae'r Rhaglen Trawsnewid Digidol yn adnewyddu seilwaith technegol SYG drwy ddatblygu llwyfannau digidol cyffredin er mwyn cefnogi'r broses drawsnewid ar draws SYG. Felly, mae'r rhaglen yn dylunio ac yn ailddefnyddio ffynonellau, prosesau a systemau data cyffredin er mwyn sicrhau bod y cyllid yn trawsnewid y system ystadegol i'r graddau mwyaf posibl.

9.4 Un enghraifft o'r fath yw datblygu'r llwyfan ar gyfer casglu data arolwg. Mae'r llwyfan eisoes yn cael ei ddefnyddio i gasglu data oddi wrth fusnesau ar lein ac erbyn diwedd 2016/17 roedd dros 200,000 o ymatebion busnesau i arolygon ar lein – mae SYG yn disgwyl i'r ffigur hwn fwy na dyblu yn ystod 2018/19. Bydd y llwyfan hwn hefyd yn galluogi ychwanegu modd ar-lein at arolygon cymdeithasol gyda chynllun peilot ar y farchnad lafur ym mis Hydref 2018. Bydd yr un seilwaith hefyd yn sail i'r cyfrifiad. Mae'r systemau a'r prosesau hyn y gellir eu hailddefnyddio yn sicrhau bod gan SYG waddol y tu hwnt i'r cyfrifiad.

9.5 Mae Pennod 8 yn amlinellu'r ffordd mae'r rhaglen yn sicrhau bod ymchwil SYG i ddata gweinyddol nid yn unig o fudd i'r cyfrifiad ond eisoes yn cael effaith ar ein rhaglen waith ar gyfer y boblogaeth a mudo.

9.6 Bydd SYG yn parhau i adrodd yn gyhoeddus ar hynt y nodau hyn.

# Costau

9.7 Darparwyd tua £900 miliwn ar gyfer cyfanswm cost Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data, a'r Rhaglen Trawsnewid Digidol ar gyfer y cyfnod 2015-2026. Bydd darpariaeth bellach yn destun adolygiadau gwariant yn y dyfodol ac yn cwmpasu camau olaf prosesu a lledaenu data a chynnyrch a nifer o wasanaethau a chyfresi cynnyrch dilynol. Mae'r rhaglen yn destun proses flynyddol lle caiff yr achos busnes ei fireinio a gymeradwyir gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet.

# Buddiannau

9.8 Bydd Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data o fudd mewn sawl ffordd. Mae'r buddiannau i ddefnyddwyr y mae SYG wedi gallu eu mesur oddeutu £5 o fudd yn yr economi ehangach am bob £1 a gaiff ei gwario[68]. Bydd buddiannau ychwanegol sylweddol hefyd, i'r llywodraeth yn arbennig, na fu modd eu mesur (er enghraifft datblygu polisi pensiynau a monitro cydraddoldeb). At hynny, mae'r cyfrifiad yn cefnogi blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, fel agenda ddigidol y llywodraeth (drwy symud i gasglu data ar lein) a datblygu cofrestr cyfeiriadau genedlaethol agored.

9.9 Bydd y rhaglen hefyd o fudd i SYG ei hun. Mae cyllid gan achos busnes y rhaglen eisoes yn cefnogi'r trawsnewid digidol sydd ar waith ar draws SYG. Mae cynhyrchion casglu data arolwg ar-lein newydd wedi cael eu creu a'u defnyddio'n llwyddiannus. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ymchwilio i fethodolegau ystadegol newydd ar gyfer dadansoddi data nad ydynt yn dod o arolygon. Unwaith y byddant wedi'u datblygu, gall y dulliau hyn gael eu rhannu ar draws SYG a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn ehangach hefyd. Mae gallu staff mewn meysydd sgil allweddol fel rheoli prosiect, rheoli rhaglenni a rheoli masnachol hefyd yn cael ei wella, a bydd gwersi a ddysgir o gynnal y cyfrifiad yn cael eu rhannu â gweddill SYG.

9.10 Caiff gwybodaeth o'r cyfrifiad ei defnyddio gan ystod eang o ddefnyddwyr er mwyn gwneud penderfyniadau: rhoddir enghreifftiau isod.

**Dyrannu adnoddau**: Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Lleol, GIG Lloegr a Llywodraeth Cymru yn defnyddio ystadegau o'r boblogaeth i ddyrannu biliynau o bunnoedd i ardaloedd lleol gan ddefnyddio fformiwlâu cyllido.

---

[68] Cafodd buddiannau Cyfrifiad 2011 eu gwerthuso mewn adroddiad ar wefan SYG yn: https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011censusbenefits/2011censusbenefitsevaluationreport

**Buddsoddiad wedi'i dargedu**: Ar gyfer llawer o ddefnyddiau cyllid lleol a llywodraeth (fel dyraniadau grant) caiff ystadegau ynghylch nodweddion poblogaeth eu defnyddio er mwyn sicrhau bod buddsoddiad wedi'i dargedu yn y meysydd lle mae ei angen fwyaf / lle mae o'r budd mwyaf (er enghraifft cyllid iechyd y cyhoedd). Mae busnesau hefyd yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y cyfrifiad. Er enghraifft, mae'r sector manwerthu yn ei defnyddio er mwyn penderfynu ble i agor siopau newydd.

**Cynllunio gwasanaethau**: Defnyddir cyfrifiadau sylfaenol o'r boblogaeth a chyfrifiadau yn ôl nodweddion allweddol (fel oedran, rhyw, grŵp ethnig a math o gartref) at ddibenion cynllunio gwasanaethau cenedlaethol a lleol. Yn arbennig, mae data ar gyfer ardaloedd bach yn hanfodol wrth gynllunio gwasanaethau lleol fel anghenion addysg (awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb statudol am sicrhau bod digon o lefydd ysgol ac mae'r galw am lefydd ysgol yn lleol yn amrywio ar sail cyfraddau mudo a geni), cynllunio trafnidiaeth, modelu traffig, a datblygu tai.

**Llunio a monitro polisïau**: Mae gwybodaeth am faint, oedran, rhyw a lleoliad y boblogaeth yn hanfodol i amrywiaeth o bolisïau'r llywodraeth. Er enghraifft: heneiddio a gofal cymdeithasol (adolygiad Dilnot o'r system ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol yn Lloegr), mudo (i mewn i'r wlad ac allan o'r wlad ac yn fewnol), a'r gweithlu o gymharu â'r swyddi sydd ar gael (ac felly bwysau chwyddiant). Yng Nghymru, mae gwybodaeth am sgiliau Cymraeg yn cael ei monitro er mwyn llywio polisi iaith.

**Meincnodi ystadegol**: Mae llawer o ystadegau SYG, llywodraeth ehangach a sector preifat yn cael eu meincnodi, eu harchwilio am duedd a/neu eu grosio i fyny gan ddefnyddio ystadegau'r cyfrifiad neu amcangyfrifon a rhagamcanion o'r boblogaeth yn seiliedig ar y cyfrifiad. Maent yn darparu'r enwadur ar gyfer dangosyddion cymdeithasol ac economaidd fel cyfraddau cyflogaeth a diweithdra, a chyfraddau geni, marw, marwoldeb, beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a gordewdra.

**Busnesau yn y sector preifat**: Gan fod y DU yn gadael yr UE, bydd angen i sefydliadau masnachol gystadlu mewn marchnad fyd-eang. Defnyddir ystadegau'r cyfrifiad at ddibenion ymchwil y farchnad ac i dargedu buddsoddiadau.

**Ymchwil y farchnad**: Defnyddir ystadegau'r cyfrifiad i greu pecynnau demograffig (fel Acorn a Mosaic) ac maent yn hanfodol i ddeall nodweddion ardaloedd bach er mwyn targedu strategaethau marchnata.

**Ymchwil academaidd**: Defnyddir ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol-ddemograffig at ddibenion ymchwil – er mwyn deall amodau cymdeithasol ac archwilio effaith polisïau blaenorol.

**Hel achau**: Pan gânt eu rhyddhau ar ôl can mlynedd, mae cofnodion y cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol i achyddion a haneswyr, er mwyn cefnogi ymchwil hel achau neu hanes cymdeithasol.

9.11 Mae defnyddwyr yn disgwyl i'r cyfrifiad arwain y blaen wrth ddatblygu a chyflwyno cwestiynau newydd er mwyn darparu gwell gwybodaeth, a sail i gasglu data mwy effeithiol ar draws y llywodraeth a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae cwestiynau newydd arfaethedig ar y lluoedd arfog, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn parhau i dorri tir newydd, wrth i'r cyfrifiad helpu i lywio polisi er mwyn adlewyrchu cymdeithas sy'n newid a chefnogi newidiadau i agweddau'r cyhoedd. Mae SYG yn parhau i fonitro agweddau'r cyhoedd ym mhob maes.

9.12 Ar yr un pryd, mae'n amlwg bod llawer o ddefnyddwyr am fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir drwy wneud defnydd mwy effeithiol o ddata gweinyddol er mwyn gwella argaeledd gwybodaeth a'r amrywiaeth o wybodaeth a gynhyrchir. Nid yw'r cyfrifiad bob deng mlynedd ynddo'i hun yn ddigonol i ymateb i raddfa'r newid cynyddol mewn rhai ardaloedd. Er bod canlyniadau ymgyngoriadau cyhoeddus yn dangos bod defnyddwyr yn parhau i ddibynnu ar y cyfrifiad, nodwyd bod angen data yn amlach er mwyn gallu deall anghenion newidiol y boblogaeth ac ymateb iddynt yn fwy prydlon.

ISBN: 978-1-5286-0914-2

CCS: CCS1118095578